

Ymgynghoriad ar safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr: Adroddiad dadansoddi

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
Cefndir	3
Prif faterion a gododd yn yr ymatebion.....	4
Prif faterion a gododd fesul gwlad	6
Prif faterion a godwyd fesul math o ymatebydd	7
Effaith y newidiadau a gynigir.....	10
Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gweithgareddau ymgysylltu: yr hyn a glywom.....	12
1. Diwygio'r deilliannau dysgu	12
2. Diwygio'r safonau ar gyfer darparwyr	19
3. Integreiddio'r pum mlynedd o hyfforddiant ac addysg	26
4. Gofynion dethol a derbyn	30
5. Dysgu drwy brofiad a dysgu rhyngddisgyblaethol	40
6. Goruchwylio dysgu wrth ymarfer (cyn-gofrestru)	44
7. Effaith y newidiadau a gynigir ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol	49
8. Effeithiau eraill	54
Camau nesaf.....	57
Atodiad 1: Yr ymgynghoriad	58
1. Cefndir polisi	58
2. Crynodeb o'n hamcanion	59
3. Ynghylch yr ymgynghoriad	60
4. Ein dull dadansoddi ac adrodd	61
Atodiad 2: Proffil ymatebwyr.....	64
Categoriâu ymatebwyr	64
Proffil ymatebwyr unigol	64
Proffil ymatebwyr ar ran sefydliadau	67
Atodiad 3: Sefydliadau.....	69

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Rhwng mis Ionawr ac Ebrill 2019, ymgynghoron ni ar **newidiadau i'n safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr**. Roeddem yn ceisio barn ar chwe phrif faes, sef:

- Adolygu'r deilliannau dysgu er mwyn iddynt ganolbwyntio mwy ar ddatblygu sgiliau clinigol a chyfathrebu, gan barhau i gadw pwysigrwydd hanfodol gwyddoniaeth
- Adolygu'r safonau ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant, gan gynnwys cryfhau ein gofynion o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch
- Cael un set o safonau a deilliannau dysgu i gwmpasu'r cyfnod addysg a hyfforddiant llawn cyn cofrestrriad cychwynnol fferylllydd, gydag integreiddio agosach rhwng astudio academaidd a phrofiad ymarferol
- Cryfhau ein gofynion o ran dethol a derbyn
- Cryfhau dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol
- Gofyn am ddull mwy trylwyr a strwythuredig o oruchwylio dysgu wrth ymarfer (a elwir yn hyfforddiant cyn-gofrestru ar hyn o bryd) gyda chyfarfodydd cynnydd mwy rheolaidd a chofnodedig

Gwnaed yr ymgynghoriad drwy arolwg ar-lein a digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid a chleifion ac aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Trefnom hefyd lawer o gyfarfodydd un wrth un gyda sefydliadau.

Cafwyd 650 o ymatebion i'r ymgynghoriad: 108 gan sefydliadau a 542 gan unigolion.

Mynychodd 144 o unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau dri digwyddiad rhanddeiliaid a thri grŵp ffocws i gleifion. Cyflwynom hefyd mewn 33 o ddigwyddiadau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, gan gyrraedd 1,310 o randdeiliaid, gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol, darparwyr addysg, cyflogwyr, myfyrwyr a hyfforddeion cyn-gofrestru yn eu plith. Cynhaliwyd hefyd webinar ar-lein, a welwyd gan 900 o randdeiliaid.

Prif faterion a gododd yn yr ymatebion

Barn gyffredinol

Mae ein cynigion wedi eu creu i sicrhau bod fferyllwyr yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ymddygiadau angenrheidiol i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel gweithwyr fferyllol proffesiynol, ac er mwyn sicrhau bod eu haddysg a'u hyfforddiant yn ystyried esblygiad gwasanaethau fferyllol. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion. Gwnaed nifer o awgrymiadau a chodwyd nifer o gwestiynau, yn enwedig ynghylch sut y byddai integreiddio dysgu academaidd ac ymarferol yn cael ei weithredu.

Barn ar y deilliannau dysgu

Roedd cefnogaeth eang i'r deilliannau dysgu a nodwyd yn yr ymgynghoriad; canolbwyntio ar ofal â'r unigolyn yn ganolog iddo; proffesiynoldeb; gwybodaeth a sgiliau proffesiynol; a chydweithio.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod y deilliannau dysgu yn glir ac yn uchelgeisiol, ac roeddent yn cytuno eu bod yn ymgorffori'r wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar fferyllwyr i allu ymarfer. Roeddent yn croesawu'r pwyslais cryfach ar gyfathrebu â chleifion a'r tîm amlddisgyblaethol, ac ar sgiliau clinigol. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cadw ffocws ar ddatblygu gwybodaeth wyddonol o fewn addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr.

Nododd llawer o ymatebion angen i egluro ystyr rhai deilliannau'n fanwl a rhoi mwy o ffocws ar dechnoleg ac ar arweiniad.

Barn ar sgiliau'n ymwneud â phresgripsiynu

Roedd nifer fawr o ymatebwyr o blaid ein cynigion i gryfhau sgiliau presgripsiynu yn addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Dywedwyd y byddai ymgorffori sgiliau cyn-bresgripsiynu yn y radd israddedig yn galluogi fferyllwyr sydd newydd gofrestru i hyfforddi fel presgripsiynwyr annibynnol yn gynt. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod sgiliau archwilio clinigol a sgiliau diagnostig yn arbennig o ddefnyddiol. Pwysleisiodd sawl ymatebydd hefyd bod angen ystyried defnyddio systemau presgripsiynu electronig. Roedd ymatebwyr eraill yn holi a ddylai fferyllwyr fod yn presgripsiynu o'r diwrnod cyntaf un.

Barn ar y safonau ar gyfer darparwyr

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn teimlo bod ein safonau ar gyfer darparwyr yn briodol ac roedden nhw'n croesawu'r gofynion cryfach o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch a'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnal adolygiad blynyddol ar berfformiad a derbyniadau myfyrwyr, gan ddefnyddio'r nodweddion gwarchoddedig a ddiffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gwnaeth ymatebwyr eraill argymhellion penodol neu gais am eglurhad ynghylch y safonau sy'n canolbwyntio ar adnoddau a gallu; rheoli, datblygu a gwerthuso addysg a hyfforddiant cychwynnol; dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm; asesu; a chefnogaeth a datblygiad ar gyfer myfyrwyr fferyllol a phobl sy'n darparu addysg a hyfforddiant cychwynnol.

Barn ar integreiddio'r pum mlynedd o hyfforddiant ac addysg

Roedd mwyafrif ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cefnogi'r egwyddor integreiddio. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cydnabod y buddion a ddaw o integreiddio astudio academaidd a phrofiad ymarferol. Nodwyd y byddai'n codi ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr drwy gymhwyso gwybodaeth yn gynharach at ymarfer a rhyngweithio â chleifion a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol.

Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebion yn ansicr ynghylch sut y byddai integreiddio'n cael ei roi ar waith yn ymarferol ac yn poeni ynghylch ei gyllido.

Barn ar ofynion dethol a derbyn

Roedd cefnogaeth eang i'n cynigion i'w gwneud yn ofynnol i brifysgolion asesu sgiliau a phriodoleddau proffesiynol darpar fyfyrwyr ynghyd â'u cymwysterau academaidd, gydag elfennau rhyngweithiol wedi'u hymgorffori yn y broses dderbyn, gan gydnabod ar yr un pryd bod myfyrwyr yn datblygu yn ystod eu haddysg a'u hyfforddiant. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu sut y byddai ein gofynion derbyn arfaethedig yn berthnasol yn ystod y broses Glirio a soniodd eraill am y costau fyddai'n gysylltiedig â'n newidiadau arfaethedig.

Roedd barn gymysg ynghylch a ddylai'r CFFC fod yn fwy haearnidd wrth osod safonau derbyn, gan fynnu mai dim ond y myfyrwyr hynny sy'n ennill y graddau a hysbysebwyd y dylid eu derbyn ar y cwrs, ac a ddylid caniatáu cynigion diamod. Fodd bynnag, roedd yr angen am gysondeb rhwng gofynion yr holl ddarparwyr addysg yn thema gyffredin mewn llawer o ymatebion.

Gwnaeth llawer o ymatebwyr awgrymiadau hefyd ar y sgiliau a'r priodoleddau y dylid eu hasesu mewn ymgeiswyr a fformat yr asesiadau.

Cytunwyd yn gyffredinol y dylai'r gweithdrefnau dethol a derbyn fod yn gynhwysol ac na ddylai effeithio'n andwyol ar ymgeiswyr o unrhyw grŵp neu grwpiau penodol.

Barn ar ddysgu o brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cymeradwyo'r cynnydd mewn dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol yn addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Byddai hyn yn galluogi myfyrwyr i gyflawni lefel uwch o gymhwysedd ac i ddod yn weithwyr proffesiynol mwy effeithiol a hyderus. Dywedodd ymatebwyr ei bod yn bwysig i fyfyrwyr ryngweithio â chleifion a chydweithwyr yn gynharach yn eu haddysg a'u hyfforddiant wrth i rôl y fferylllydd ddod yn fwy clinigol a chael ei gwreiddio mewn timau amlddisgyblaeth. Soniodd llawer o ymatebion am bwysigrwydd cysondeb rhwng darparwyr addysg yn y ddau faes hyn, ac roedd rhai ymatebwyr yn gofyn am esboniad o'r safon a ddisgwylir.

Barn ar oruchwyllo dysgu wrth ymarfer

Roedd llawer o ymatebwyr o blaid ein cynigion ar gyfer dysgu drwy ymarfer, gan gytuno y byddai cyfarfodydd cynnydd mwy rheolaidd a chofnodedig yn cefnogi dilyniant myfyrwyr yn well, yn sicrhau mwy o gysondeb wrth oruchwyllo myfyrwyr ac yn gwella ansawdd yr hyfforddiant. Roedd cefnogaeth eang i fabwysiadu dull wedi'i deilwra mwy at anghenion myfyrwyr.

Gwnaed llawer o awgrymiadau i sicrhau parhad goruchwyliaeth dros fyfyrwyr rhwng addysg a hyfforddiant neu rhwng goruchwylwyr ymarfer. Gwnaed cynigion hefyd ynglŷn â hyfforddi goruchwylwyr. Roedd ymatebwyr hefyd yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch rhoi'r cynigion ar waith a mynegwyd pryderon ynghylch cyllid.

Prif faterion a gododd fesul gwlad

Lloegr

Roedd dros 80% o ymatebwyr yr ymgynghoriad wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae'r adran 'Materion allweddol a godwyd mewn ymatebion' felly yn gynrychioliadol o farn ymatebwyr o Loegr.

Yr Alban

Roedd ymatebwyr o'r Alban am gynnwys neu gryfhau'r deilliannau, empathi, moeseg, delio â grwpiau agored i niwed, gwynwch, rheoli risg ac annog datblygu diwylliant dysgu yn y proffesiwn.

Croesawodd mwyafrif ymatebwyr yr Alban integreiddio astudio academaidd a dysgu drwy ymarfer, gan grybwyll y byddai'n safoni ac yn codi ansawdd addysg a hyfforddiant ac yn sicrhau cydweithredu agos rhwng rhanddeiliaid sy'n darparu addysg a hyfforddiant. Mynegodd sawl ymatebydd o'r Alban bryderon hefyd am oblygiadau integreiddio ar fyfyrwyr. Teimlai ychydig y dylid cynnal cyfnod hirach o ddysgu drwy ymarfer ar ddiwedd yr addysg a'r hyfforddiant cychwynnol i ganiatáu i fyfyrwyr gymhwyso eu gwybodaeth yn ymarferol.

Roedd llawer o ymatebwyr yr Alban yn teimlo, oherwydd bod y proffesiwn fferyllol yn un sy'n gweithio wyneb yn wyneb â chleifion, na allai graddau yn unig ddangos addasrwydd unigolyn i gael ei dderbyn i'r proffesiwn. Yn eu barn nhw, dylai gweithdrefnau derbyn hefyd asesu sgiliau, priodoleddau, rhinweddau personol, gwerthoedd ac ymddygiadau ymgeiswyr. Egluron nhw hefyd fod cynigion diamod yn cael eu cynnig ar ôl i ymadawyr ysgol gyflawni'r meini prawf academaidd gofynnol yn yr Alban.

Croesawodd ymatebwyr yr Alban ein cynigion ynghylch dysgu trwy brofiad, dysgu rhyngbroffesiynol a dysgu wrth ymarfer. Yn eu barn nhw, roedd yn bwysig hyfforddi a chefnogi goruchwylwyr yn ddigonol, cofnodi cyfarfodydd cynnydd a sicrhau ansawdd dysgu wrth ymarfer.

Cymru

Roedd ymatebwyr o Gymru yn croesawu'r deilliannau dysgu, a gwnaethon nhw sylwadau cadarnhaol ynghylch meddylfryd o ganolbwyntio ar bobl. Gwnaethon nhw gynigion penodol i ddileu rywfaint o ddyblygu a newid lefel y deilliannau dysgu penodol. Awgrymon nhw hefyd y dylid cyfeirio at iechyd meddwl pobl yn y deilliannau dysgu.

Roedd ymatebwyr o Gymru yn gefnogol i integreiddio astudio academaidd a dysgu drwy ymarfer ac roedden nhw'n meddwl y byddai'n cynyddu hyder a sgiliau cyfathrebu myfyrwyr ac yn eu gwneud yn fferyllwyr gwell. Fodd bynnag, roeddent yn poeni am drefniadau ariannol ac effaith integreiddio ar fyfyrwyr. Roedd ymatebwyr o Gymru yn teimlo ei bod yn bwysig bod dysgu drwy ymarfer yn digwydd mewn lleoliadau ymarfer o sawl sector a'i bod yn bwysig hefyd sefydlu sianeli cyfathrebu effeithlon rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant.

Roedd mwyafrif ymatebwyr Cymru yn cytuno ynghylch asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr gan eu bod yn teimlo mai dim ond dull mwy cyfannol fyddai'n sicrhau bod y rhai mwyaf addas ar gyfer y proffesiwn yn cael eu derbyn ar raddau Mffer. Roeddent yn ffafrio dull cydweithredol ac yn cynnig cynnwys cyflogwyr, cleifion ac aelodau'r cyhoedd yn rhannau rhyngweithiol y gweithdrefnau derbyn. Roedd llawer o ymatebwyr Cymru hefyd yn teimlo y dylid gwrthod cynigion diamod.

Roedd ymatebwyr Cymru yn teimlo y byddai ein newidiadau arfaethedig i ddysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol yn fuddiol i fferyllwyr y dyfodol.

Roedd ymatebwyr Cymru yn cytuno y byddai cyfarfodydd cynnydd rheolaidd a chofnodedig yn fuddiol gan y byddent yn galluogi goruchwylwyr i gefnogi myfyrwyr yn well. Roedd nifer fach o ymatebwyr o Gymru yn teimlo y dylai mwy nag un goruchwylwr ardystio myfyrwyr.

Gogledd Iwerddon

Mae Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) a'r CFFC yn cydweithredu yn unol â'r egwyddor o gydnabod a symud rhydd myfyrwyr, hyfforddeion a fferyllwyr rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain. Nid yw'r CFFC yn rheoleiddio Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, rydym yn achredu graddau MFfer Prifysgol Queen's, Belfast a Phrifysgol Ulster ac felly fe wnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid Gogledd Iwerddon yn ystod yr ymgynghoriad.

Roedd ymatebwyr Gogledd Iwerddon yn croesawu'r deilliannau dysgu aem eu bod yn cryfhau sgiliau clinigol, cyfathrebu ac ymchwil, ac roeddent yn teimlo y dylai'r deilliannau dysgu gyfeirio'n benodol at sgiliau presgripsiynu neu ragbresgripsiynu.

O ran dethol a derbyn, roedd llawer o ymatebwyr Gogledd Iwerddon o'r farn y gellid dysgu sgiliau a phriodoleddau ar gyfer y broses ddethol ac y gallai darpar fyfyrwyr gael eu hyfforddi i gynhyrchu atebion priodol. Roeddent yn pryderu y byddai sefydliadau preifat yn dechrau cynnig rhaglenni hyfforddi ar gyfer yr ymgeiswyr a allai ei fforddio ac y byddai hyn yn creu mwy o elitaeth.

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith ymatebwyr Gogledd Iwerddon ynghylch integreiddio astudio academiaidd a dysgu wrth ymarfer ac ynghylch cryfhau dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol. Fodd bynnag, gofynnodd ymatebwyr Gogledd Iwerddon am fwy o eglurder o ran ffrydiau cyllido er mwyn galluogi rhoi'r cynigion hyn ar waith ac nid oeddent yn credu y gellid ystyried safonau heb hefyd ystyried y broses ariannu.

Roedd ymatebwyr Gogledd Iwerddon hefyd yn cymeradwyo'r cynnig i ddisodli'r safonau perfformiad cyn-gofrestru gan y deilliannau dysgu ond roeddent yn ansicr ynghylch parodrwydd y sector cymunedol i weithredu ein newidiadau arfaethedig ar gyfer dysgu drwy ymarfer.

Prif faterion a godwyd fesul math o ymatebydd

Cleifion ac aelodau'r cyhoedd

Roedd cleifion ac aelodau'r cyhoedd yn cefnogi'r deilliannau dysgu at ei gilydd. Roeddent yn croesawu'r cynnydd mewn ffocws ar ofal ag unigolion yn ganolog iddo ac ar rymuso pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal. Roeddent o'r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar empathi, cyfathrebu a sgiliau gwranddo yn y deilliannau dysgu.

Roedd cleifion ac aelodau'r cyhoedd o blaid integreiddio astudio academiaidd a dysgu wrth ymarfer, ac yn teimlo y dylai myfyrwyr gael profiad o sawl amgylchedd fferyllol yn ystod eu lleoliadau ac y dylid trefnu lleoliadau o gyfnod cynnar yn addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr.

Roedd cleifion ac aelodau'r cyhoedd yn cytuno gyda'n cynigion ar gyfer dethol a derbyn, er iddynt dynnu sylw at y ffaith y dylid ystyried oedran ifanc ymgeiswyr ac ehangu cyfranogiad. Credai llawer fod angen i ymgeiswyr feddu ar leiafswm o wybodaeth a chymhwysedd i raddio'n llwyddiannus ac roedd yn annheg i brifysgolion gofrestru myfyrwyr na fyddent yn gallu graddio. Er mwyn peidio â rhoi unrhyw ymgeiswyr dan anfantais, cynigiodd cleifion ac aelodau'r cyhoedd y dylid asesu'r ymgeiswyr, nad oeddent yn gallu teithio i ysgolion fferylliaeth ar gyfer rhannau rhyngweithiol y gweithdrefnau derbyn, trwy Skype, er enghraifft. Roedd nifer sylweddol o gleifion ac aelodau'r cyhoedd yn gwrthwynebu cynigion diamod gan

eu bod yn teimlo bod cynigion diamod yn rhwystro disgyblion rhag teimlo digon o gymhelliant i gyrraedd y safonau uchaf, a'u bod yn effeithio ar ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Roedd cleifion ac aelodau'r cyhoedd yn cefnogi ein cynigion ynghylch dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol.

Roeddent yn cytuno ynghylch disodli'r gofyniad bod pedwar tiwtor yn ardstio myfyrwyr ar ddiwedd eu cyfnod addysg cychwynnol gan gyfarfodydd cynnydd rheolaidd. Yn eu barn nhw, byddai monitro cyfarfodydd cynnydd gan ysgolion yn sicrhau dilyniant i fyfyrwyr ac yn ddull cyfryngu pe bai anghytundebau rhwng myfyrwyr a'u goruchwylwyr.

Ysgolion fferylliaeth

Roedd mwyafrif yr ysgolion fferylliaeth yn teimlo bod y deilliannau dysgu diwygiedig yn briodol ar y cyfan ac fe roddon nhw awgrymiadau o ran pethau y gellid eu hychwanegu a rhoi rhagor o eglurder yn eu cylch. Eu sylw mwyaf cyson oedd bod nifer y deilliannau dysgu sy'n canolbwyntio ar y gwyddorau fferyllol yn rhy isel. Roeddent yn teimlo y dylai'r deilliannau dysgu nodi pa ddisgyblaethau gwyddonol y dylid eu cynnwys yn addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Gofynnodd sawl ysgol am arweiniad, enghreifftiau neu esboniad o'r disgwyliadau ynghylch sut y dylid rhoi'r deilliannau dysgu ar waith, gan eu bod yn amhenodol. Soniodd nifer fach o ysgolion hefyd y byddai angen buddsoddiad ariannol pellach er mwyn newid sawl deiliant dysgu o 'Dangos Sut' i 'Yn Gwneud'.

Er bod dwy o bob tair ysgol yn cytuno y dylid ystyried dysgu myfyrwyr fel continwrm rhwng dysgu academaidd a dysgu wrth ymarfer, roedd llawer ohonynt yn credu na ellid gweithredu ein newidiadau arfaethedig heb gyllid ychwanegol. Soniodd nifer sylweddol o ysgolion am y costau ychwanegol posibl fyddai'n gysylltiedig â chynnig gradd MFfer integredig (gan gynnwys rheolaeth weinyddol y rhaglen, penodi staff newydd a sicrhau ansawdd dysgu wrth ymarfer) ac roeddent yn pryderu y byddai rhai prifysgolion yn rhoi'r gorau i gynnig graddau MFfer pe byddent yn eu hystyried yn annichonadwy bellach. Roeddent hefyd o'r farn na ddylai myfyrwyr orfod talu am bumed flwyddyn o addysg a hyfforddiant gan y byddai'n gwneud addysg fferyllol yn llawer llai deniadol. Gofynnodd llawer o ysgolion am i gyllid y llywodraeth gael ei gadarnhau'n benodol cyn gwneud newidiadau i'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol. Gofynnodd sawl ysgol hefyd am fwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau ac atebolrwydd mewn model integredig. Roeddent yn ansicr pa sefydliad fyddai'n gyfrifol am gymeradwyo safleoedd a goruchwylwyr dysgu wrth ymarfer ac am oruchwyllo a sicrhau ansawdd dysgu wrth ymarfer. Roedd nifer o ysgolion o'r farn y dylid creu seilwaith canolog ar gyfer dysgu wrth ymarfer. Yn eu barn nhw, byddai creu partneriaethau rhwng ysgolion a darparwyr hyfforddiant yn ddwys o ran adnoddau ac yn arwain at amrywiadau yn ansawdd y dysgu wrth ymarfer. Fe awgrymon nhw y dylid creu seilwaith dysgu wrth ymarfer, ar batrwm Deoniaeth er enghraifft, a fyddai'n berthnasol ar lefelau cenedlaethol neu ranbarthol. Awgrymwyd y byddai'r Deoniaethau hyn yn gyfrifol am sicrhau ansawdd mewn lleoliadau dysgu wrth ymarfer. Yn addysg a hyfforddiant proffesiynau eraill, mae Deoniaethau yn unedau lleol, sy'n gyfrifol am weithredu hyfforddiant arbenigol/uwch yn unol â safonau cymeradwy'r rheoleiddwyr. Gallant weithiau osod polisiau lleol ac mae pob un ohonynt yn cael ei oruchwyllo gan ddeon myfyrwyr ôl-raddedig, sydd â'r cyfrifoldeb pennaf yn y pen draw dros addysg a hyfforddiant yr holl fyfyrwyr/hyfforddeion yn y rhanbarth hwnnw.

Roedd mwyafrif yr ysgolion yn cytuno ynghylch gwerth asesu sgiliau a phriodweddau darpar fyfyrwyr a dywedodd sawl un ohonynt fod eu gweithdrefnau derbyn eisoes yn cynnwys elfennau rhyngweithiol. Fodd bynnag, roedd rhai ysgolion yn poeni am effaith ariannol gweithredu'r newidiadau arfaethedig o ran dethol a derbyn, am anhawster trefnu'r asesiadau ymgeiswyr wyneb yn wyneb yn ystod y broses Glirio ac ynghylch ehangu cyfranogiad. Roedd ychydig ohonynt yn teimlo y dylid ystyried oedran ifanc

ymgeiswyr mewn gweithdrefnau derbyn. Roedd nifer o ysgolion yn teimlo y dylai ysgolion barhau i benderfynu ar eu gofynion a'u gweithdrefnau derbyn eu hunain, gan gynnwys eu hagwedd at gynigion diamod.

Er bod mwyafrif yr ysgolion yn cytuno bod buddion yn dod o ddysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol, gofynnon nhw am eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwyliid o ran cyrraedd y safonau (faint o brofiadau o'r fath, a'u natur, cydbwysedd rhwng dysgu efelychol ac ymarferol). Dywedodd sawl ysgol eu bod yn credu y dylai'r CFFC osod lleiafswm gofynion ar gyfer dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol gan eu bod yn poeni am anghysondeb mewn darpariaeth rhwng gwahanol ddarparwyr addysg. Pryder arall a rannwyd gan lawer o'r ysgolion oedd y gost fyddai'n gysylltiedig â gweithredu ein newidiadau arfaethedig mewn perthynas â dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol. Dywedon nhw y byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer hyn. Nododd sawl ysgol hefyd ei bod yn anodd trefnu gweithgareddau dysgu rhyngbroffesiynol gyda myfyrwyr o broffesiynau eraill weithiau am fod ganddynt wahanol strwythurau addysg a hyfforddiant cychwynnol. Cynigiodd nifer o ysgolion y dylai'r CFFC ymgysylltu â rheoleiddwyr y proffesiynau hyn i sicrhau y byddai pwyslais rhyngbroffesiynol y safonau arfaethedig yn ymarferol bosibl.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cytuno â'r cynnig i ddisodli'r gofyniad i gael pedwar tiwtor i ardystio myfyrwyr yn ystod hyfforddiant cyn-gofrestru gan gyfarfodydd cynnydd rheolaidd, gan eu bod yn teimlo y byddai hyn yn gwella goruchwyliaeth myfyrwyr. Roeddent yn teimlo y dylai'r CFFC osod isafswm o gyfarfodydd cynnydd neu nodi lleiafswm o amser rhwng cyfarfodydd gan eu bod yn gweld yr ymadrodd "mwy rheolaidd" yn rhy amwys. Gofynnodd sawl ysgol ym mha ffordd y dylen nhw fod ynghlwm wrth y cyfarfodydd cynnydd a mynegwyd pryderon am y costau fyddai'n gysylltiedig â goruchwyllo'r cyfarfodydd cynnydd. Roeddent hefyd yn teimlo bod ansawdd y cyfarfodydd yn bwysicach na'u nifer ac yn cynnig bod yr ysgolion a'r darparwyr hyfforddiant, mewn cydweithrediad â'r CFFC, yn nodi union ddiben y cyfarfodydd cynnydd ac yn gosod gofynion ar gyfer hyfforddiant goruchwylwyr.

Roedd cytundeb eang ynghylch disodli safonau perfformiad cyn-gofrestru gan ddeilliannau dysgu er mwyn cyd-fynd â'r arferion diweddaraf.

Darparwyr hyfforddiant

Roedd cefnogaeth eang i'r deilliannau dysgu ymhlith ymatebion darparwyr hyfforddiant. Roedden nhw'n cymeradwyo'n benodol y nod o gryfhau sgiliau cyfathrebu a chydweithio a nodir yn y deilliannau dysgu, gan gynnwys cydweithredu â chydweithwyr nad ydynt yn weithwyr proffesiynol.

Roedd darparwyr hyfforddiant yn cytuno ag egwyddor integreiddio oherwydd, yn eu barn nhw, y byddai'n creu rhaglen hyfforddi gydlynol fyddai'n galluogi rhoi gwedd ymarferol ar ddysg myfyrwyr. Fodd bynnag, roedd llawer o ddarparwyr hyfforddiant yn ansicr ynghylch sut y dylid gweithredu integreiddio (gan gynnwys mewn perthynas â chydlynu rhyngweithio â sawl ysgol a mecanweithiau adrodd ar gynnydd myfyrwyr rhwng yr ysgol, y darparwr hyfforddiant a'r CFFC). Roeddent hefyd yn poeni am gyllid (gan gynnwys a allai hyn olygu bod myfyrwyr yn colli'r cyflog cyn-gofrestru, yn ogystal â'r seilweithiau gweinyddol fyddai'n ofynnol, a hyfforddiant goruchwylwyr) ac esboniwyd bod yn rhaid i fferyllwyr sy'n ymwneud â goruchwyllo myfyrwyr gydbwyso eu rôl addysgu â'u cyfrifoldebau clinigol. Yn eu barn nhw, roedd angen creu a datrys trefniadau cyllido priodol a chynaliadwy newydd cyn gweithredu unrhyw newidiadau pellach.

O ran gofynion derbyn, roedd darparwyr hyfforddiant yn croesawu'r cynigion ynghylch asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr a chynnwys elfen ryngweithiol mewn gweithdrefnau derbyn. Roedd sgiliau cyfathrebu a'r awydd i ofalu am gleifion yn arbennig o bwysig iddynt. Gofynnodd sawl darparwr

hyfforddiant sut y gallent gael mewnbwn i weithdrefnau derbyn gan eu bod yn teimlo y dylent fod yn rhan o'r rheiny. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith darparwyr hyfforddiant i beidio â chaniatáu cynigion diamod mwyach.

Roedd darparwyr hyfforddiant yn cyffredinol gefnogi ein cynnig ynghylch dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol ond roedden nhw'n holi sut y byddai hyn yn cael ei drefnu.

Roedd llawer o ddarparwyr hyfforddiant yn cytuno gyda'r cynnig i ddisodli'r drefn o gael pedwar tiwtor i ardystio myfyrwyr gan gyfarfodydd cynnydd rheolaidd ac roeddent yn gofyn am fwy o arweiniad ynghylch pa mor aml y dylai'r cyfarfodydd ddigwydd, a'u strwythur, cyflwyno dogfennaeth i ysgolion fferyllol a fframweithiau i oruchwylio hyfforddeion. Gofynnodd sawl darparwr hyfforddiant sut y byddai cymeradwyo cymhwysedd myfyrwyr ar ddiwedd eu haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol yn cael ei drefnu rhwng yr ysgolion a nhw eu hunain. Roedd darparwyr hyfforddiant yn cytuno â'r cynnig i ddisodli'r safonau perfformiad cyn-gofrestru gan y deilliannau dysgu ond roeddent yn gofyn am arweiniad ar sut y dylid gweithredu'r deilliannau dysgu.

Effaith y newidiadau a gynigir

Cleifion ac aelodau'r cyhoedd

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai'r newidiadau a gynigir gennym yn fuddiol i gleifion ac aelodau'r cyhoedd gan y byddent yn derbyn gofal o safon uwch.

Myfyrwyr

Thema gyffredin oedd y byddai'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig yn fuddiol i ddatblygiad myfyrwyr ac yn codi ansawdd ymarfer fferyllwyr y dyfodol.

Roedd prif bryder yr ymatebwyr yn ymwneud ag effaith ariannol ein cynigion ar fyfyrwyr. Roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai cyflwyno gradd integredig yn golygu y byddai'n rhaid i fyfyrwyr dalu am bumed flwyddyn o addysg a hyfforddiant a pheidio â derbyn cyflog yn ystod eu dysgu wrth ymarfer. Roedd ymatebwyr hefyd yn rhagweld y byddai cael sawl cyfnod dysgu byrrach mewn lleoliadau ymarfer trwy gydol y pum mlynedd o addysg a hyfforddiant cychwynnol yn golygu costau llety a theithio ychwanegol i fyfyrwyr. Roedd sawl ymatebydd yn poeni y gallai myfyrwyr rhyngwladol sy'n dymuno ennill gradd MFfer yn y DU, ond nad ydynt yn ymgymryd â'u dysgu wrth ymarfer yn y DU, benderfynu peidio ag astudio yn y DU.

Ysgolion fferylliaeth

Roedd ysgolion fferylliaeth yn poeni am effaith ariannol ein cynigion a'r effaith o ran adnoddau. Roedden nhw'n esbonio y byddai integreiddio yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi trefniadau pontio mawr ar waith, ac y byddai hyn yn ddwys o ran amser ac adnoddau iddynt. Roeddent hefyd yn rhagweld y byddai costau uwch ynghlwm wrth newid a chynnal eu gweithdrefnau derbyn; wrth drefnu a sicrhau ansawdd dysgu drwy brofiad mewn lleoliadau ymarfer; wrth benodi a hyfforddi staff; ac wrth reoli rhaglenni yn weinyddol. Roeddent o'r farn y byddai'n anodd iddynt weithredu ein newidiadau arfaethedig yn yr amgylchedd cyllido presennol.

Darparwyr hyfforddiant

Roedd darparwyr hyfforddiant yn poeni am logisteg hyfforddi myfyrwyr a oedd ar wahanol gamau yn eu haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol, ar wahanol adegau ac yn ystod lleoliadau byrrach. Roeddent hefyd yn ansicr ynghylch sut i weithio gyda sawl ysgol fferylliaeth ar yr un pryd ac yn poeni am effaith

ein newidiadau arfaethedig ar lif gwaith fferyllfeydd. Soniodd darparwyr hyfforddiant hefyd am y costau fyddai'n gysylltiedig â hyfforddi'r holl staff fyddai'n ymwneud â goruchwyllo myfyrwyr i safon uwch a chostau gweinyddol uwch.

Esboniodd darparwyr hyfforddiant hefyd fod hyd presennol y lleoliadau cyn-gofrestru yn eu galluogi i hyfforddi myfyrwyr yn ôl eu prosesau nhw ac asesu cymhwysedd myfyrwyr cyn eu recriwtio. Roeddent yn pryderu na fyddent yn gallu gwneud hyn bellach oherwydd cyfnodau byrrach o ddysgu wrth ymarfer.

Roedd sawl darparwr hyfforddiant hefyd yn pryderu y byddai cyflwyno cyfnodau byrrach o ddysgu wrth ymarfer yn golygu y byddai myfyrwyr yn chwilio am leoliadau yn agos at eu cartrefi ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ddarparwyr hyfforddiant mewn ardaloedd llai poblog ac mewn ardaloedd gwledig.

Pobl yn rhannu nodweddion gwarchodedig penodol

Gofynnem i ymatebwyr yr ymgynghoriad ac i randdeiliaid a allai ein cynigion, yn eu barn nhw, wahaniaethu yn erbyn neu fod o fudd i unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r adran hon yn crynhoi barn ymatebwyr.

O ran ein gofynion dethol a derbyn, soniodd ymatebwyr am effeithiau posibl ar ymgeiswyr aeddfed (effeithiau cadarnhaol o ran asesu eu sgiliau a'u priodoleddau; effeithiau negyddol o ran gofynion academiaidd llymach gan eu bod yn fwy tebygol o fod â chymwysterau annodweddiadol), ar ymgeiswyr ifanc (a allai ei chael hi'n anodd dangos bod ganddyn nhw'r gwerthoedd, yr aeddfedrwydd a'r agweddau proffesiynol i fod yn fferylllydd), ar bobl ag anableddau neu anawsterau cyfathrebu (a allai ei chael hi'n anodd addasu i anghenion cyfathrebu pobl, i ystyried cyfathrebu di-eiriau, neu i ddangos empathi), ar grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) (pryder y byddai cyflwyno elfen ryngweithiol i'r weithdrefn dderbyn yn cynyddu rhagfarn anymwybodol bosibl).

O ran Integreiddio, soniodd ymatebwyr am effeithiau posibl ar fyfyrwyr aeddfed (cost pum mlynedd o addysg a hyfforddiant cychwynnol, cyfrifoldebau gofalu fyddai'n eu gwneud yn llai abl i adleoli ar gyfer dysgu wrth ymarfer), pobl anabl (anhawster trefnu ac adleoli ar gyfer sawl cyfnod dysgu mewn lleoliadau dysgu wrth ymarfer).

Esboniodd sawl ymatebydd hefyd fod y gefnogaeth a gynigir gan ddarparwyr hyfforddiant i bobl ag anableddau weithiau'n brin a bod angen gwella hyn.

Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gweithgareddau ymgysylltu: yr hyn a glywom

1. Diwygio'r deilliannau dysgu

1.1. Yn rhan hon yr adroddiad, mae'r Tablau'n dangos lefel cytuno/anghytuno ymatebwyr yr arolwg ynghylch ein newidiadau arfaethedig, neu'r elfennau roedd ymatebwyr yn teimlo y dylem eu haddasu. Ym mhob colofn, dangosir nifer yr ymatebwyr ('N') a'u canran ('%'). Mae'r golofn olaf ym mhob Tabl yn cyfleu barn holl ymatebwyr yr arolwg ('Cyfanswm N a%'). Mae ymatebion unigolion a sefydliadau hefyd yn cael eu dangos ar wahân i alluogi adnabod unrhyw dueddiadau.

Tabl 1: Barn ar y deilliannau dysgu

C1. O ystyried y casgliad llawn o ddeilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau hyfforddiant ac addysg cychwynnol drafft, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rhain yn ddeilliannau dysgu priodol ar gyfer fferyllwyr?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	163 (31%)	24 (24%)	187 (30%)
Tueddu i gytuno	270 (52%)	70 (69%)	340 (55%)
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	41 (8%)	3 (3%)	44 (7%)
Tueddu i anghytuno	20 (4%)	5 (5%)	25 (4%)
Anghytuno'n gryf	11 (2%)	0 (0%)	11 (2%)
Ddim yn gwybod	14 (3%)	0 (0%)	14 (2%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

1.2. Fel yr adlewyrchir yn y ffigurau yn Nhabl 1 uchod, roedd 85% o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cytuno â'n deilliannau dysgu arfaethedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr, ac roedd 6% yn anghytuno. Roedd ymatebwyr o sefydliadau yn fwy o blaid y deilliannau dysgu (93%) nag oedd ymatebwyr unigol (83%).

Tabl 2: Barn ar elfennau sydd ar goll o'r deiliannau dysgu neu sydd angen eu diwygio

C2. Oes unrhyw beth ar goll o'r deiliannau dysgu, neu unrhyw beth y dylid ei newid?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Oes	130 (25%)	72 (71%)	202 (33%)
Nac oes	252 (49%)	28 (27%)	280 (45%)
Ddim yn gwybod	137 (26%)	2 (2%)	139 (22%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

1.3. Fel y gwelir yn Nhabl 2, roedd ychydig llai na hanner (45%) ymatebwyr yr ymgynghoriad yn fodlon â'r deiliannau dysgu. Roedd traean (33%) o'r ymatebwyr o'r farn bod agweddau ar goll neu fod angen eu diwygio yn y deiliannau dysgu. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr ar ran sefydliadau yn teimlo y dylid addasu'r deiliannau dysgu (71%) o'i gymharu â 25% ar gyfer ymatebwyr unigol. Fodd bynnag, roedd cyfran uwch o unigolion yn teimlo nad oeddent yn gwybod a oedd angen addasu'r deiliannau (26%) o'i gymharu â sefydliadau (2%).

1.4. Gofynnwyd i'r ymatebwyr oedd yn teimlo bod elfennau o'r deiliannau dysgu ar goll a/neu angen eu diwygio (ymateb 'Oes' i Gwestiwn 2) pa barthau o blith y deiliannau dysgu yr oedd angen eu haddasu. Mae Tabl 3 yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr a nododd fod angen ychwanegiadau a/neu welliannau ym mhob parth.

Tabl 3: Barn ar y parthau yn y deiliannau dysgu roedd angen ychwanegu atynt a/neu eu diwygio

C3. Pa un neu rai o'r meysydd canlynol sydd angen ychwanegu atynt a/neu eu diwygio?	O bob unigolion a ddywedodd 'Oes' yn C2 (N a %)	O bob unigolyn a ymatebodd (N a %)	O bob sefydliad a ddywedodd 'Oes' yn C2 (N a %)	O bob sefydliad a ymatebodd (N a %)	O bawb a ddywedodd 'Oes' yn C2 (N a %)	O bawb a ymatebodd (N a %)
Gofal â phobl yn ganolog iddo	42 (32%)	42 (8%)	43 (60%)	43 (42%)	85 (42%)	85 (14%)
Proffesiynoldeb	47 (36%)	47 (9%)	41 (57%)	41 (40%)	88 (44%)	88 (14%)
Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol	90 (69%)	90 (17%)	60 (83%)	60 (59%)	150 (74%)	150 (24%)
Cydweithio	52 (40%)	52 (10%)	45 (63%)	45 (44%)	97 (48%)	97 (16%)
Arall	31 (24%)	31 (6%)	17 (24%)	17 (17%)	48 (24%)	48 (8%)
Cyfanswm N ymatebwyr	130	519	72	102	202	621

1.5. Roedd 74% o'r holl ymatebwyr a ymatebodd 'Oes' i Gwestiwn 2 yn teimlo bod angen diwygio'r parth ar wybodaeth a sgiliau proffesiynol. Roedd gwahaniaethau rhwng unigolion a sefydliadau.

Teimlai mwy o ymatebwyr ar ran sefydliadau fod angen diwygio'r parth ar wybodaeth a sgiliau proffesiynol (83% ar gyfer sefydliadau o'i gymharu â 69% ar gyfer unigolion). Fodd bynnag, roedd y gwahaniaeth mwyaf mewn safbwyntiau rhwng y ddau grŵp hyn o ymatebwyr yn canolbwyntio ar barth gofal â'r unigolyn yn ganolog iddo (60% ar gyfer sefydliadau o'i gymharu â 32% ar gyfer unigolion).

- 1.6. Gofynnwyd i'r un ymatebwyr (y rhai a ymatebodd 'Oes' i Gwestiwn 2 - 33% o ymatebwyr yr arolwg) roi disgrifiad byr i ni o'r ychwanegiadau a/neu'r diwygiadau yr oeddent yn credu bod eu hangen. Gwnaeth ymatebwyr hyn awgrymiadau hefyd ynghylch mwy o eglurder a ffyrdd y gellid cryfhau'r deilliannau dysgu. Manylir ar y rhain yn y sylwebaeth isod.
- 1.7. Er iddynt fynegi'r farn bod angen diwygio ychydig ar y deilliannau dysgu, dywedodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno'n gyffredinol gyda'r deilliannau dysgu. Roeddent yn croesawu'r cynnydd mewn pwyslais ar ofal â phobl yn ganolog iddo, sgiliau clinigol a gweithio rhyngbroffesiynol. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y deilliannau dysgu yn glir, yn uchelgeisiol, yn gyraeddadwy ac yn adlewyrchu'r hyn fyddai angen i fferyllwyr ei wneud yn y dyfodol. Roedd sawl ymatebydd yn falch bod nifer y deilliannau dysgu, ac felly dyblygu, wedi lleihau. Rhoddir adborth manylach yn y sylwebaeth isod.
- 1.8. Roedd rhanddeiliaid a chleifion ac aelodau o'r cyhoedd a gymerodd ran mewn digwyddiadau a grwpiau ffocws yn cytuno â llawer o farn ymatebwyr yr arolwg. Nodon nhw hefyd feysydd ychwanegol i'w hystyried i gryfhau'r deilliannau dysgu. Rydym wedi nodi argymhellion a wnaethant ar wahân yn yr adran hon.

Barn gyffredinol

- 1.9. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod y deilliannau dysgu yn rhoi darlun cywir o'r hyn y dylai fferyllwyr modern allu ei wneud. Teimlai ymatebwyr y byddai'r deilliannau dysgu yn sicrhau bod fferyllwyr sydd newydd gymhwyso yn gymwys ac yn gallu gweithredu yn y gweithle. Croesawodd sawl ymatebydd y ffaith bod y deilliannau dysgu yn canolbwyntio ar egwyddorion allweddol ac yn cael eu hadeiladu ochr yn ochr â'r Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Parth 1: Gofal â phobl yn ganolog iddo

Gofal â phobl yn ganolog iddo a chyfathrebu

- 1.10. Roedd cefnogaeth gref i'r cynnydd mewn ffocws ar ofal â phobl yn ganolog iddo yn y deilliannau dysgu. Roedd nifer fawr o'r ymatebwyr a roddodd adborth penagored yn cytuno ynghylch pwysigrwydd grymuso pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal. Dywedodd cleifion ac aelodau o'r cyhoedd a gymerodd ran mewn digwyddiadau ymgynghori y dylid rhoi mwy o bwyslais ar empathi yn y deilliannau dysgu.
- 1.11. Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r pwyslais ar sgiliau cyfathrebu. Mynegodd cleifion ac aelodau o'r cyhoedd a gymerodd ran yn ein digwyddiadau ymgysylltu, yn benodol, y gellid gwella sgiliau gwrando a sgiliau cyfathrebu rhai fferyllwyr sy'n ymarfer ar hyn o bryd. Yn eu barn nhw, dylai fferyllwyr ofyn y cwestiynau cywir a cheisio deall anghenion pobl, a dylai fferyllwyr wrando, addasu i anghenion cyfathrebu pobl ac ystyried cyfathrebu di-eiriau. Soniwyd hefyd mewn llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad y dylai fferyllwyr sicrhau bod pobl yn deall y wybodaeth a ddarperir iddynt.

- 1.12. Roedd ystyried anghenion pobl yn hytrach na defnyddio dull yn seiliedig ar dystiolaeth yn unig yn thema a oedd yn bresennol mewn llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad. Esboniodd llawer o ymatebwyr y dylai fferyllwyr allu adnabod nodau pobl, trafod â phobl sut y gall meddyginiaethau gyfrannu at gyflawni eu nodau ac, er mwyn cyflawni hynny, bod angen iddynt allu deall profiad y claf.
- 1.13. Thema gyffredin oedd y dylid hyfforddi fferyllwyr i ystyried gwahaniaethau diwylliannol a chrefyddol, anabledau a chyfeiriadau rhywiol. Awgrymodd ymatebwyr y dylai fferyllwyr ofyn cwestiynau agored a chynhwysol a defnyddio iaith niwtral o ran rhyw. Cynigiodd rhai ymatebwyr ddysgu'r cysyniad o degwch i fyfyrwyr. Yn eu barn nhw, roedd darparu gwasanaethau mewn ffordd gyfartal yn golygu cydnabod anghenion gwahanol a chymhleth pobl ac addasu gofal fel ei fod yn berthnasol i anghenion gofal iechyd pob unigolyn. Roedd yn hanfodol i ymatebwyr bod pobl yn derbyn gofal iechyd sy'n berthnasol i'w hanghenion yn hytrach nag yn seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed amdanynt.

Parth 2: Proffesiynoldeb

- 1.14. Roedd cleifion ac aelodau'r cyhoedd yn croesawu'r deilliannau dysgu fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddysgu gweithio o fewn terfynau eu cymhwysedd ac atgyfeirio at weithwyr proffesiynol iechyd a gofal eraill pan fo angen. Roedd cefnogaeth eang hefyd ymhlith ymatebwyr yr arolwg a rhanddeiliaid i'r deilliannau dysgu sy'n canolbwyntio ar ddysgu parhaus a hunanddatblygiad.
- 1.15. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y deilliannau dysgu yn darparu diffiniad clir o'r term proffesiynoldeb. Yn eu profiad nhw, roedd rhai myfyrwyr a goruchwylwyr yn cael trafferth deall ei wir ystyr. Cynigiodd ymatebwyr eraill y dylai'r deilliannau dysgu ganolbwyntio mwy ar foeseq. Dywedon nhw fod myfyrwyr yn gallu ei chael hi'n heriol gwneud penderfyniadau moesegol.
- 1.16. Tynnodd ychydig o ymatebion sylw at y ffaith bod y gwahaniaeth rhwng Parth 2 (proffesiynoldeb) a Pharth 3 (gwybodaeth a sgiliau proffesiynol) weithiau'n artiffisial gan y gellid gosod rhai deilliannau dysgu yn y naill barth neu'r llall. Fodd bynnag, roedd cytundeb mwy cyffredinol y byddai deilliant dysgu 2.13 ar reoli heintiau yn well ym Mharth 3.
- 1.17. Soniodd sawl ymateb y dylid cryfhau'r cysyniad o wytnwch ym Mharth 2.

Parth 3: gwybodaeth a sgiliau proffesiynol

Gwyddoniaeth

- 1.18. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y deilliannau dysgu yn canolbwyntio gormod ar ymarfer. Yn eu barn nhw, roedd angen canolbwyntio mwy o ddeilliannau dysgu ar wyddoniaeth fferyllol. Teimlai'r ymatebwyr hyn fod y term "gwyddoniaeth fferyllol" yn rhy eang ac roeddent yn anghytuno y gellid rhoi'r holl wybodaeth wyddonol mewn un deilliant dysgu yn unig. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai'r deilliannau dysgu gyfeirio at barthau gwyddonol penodol. Iddyn nhw, byddai'r dull hwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn caffael sail gwybodaeth wyddonol gadarn gan eu galluogi i gymhwyso egwyddorion gwyddonol angenrheidiol, datrys problemau a thrafod sefyllfaoedd annisgwyl at eu hymarfer yn y dyfodol. Darparodd sawl ymatebydd enghreifftiau penodol o'r wybodaeth wyddonol y dylid ei chrybwyll yn y deilliannau dysgu. Sonion nhw am ymwrthedd gwrthficrobaidd, polifferylliaeth ac adolygiadau meddygaeth, imiwnoleg a biolegolau.

- 1.19. Soniodd llawer o ymatebion mai fferyllwyr yw'r unig aelodau o'r tîm gofal iechyd sydd â gwybodaeth wyddonol fanwl am feddyginiaethau ac y dylai fferyllwyr, er budd cleifion, gadw'r arbenigedd hwnnw.

Sgiliau clinigol

- 1.20. Roedd cefnogaeth eang i'r cynnydd mewn pwyslais ar sgiliau clinigol yn y deilliannau dysgu. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno â chynnwys y deilliannau dysgu ynghylch sgiliau ymgynghori a diagnostig ac archwiliadau corfforol.
- 1.21. Roedd nifer fawr o ymatebwyr hefyd o blaid ein cynigion i gryfhau sgiliau'n gysylltiedig â presgripsiynu yn addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Iddyn nhw, byddai ymgorffori sgiliau cyn-bresgripsiynu yn y radd israddedig yn galluogi fferyllwyr sydd newydd gofrestru i hyfforddi fel presgripsiynwyr annibynnol yn gynt. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod sgiliau archwilio clinigol a sgiliau diagnostig yn arbennig o ddefnyddiol.
- 1.22. Er bod nifer sylweddol o ymatebwyr yn cytuno ynghylch cynyddu sgiliau clinigol yn y deilliannau dysgu, roedd ychydig ohonynt yn poeni y byddai'n anodd ennill y sgiliau hyn mewn rhai amgylcheddau hyfforddi. Roeddent yn cwestiynu sut y dylid cyflwyno sgiliau clinigol a sut y byddent yn cyflawni ar lefel 'Yn gwneud' triongl Miller 1.
- 1.23. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn poeni am archwiliadau corfforol. Roeddent yn cwestiynu a fyddai disgwyl i fferyllwyr gynnal archwiliadau corfforol i'r un safon â meddyg ac roedd pryder ynghylch ymestyn cyfrifoldebau fferyllwyr heb hyfforddiant priodol. Holodd nifer fach o ymatebwyr hefyd a oedd nifer ddigonol o fferyllwyr â'r sgiliau hyn i gynorthwyo myfyrwyr i'w datblygu.
- 1.24. Esboniodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnydd mewn ffocws ar sgiliau clinigol na fyddai pob fferyllwyr yn gweithio mewn rolau'n wynebu cleifion. Iddyn nhw, dylai fferyllwyr barhau i fod yn arbenigwyr ar wyddoniaeth meddyginiaethau. Roeddent yn pryderu y byddai hanfodion gwyddoniaeth yn cael eu gwanhau ymhlith sgiliau eraill ac y byddai fferyllwyr yn dod yn glinigwyr generig. Roedd yr ymatebwyr hyn o blaid deilliannau dysgu â ffocws cryfach ar y wyddoniaeth sylfaenol sydd ei hangen i lywio gofal â phobl yn ganolog iddo a chydweithio.

Gweithgareddau ymchwil

- 1.25. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn cwestiynu pwysigrwydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil hyd yn oed pan oeddent yn cytuno y dylai myfyrwyr ddeall ymchwil, technegau ymchwil a sut mae ymchwil yn cael ei gymhwyso at ymarfer. Roeddent yn cynnig y dylai myfyrwyr fod yn rhan o weithgareddau archwilio clinigol yn lle.
- 1.26. I ymatebwyr eraill, roedd yn hanfodol i fferyllwyr gael eu haddysgu i adfyfrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill pobl eraill. Yn eu barn nhw, byddai sail gref mewn ymchwil yn seiliedig ar ymarfer yn cefnogi datblygu proffesiwn sy'n feddylgar, yn cwestiynu ac yn awyddus i esblygu.

Gwybod am, a defnyddio, technolegau

- 1.27. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i gyflwyno deilliannau dysgu yn canolbwyntio ar dechnolegau.

- 1.28. Roedd sawl ymateb yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar ddefnyddio data i wella gofal. Egluron nhw fod y system gofal iechyd yn newid yn gyflym a bod fferyllwyr yn chwarae rhan bwysicach ym maes iechyd y cyhoedd a chynllunio lefel y boblogaeth. Cynigiodd ymatebwyr fod angen deilliannau dysgu mwy penodol i gwmpasu data, llythrennedd TG a defnyddio systemau presgripsiynu electronig.
- 1.29. Credai ychydig o ymatebwyr hefyd fod technolegau yn grymuso fferyllwyr i wneud diagnosisu mwy ystyrlon gyda chanlyniadau clinigol ffafriol ac roeddent yn teimlo y dylai diagnosis digidol ddod yn rhan annatod o fferylliaeth.

Parth 4: Cydweithio

- 1.30. Roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn bod Parth 4 (cydweithredu) yn edrych yn anghytbwys oherwydd y nifer fach o ganlyniadau dysgu oedd ynddo o'i gymharu â pharthau eraill.

Cydweithio gyda phroffesiynau eraill

- 1.31. Roedd cefnogaeth eang i'r newidiadau a gynigiwyd i alluogi dysgu ar y cyd rhwng proffesiynau a fferyllwyr y dyfodol er mwyn iddynt weithio'n agosach gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill. Esboniodd ymatebwyr fod fferyllwyr yn gweithio'n rhan o dimau amlbroffesiynol ym mhob lleoliad gofal. Iddyn nhw roedd y gallu i weithio'n dda mewn timau o'r pwys mwyaf i gefnogi rheolaeth ddiogel ac effeithiol dros feddyginiaethau.
- 1.32. Fodd bynnag, roedd sawl ymatebydd yn teimlo y dylai graddau MFfer bwysleisio bod fferyllwyr yn gweithio o fewn ac ar draws sectorau, ond hefyd nad yw pob un o ryngweithiadau fferyllwyr â gweithwyr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol eraill. Yn eu barn nhw, dylai myfyrwyr hefyd fod yn barod, er enghraifft, i weithio gyda derbynyddion a rheolwyr gwasanaethau a chomisiynwyr.

Arweinyddiaeth

- 1.33. Roedd sawl ymateb yn croesawu ychwanegu arweinyddiaeth glinigol at y deilliannau dysgu. Roedd y rhai a fynychodd ddigwyddiadau ymglymu yn arbennig o gefnogol o hyn.
- 1.34. Teimlai ychydig o ymatebwyr nad oedd y rôl flaenllaw a fydd gan fferyllwyr mewn lleoliadau gofal iechyd yn y dyfodol yn cael ei adlewyrchu'n ddigon cryf yn y deilliannau dysgu. Iddyn nhw roedd arweinyddiaeth yn arbennig o bwysig i fferyllwyr sy'n mynd i fferylliaeth gymunedol, oherwydd efallai y bydd disgwyl iddynt arwain timau fferyllol o'r diwrnod cyntaf un.
- 1.35. Roedd ymatebwyr eraill, fodd bynnag, yn teimlo y byddai'n ormod disgwyl i fyfyrwyr israddedig neu fferyllwyr sydd newydd gofrestru arddangos 'arweinyddiaeth effeithiol' neu 'arweinyddiaeth glinigol'.
- 1.36. Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr am ddiffiniad o arweinyddiaeth glinigol gan eu bod yn teimlo y gallai darparwyr a myfyrwyr ei ddehongli'n wahanol.

Lefel y deilliannau dysgu

- 1.37. Roedd gan ymatebwyr farn amrywiol o ran lefel y deilliannau dysgu ar driongl Miller. Teimlai ychydig o ymatebwyr y dylid gosod yr holl ddeilliannau dysgu yn 'Yn gwneud'. Cynigiodd eraill newid ychydig o ddeilliannau dysgu o 'Yn gwneud' i 'Yn dangos sut', gan y byddai'n anodd i

fyfyrwyr ddangos eu gallu 'dro ar ôl tro ac yn ddibynadwy' mewn rhai achosion (er enghraifft deilliannau dysgu sy'n canolbwyntio ar ddiogelu ac ar gymorth cyntaf).

- 1.38. Soniodd ychydig o ymatebion na ddylid defnyddio'r term 'deall' yn y deilliannau dysgu gan ei fod yn rhy anodd ei fesur.

Beth sydd ar goll o'r deilliannau dysgu

- 1.39. Roedd sawl ymatebydd o'r farn nad yw'r radd MFfer ar hyn o bryd yn cynnwys sgiliau rheoli yn briodol o gofio bod disgwyl i lawer o fferyllwyr cymwys redeg fferyllfa a rheoli staff ac adnoddau. Awgrymon nhw felly y dylai'r deilliannau dysgu gwmpasu sgiliau rheoli a threfnu. Yn eu barn nhw, mae angen i hyfforddiant fferyllwyr hefyd gynnwys sgiliau trafod, sgiliau pobl a sgiliau rheoli projectau.
- 1.40. Tynnodd nifer fach o ymatebwyr sylw at y ffaith bod rhai fferyllwyr yn anghyfyrdus ar hyn o bryd wrth wneud penderfyniadau mewn meysydd ansicr. Soniodd eraill nad yw rhai fferyllwyr bob amser yn deall yr angen i weithio y tu allan i ganllawiau er mwyn blaenoriaethu diogelwch cleifion. Roeddent yn teimlo bod angen cwmpasu'r ddwy elfen hyn yn y deilliannau dysgu.
- 1.41. Soniodd ychydig o ymatebwyr fod y deilliannau dysgu yn cyfeirio at anghenion corfforol cleifion yn unig. Roeddent o'r farn y dylid ystyried anghenion iechyd meddwl pobl hefyd yn y deilliannau dysgu. Egluron nhw fod llawer o fferyllwyr sydd newydd gymhwyso ar hyn o bryd yn nodi eu bod yn teimlo nad yw eu gwybodaeth am iechyd meddwl ar yr un lefel â'u gwybodaeth am iechyd corfforol.
- 1.42. Soniodd ychydig o ymatebion hefyd y dylid ystyried sectorau eraill lle mae fferyllwyr yn ymarfer yn y deilliannau dysgu. Er enghraifft, cyfeirion nhw at ddiwydiant a'r byd academaidd.

Rhoi'r deilliannau dysgu ar waith

- 1.43. Gofynnodd sawl ymatebydd sut a phryd y dylid arddangos a gwerthuso'r deilliannau dysgu. Gofynnodd eraill i'r CFfC gyhoeddi lleiafswm y disgwyliadau fel bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn gwybod pa lefel a ddisgwylir gan fyfyrwyr.
- 1.44. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni bod y deilliannau dysgu yn canolbwyntio ar y pum mlynedd o addysg a hyfforddiant. Gyda sawl deiliant dysgu yn newid lefel o 'Yn dangos sut' i 'Yn gwneud', esboniodd sawl ysgol fferylliaeth y byddai angen buddsoddiad ariannol pellach ar gyfer y newid mewn technegau asesu.
- 1.45. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn pryderu y gallai'r ffaith bod y deilliannau dysgu wedi'u gosod am y pum mlynedd o addysg a hyfforddiant cychwynnol effeithio'n negyddol ar fyfyrwyr nad ydynt yn bwriadu ymarfer fel fferyllwyr neu nad ydynt am gwblhau eu dysgu wrth ymarfer yn y DU. Roeddent yn pryderu na fyddai'r myfyrwyr hyn bellach yn ystyried astudio fferylliaeth yn y DU.

2. Diwygio'r safonau ar gyfer darparwyr

Tabl 4: Barn ar y safonau ar gyfer darparwyr

C4. O ystyried y casgliad llawn o safonau a meini prawf yn Rhan 2, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eu bod yn briodol ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	147 (28%)	21 (21%)	168 (27%)
Tueddu i gytuno	258 (50%)	63 (62%)	321 (52%)
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	58 (11%)	4 (4%)	62 (10%)
Tueddu i anghytuno	27 (5%)	11 (11%)	38 (6%)
Anghytuno'n gryf	10 (2%)	0 (0%)	10 (2%)
Ddim yn gwybod	19 (4%)	3 (3%)	22 (4%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

2.1. Fel yr adlewyrchir yn y ffigurau yn Nhabl 4 uchod, roedd mwyafrif yr unigolion a'r sefydliadau (79%) yn cytuno bod ein safonau arfaethedig ar gyfer darparwyr yn briodol ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Roedd cyfran ychydig yn uwch o ymatebwyr ar ran sefydliadau o blaid y safonau (83%) o'i gymharu ag ymatebwyr unigol (78%).

Tabl 5: Barn ar elfennau sydd ar goll neu sydd angen eu diwygio yn y safonau ar gyfer darparwyr

C5. Oes unrhyw beth ar goll o'r safonau, neu unrhyw beth y dylid ei newid?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Oes	97 (19%)	69 (68%)	166 (27%)
Nac oes	275 (53%)	20 (20%)	295 (48%)
Ddim yn gwybod	147 (28%)	13 (13%)	160 (26%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

2.2. Fel y gwelir yn Nhabl 5, roedd 48% o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd unrhyw beth ar goll o'r safonau ar gyfer darparwyr neu angen eu newid, ond roedd 27% yn teimlo bod angen eu diwygio. Teimlai cyfran lawer uwch o ymatebwyr ar ran sefydliadau y dylid addasu agweddau ar y safonau (68% o'i gymharu â dim ond 19% o unigolion). Roedd cyfran uwch o unigolion yn teimlo nad oeddent yn gwybod a oedd unrhyw beth ar goll neu angen ei newid yn y safonau arfaethedig (28%) o'i gymharu â sefydliadau (13%).

2.3. Gofynnem i'r ymatebwyr a oedd yn teimlo bod agweddau ar y safonau ar goll a/neu angen eu diwygio (ymateb 'Oes' i Gwestiwn 5) pa safonau yr oedd angen eu haddasu. Mae Tabl 6 yn dangos y nifer a'r ganran o ymatebwyr a nododd fod angen ychwanegiadau a/neu welliannau ar bob safon.

Tabl 6: Barn ar safonau sydd angen ychwanegu atynt a/neu eu diwygio

C6. Pa un/rai o blith y meysydd canlynol sydd angen ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau?	O bob unigolion a ddywedodd 'Oes' yn C5 (N a %)	O bob unigolyn a ymatebodd (N a %)	O bob sefydliad a ddywedodd 'Oes' yn C5 (N a %)	O bob sefydliad a ymatebodd (N a %)	O bawb a ddywedodd 'Oes' yn C5 (N a %)	O bawb a ymatebodd (N a %)
Dethol a derbyn	43 (44%)	43 (8%)	42 (61%)	42 (41%)	85 (51%)	85 (14%)
Cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch	18 (19%)	18 (3%)	19 (28%)	19 (19%)	37 (22%)	37 (6%)
Adnoddau a chapasiti	25 (26%)	25 (5%)	39 (57%)	39 (38%)	64 (39%)	64 (10%)
Rheoli, datblygu a gwerthuso hyfforddiant ac addysg cychwynnol	25 (26%)	25 (5%)	27 (39%)	27 (26%)	52 (31%)	52 (8%)
Dylunio a darparu cwricwlwm	40 (41%)	40 (8%)	40 (58%)	40 (39%)	80 (48%)	80 (13%)
Asesu	31 (32%)	31 (6%)	28 (41%)	28 (27%)	59 (36%)	59 (10%)
Cymorth a datblygu myfyrwyr a phobl sy'n darparu hyfforddiant ac addysg cychwynnol	23 (24%)	23 (4%)	24 (35%)	24 (24%)	47 (28%)	47 (8%)
Dysgu wrth ymarfer (cyn-gofrestru)	47 (48%)	47 (9%)	48 (70%)	48 (47%)	95 (57%)	95 (15%)
Goruchwylio dysgu wrth ymarfer (cyn-gofrestru)	42 (43%)	42 (8%)	37 (54%)	37 (36%)	79 (48%)	79 (13%)
Cyfanswm N ymatebion	130	519	72	102	202	621

- 2.4. Roedd ymatebwyr a ymatebodd 'Oes' i Gwestiwn 5 yn teimlo bod angen diwygio'r parthau ar oruchwylio dysgu wrth ymarfer (57%), dethol a derbyn (51%) a dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm (48%). Roedd ymatebwyr yn lleiaf tebygol o ddweud y dylid newid y parth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch, gyda dim ond 22% o'r ymatebwyr yn awgrymu hyn.
- 2.5. Roedd gwahaniaethau hefyd rhwng unigolion a sefydliadau. Teimlai mwy o sefydliadau nag unigol y dylid addasu'r parthau ar adnoddau a gallu (57% o'i gymharu â 26%) ac ar ddysgu wrth ymarfer (70% o'i gymharu â 48%).
- 2.6. Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr oedd yn teimlo bod agweddau ar y safonau ar goll a/neu angen eu diwygio (ymateb 'Oes' i Gwestiwn 5 - 27% o'r ymatebwyr) roi disgrifiad byr i ni o'r ychwanegiadau a/neu'r diwygiadau y credent bod eu hangen. Manylir ar eu sylwadau yn y sylwebaeth isod. Mae barn cyfranogwyr digwyddiadau ymgynghori hefyd yn cael ei nodi yn yr adran hon gan i farn debyg gael ei mynegi.
- 2.7. Dadansoddir yr ymatebion sy'n canolbwyntio ar integreiddio astudio a dysgu wrth ymarfer ac ar ofynion dethol a derbyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad, yn yr adrannau sy'n canolbwyntio ar y pynciau hyn (gweler adrannau 7, 8 a 9).

Cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch

- 2.8. Roedd cefnogaeth eang i gryfhau gofynion o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch. Roedd llawer o ymatebwyr o ysgolion yn croesawu'r gofyniad i gynnal adolygiad ar berfformiad a derbyniadau myfyrwyr gan ddefnyddio'r nodweddion gwarchoddedig a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y dylid sôn yn benodol am y nodweddion gwarchoddedig, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Roeddent yn pryderu wrth gyfeirio at gydraddoldeb mewn termau cyffredinol y gellid gellir anghofio neu anwybyddu rhai nodweddion gwarchoddedig.
- 2.9. Cynigiodd nifer fach o ymatebwyr y dylai darparwyr addysg a hyfforddiant geisio adborth gan fyfyrwyr yn gynnar yn y flwyddyn academaidd neu yn ystod y cyfnod dysgu wrth ymarfer, er mwyn gallu gweithredu arno pe bai angen. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr hefyd y dylai darparwyr gefnogi'n rhagweithiol y grwpiau sy'n llai llwyddiannus yn eu haddysg a'u hyfforddiant.
- 2.10. Esboniodd fferyllwyr a soniodd fod ganddynt anabledd eu bod wedi derbyn cefnogaeth briodol yn y brifysgol, ond wrth ddechrau eu lleoliad cyn-gofrestru roedd eu gallu wedi cael ei gwestiynu a'u bod heb dderbyn cefnogaeth. Soniodd ymatebwyr eraill y dylid hysbysu darparwyr hyfforddiant, cyn cyfnodau dysgu wrth ymarfer, am unrhyw addasiad rhesymol y byddai ei angen ar fyfyrwyr.

Adnoddau a chapasiti

- 2.11. Roedd nifer o ymatebwyr yn ansicr ynghylch sut i weithredu gofynion ar adnoddau a gallu. Gofynnodd sawl un beth oedd yn 'lefel briodol o adnoddau' i ddarparu rhaglen addysg a hyfforddiant cychwynnol gynaliadwy ac achrededig. Gofynnodd ychydig o rai eraill am eglurhad ar y math o staff fyddai eu hangen i gyflwyno holl elfennau gwahanol y cyfnod addysg a hyfforddiant cychwynnol integredig.
- 2.12. Roedd rhai o'r ymatebion hefyd yn canolbwyntio ar leoliadau addysg a hyfforddiant. Gofynnodd sawl ymatebydd pwy oedd yn gyfrifol am bennu bod adeilad yn addas at y diben a sut y dylid

mesur hyn. Teimlai llawer y byddai angen rhywfaint o achredu a safoni i sicrhau cysondeb ymhlith darparwyr a gwledydd.

- 2.13. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y dylid gosod cymhareb fferyllwyr wrth eu gwaith/staff academiaidd i sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir mewn graddau MFfer yn gyfredol ac yn berthnasol i ymarfer.

Rheoli, datblygu a gwerthuso hyfforddiant ac addysg cychwynnol

- 2.14. Thema gyffredin ymhlith yr ymatebion ar reoli, datblygu a gwerthuso addysg a hyfforddiant cychwynnol, oedd bod angen arweiniad i gefnogi gweithredu'r cynigion, er mwyn sicrhau cysondeb ymhlith darparwyr.
- 2.15. Gofynnodd sawl ymatebydd am fanylion manwl ynghylch llinellau cyfrifoldeb . Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod angen prosesau sicrhau ansawdd cenedlaethol. Egluron nhw y byddai darparwyr hyfforddiant yn derbyn myfyrwyr o wahanol flynyddoedd ac ar wahanol adegau. Yn eu barn nhw, byddai mecanweithiau cenedlaethol yn sicrhau cysondeb o ran ansawdd hyfforddiant.
- 2.16. Roedd sawl ymateb yn canolbwyntio ar y gofyniad ar ddarparwyr i ddangos sut y cynhwysir barn defnyddwyr wrth ddatblygu addysg a hyfforddiant cychwynnol. Credai ychydig o ymatebwyr y dylid ystyried barn yr holl randdeiliaid. Roedd eraill yn teimlo'n gryf y dylid ystyried adborth myfyrwyr presennol a blaenorol. Roedden nhw'n cytuno y dylai darparwyr allu tystio sut y maent yn coladu a dadansoddi adborth myfyrwyr a dangos sut maent yn mynd i'r afael â materion a godir ganddynt.
- 2.17. Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw at y ffaith nad oedd ysgolion, er mwyn parchu polisiau GDPR, yn cadw data am gyfnod hir. Roedden yn cwestiynu sut y byddai hyn yn effeithio ar geisiadau data gan y CFfC.

Dylunio a darparu cwricwlwm

- 2.18. Roedd nifer sylweddol o ymatebion oedd yn canolbwyntio ar gwricwlwm a'i ddarpariaeth hefyd yn canolbwyntio ar sut i weithredu ein gofynion. Gofynnodd ychydig o ymatebwyr am eglurhad ar amgylcheddau dysgu efelychol, sawl tro y caniateir ailsefyll asesiadau, a chyflawni'r deilliannau dysgu mewn gwahanol leoliadau.
- 2.19. Cytunwyd yn gyffredinol bod yn rhaid pasio pob asesiad fel egwyddor gyffredinol.
- 2.20. Wrth ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid wrth datblygu cwricwlwm, soniodd ychydig o ymatebwyr y byddai'n rhaid gofalu a sicrhau na fyddai rhanddeiliad mawr, fel cyflogwr dylanwadol mewn cymdogaeth, yn dylanwadu'n ormodol ar gynnwys cwrs.

Asesu

- 2.21. Wrth ystyried cyfranogiad llawer mwy gan ddarparwyr hyfforddiant yn addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr, roedd gan ymatebwyr lawer o ymholiadau ynghylch asesu myfyrwyr.
- 2.22. Gofynnodd ymatebwyr sut y byddai darparwyr hyfforddiant yn asesu cymhwysedd myfyrwyr, sut y byddai asesiadau myfyrwyr yn cael eu harwain ar y cyd rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant, sut y byddai darparwyr addysg a hyfforddiant yn cyfathrebu ynghylch cynnydd myfyrwyr a phwy fyddai'n gyfrifol am gymeradwyo myfyrwyr yn derfynol.

- 2.23. Roedd cwestiynau eraill yn canolbwyntio ar hyfforddi arholwyr ac aseswyr, ar atebolrwydd mewn achosion o wallau, ar asesu hyfforddiant rhyngbroffesiynol ac ar yr ystod o ddulliau asesu y gellid eu defnyddio.

Cefnogi a datblygu myfyrwyr fferylliaeth a phobl sy'n darparu hyfforddiant ac addysg fferyllol

- 2.24. Teimlai nifer fach o ymatebwyr ei bod yn bwysig i fyfyrwyr gael fferylllydd fel mentor bob amser. Fodd bynnag, esboniodd eraill nad yw tiwtoriaid bob amser yn fferyllwyr ar hyn o bryd. Roeddent yn croesawu'r gofyniad bod myfyrwyr yn cael mynediad at weithwyr fferyllol proffesiynol fyddai'n gweithredu fel modelau rôl a mentoriaid, ond tynnwyd sylw at y nifer fach o fferyllwyr sydd mewn swyddi uwch reoli mewn ysgolion.
- 2.25. Gofynnodd ychydig o ymatebwyr sut y byddai darparwyr hyfforddiant yn cefnogi staff mewn rolau goruchwylio. Gofynnodd nhw am arweiniad ynghylch deunyddiau sefydlu a hyfforddi ar gyfer timau sy'n ymwneud â darparu dysgu drwy brofiad a dysgu wrth ymarfer.

Dysgu wrth ymarfer

- 2.26. Roedd llawer o ymatebion yn cwestiynu sut y dylid gweithredu dysgu wrth ymarfer a beth fyddai'r cyfrifoldebau rhanddeiliaid yn ei gynnwys.
- 2.27. Gofynnodd rhai ymatebwyr am arweiniad ynghylch nifer a hyd y blociau dysgu wrth ymarfer. Awgrymodd eraill drosi'r gofyniad 52 wythnos yn ddyddiau, fel y byddai'n fodel mwy addas ar gyfer lleoliadau byrrach ac amlach. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn nad oedd 52 wythnos o ddysgu wrth ymarfer yn ddigonol.
- 2.28. Cynigiodd nifer fawr o ymatebwyr y dylai dysgu wrth ymarfer ddigwydd mewn dau sector o leiaf. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at fodel cyn-gofrestru amlsector Cymru ac egluro bod myfyrwyr yn elwa mwy o ddull amlsector. Esboniodd eraill y byddai dull amlsector yn galluogi myfyrwyr i ryngweithio gydag ystod ehangach o gleifion mewn amrywiaeth o amgylcheddau ac i ddysgu sut i ddelio â gwahanol fathau o gleifion ag anghenion gwahanol, ac ar adegau cymhleth. Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr y byddai'r myfyrwyr, drwy'r dull hwn, yn casglu gwell dealltwriaeth o daith gyfan y claf ac o rolau gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill. Gwnaeth ychydig o ymatebwyr awgrym mwy penodol, gan ofyn bod myfyriwr yn cael o leiaf un profiad ysbyty, er mwyn deall taith claf drwy'r ysbyty.
- 2.29. Canolbwyntiodd llawer o ymatebion ar gydweithio rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant. Roedd nifer o ddarparwyr hyfforddiant yn ansicr ynghylch sut y byddent yn darparu ar gyfer hyfforddi myfyrwyr o wahanol ysgolion â gwahanol anghenion hyfforddi. Roeddent yn teimlo bod angen cydlynu cyfnodau dysgu wrth ymarfer fel na fyddent yn effeithio ar lifoedd gwaith yn y gweithle. Cynigiodd llawer o ymatebwyr (darparwyr addysg a hyfforddiant yn bennaf) y dylid creu strwythurau neu fframweithiau rhanbarthol i hwyluso cydweithredu rhwng rhanddeiliaid a sicrhau ansawdd cyson. Gofynnodd sawl ymatebydd arall hefyd am sicrhau ansawdd dysgu mewn lleoliadau hyfforddi wrth ymarfer. Roeddent yn holi a fyddai hyn yn cael ei wneud gan ysgolion neu gan y CFFC.
- 2.30. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn aneglur ynghylch y gwahaniaeth rhwng dysgu wrth ymarfer a dysgu trwy brofiad.

Goruchwylio dysgu wrth ymarfer

- 2.31. Gwnaed llawer o geisiadau am eglurder ac awgrymiadau ynghylch goruchwylio dysgu wrth ymarfer.
- 2.32. Roedd gan ymatebwyr farn amrywiol ynghylch pwy ddylai allu goruchwylio myfyrwyr. Teimlai rhai ohonynt mai dim ond fferyllwyr ddylai fod yn oruchwylwyr dynodedig. Esboniodd eraill, gan fod pwyslais cryf ar ddysgu rhyngbroffesiynol yn y safonau, y byddai'n briodol i fyfyrwyr gael eu goruchwylio gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal eraill. Egluron nhw y byddai hyn hefyd yn cynyddu'r nifer o gyfleoedd lleoliad fyddai ar gael i fyfyrwyr.
- 2.33. Gofynnodd ychydig o ymatebwyr a fyddai ein gofyniad i hyfforddi goruchwylwyr yn berthnasol i bob goruchwylwr, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal eraill, neu ddim ond i oruchwylwyr dynodedig dysgu wrth ymarfer.
- 2.34. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai myfyrwyr gael eu goruchwylio gan oruchwylwyr mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cyflawni'r deilliannau dysgu i'r safon ofynnol. Teimlai eraill y dylai ysgolion gysylltu gyda myfyrwyr yn rheolaidd i sicrhau ansawdd eu dysgu wrth ymarfer.
- 2.35. Roedd safbwyntiau amrywiol hefyd o ran pwy ddylai lofnodi cymhwysedd myfyrwyr a'u haddasrwydd i ymarfer. Soniodd rhai ymatebwyr y gallai cael ysgolion i ardystio myfyrwyr greu gwrthdaro buddiannau posibl. Roeddent yn pryderu y gallai ysgolion adael i rai myfyrwyr raddio, hyd yn oed os nad oedden nhw'n cyflawni'r holl ddeilliannau dysgu. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn na ddylai goruchwylwyr dynodedig dysgu wrth ymarfer ardystio myfyrwyr oherwydd y berthynas y byddent yn ei meithrin â nhw. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y dylai gwahanol unigolion fentora ac asesu myfyrwyr. Teimlai sawl ymatebydd arall y dylai ysgolion a goruchwylwyr ardystio ar y cyd a'u gwneud ar ôl pob cyfnod o ddysgu wrth ymarfer.
- 2.36. Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylai fod gan fyfyrwyr fwy nag un fferylllydd yn eu hardystio, neu eu bod yn cael eu hardystio gan aseswyr annibynnol. Gwnaeth eraill gynigion ynghylch mecanweithiau mwy cadarn yn seiliedig ar dystiolaeth i werthuso myfyrwyr. Cynigion nhw gasglu adroddiadau cynnydd ac adborth gan bob unigolyn fyddai'n ymwneud â hyfforddiant myfyriwr ac y dylid eu hadolygu a'u hasesu gan gymheiriaid. Yn eu barn nhw, byddai hyn yn sicrhau bod ansawdd yr hyfforddiant bob amser yn cael ei gynnal ac yn galluogi asesiadau mwy cyfannol o barodrwydd myfyriwr i ymarfer.
- 2.37. Soniodd sawl ymatebydd fod sicrhau ansawdd goruchwyliaeth dysgu wrth ymarfer y tu hwnt i allu a chapasiti presennol ysgolion fferylliaeth, oni bai bod cyllid ychwanegol ar gael i'w galluogi i recriwtio staff i oruchwylwyr agwedd hon ar yr hyfforddiant.

Adborth arall

- 2.38. Teimlai nifer fach o ymatebwyr y dylid cadw rhai swyddi mewn ysgolion fferylliaeth ar gyfer fferyllwyr. Er enghraifft, soniodd ychydig o ymatebwyr y dylai penaethiaid ysgolion fod yn fferyllwyr.

3. Integreiddio'r pum mlynedd o hyfforddiant ac addysg

Tabl 7: Barn gyffredinol ynghylch gosod safonau integredig ar gyfer y pum mlynedd o hyfforddiant ac addysg

C7. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem osod safonau integredig ar gyfer y pum mlynedd o hyfforddiant ac addysg cychwynnol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	244 (47%)	38 (37%)	282 (45%)
Tueddu i gytuno	155 (30%)	39 (38%)	194 (31%)
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	37 (7%)	8 (8%)	45 (7%)
Tueddu i anghytuno	27 (5%)	10 (10%)	37 (6%)
Anghytuno'n gryf	48 (9%)	5 (5%)	53 (9%)
Ddim yn gwybod	8 (2%)	2 (2%)	10 (2%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

3.1. Fel yr adlewyrchir yn y ffigurau yn Nhabl 7 uchod, roedd mwyafrif yr unigolion a sefydliadau (77% a 75% yn y drefn honno) yn cefnogi ein cynnig i integreiddio dysgu academiaidd ac ymarferol, ac roedd 15% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig hwn.

3.2. Rhoddodd ychydig dros ddau o bob tri o'r ymatebwyr i'r arolwg ymgynghori sylwadau penagored ar gyfer cwestiynau'r ymgynghoriad ar integreiddio. Roedd nifer sylweddol o'r rhain yn cefnogi integreiddio, gan grybwyll y byddai integreiddio'n codi safonau addysg a hyfforddiant ac yn galluogi myfyrwyr i gymhwyso eu gwybodaeth yn ymarferol. Mynegwyd y farn hon hefyd yn aml yn ystod cyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr yn ansicr ynghylch gweithredu'r cynnig hwn, gan gynnwys yr adnoddau fyddai ar gael i ariannu rhaglenni integredig a mynegwyd pryderon ynghylch effaith negyddol o bosibl y gallai integreiddio ei chael ar fyfyrwyr, ysgolion fferylliaeth a darparwyr hyfforddiant.

Gwella ansawdd hyfforddiant ac addysg cychwynnol a safoni profiadau myfyrwyr

3.3. Cytunwyd yn eang y byddai integreiddio yn codi ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai integreiddio'n galluogi myfyrwyr i symud yn eu blaen yn gyflymach, caffael set sgiliau well a dod yn fferyllwyr gwell. Croesawon nhw hefyd fyfyrwyr yn cael mwy o gysylltiad ag ymarfer bywyd go iawn, a hynny'n gynt yn eu haddysg. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn galluogi myfyrwyr i ymgorffori eu rolau, datblygu eu sgiliau cyfathrebu, teimlo'n gyfrifol a magu eu hyder yn gynharach, wrth ymgymryd â gweithgareddau clinigol a rhyngweithio gyda chleifion a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol. Soniodd sawl ymatebydd hefyd y byddai integreiddio yn helpu myfyrwyr i ddatblygu proffesiynoldeb yn gynnar.

- 3.4. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr amrywiaeth yn ansawdd ymarfer fferyllwyr cofrestredig ar hyn o bryd. Yn eu barn nhw, byddai integreiddio yn sicrhau mwy o gysondeb o ran dysgu/hyfforddi myfyrwyr a byddai'n gwella gwaith fferyllwyr, gan eu galluogi i baratoi'n well ar gyfer y gweithle a bod yn barod ar gyfer eu rolau o'r diwrnod cyntaf un. Soniodd llawer o ymatebwyr hefyd am amrywiadau o ran profiad cyn-gofrestru. Roeddent yn croesawu'r posibilrwydd o gryfhau sicrwydd ansawdd lleoliadau ac yn teimlo y byddai integreiddio'n safoni profiad yn y gweithle gan y byddai ysgolion yn gallu hyfforddi, cefnogi ac asesu tiwtoriaid.
- 3.5. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai integreiddio yn sicrhau dull mwy cydgyssylltiedig a chydweithredol ymhlith darparwyr ac yn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi mwy cydlynol yn cael eu datblygu i fyfyrwyr gyflawni'r deilliannau dysgu.

Cymhwyso gwybodaeth at ymarfer

- 3.6. O safbwynt addysgol, esboniodd llawer o ymatebwyr fod integreiddio yn hwyluso cydgrynhoad dysgu trwy gymhwyso dysgu at eu gwybodaeth glinigol mewn amgylchedd ymarfer byw. Iddyn nhw, byddai myfyrwyr fferyllol yn ennill mwy o brofiadau yn y byd go iawn i roi cyd-destun i'w dysgu academaidd ac y gallent gymhwyso eu dysgu yn ymarferol yng nghyd-destun darparu iechyd a gofal.

Rhyngweithio gyda chleifion

- 3.7. Roedd ymatebwyr yn cytuno â'n newidiadau arfaethedig o ran y byddai angen i hyfforddiant fferyllwyr ganolbwyntio mwy ar bobl ac y dylai olygu rhyngweithio cynnar â chleifion ac aelodau'r cyhoedd. Yn eu barn nhw, byddai hyn yn codi hyder myfyrwyr, gan fod hyn yn rhywbeth y mae myfyrwyr cyfredol yn brin ohono weithiau. Cytunodd ymatebwyr eraill y dylid ymgorffori profiad mwy ymarferol yn y radd MFfer gan mai dyma'r elfen ymarfer sy'n galluogi myfyrwyr i symud i lefel y cymhwysedd 'Yn Gwneud' ar driongl Miller.
- 3.8. Tynnodd ychydig o ymatebwyr yr arolwg a chyfranogwyr digwyddiadau rhanddeiliaid sylw at y ffaith mai fferylliaeth yw un o'r unig broffesiynau iechyd a gofal lle mae addysg a hyfforddiant ar wahân ac yn annibynnol ar ei gilydd. Roedden nhw'n cymeradwyo alinio strwythur addysg a hyfforddiant cychwynol fferyllwyr â rhai proffesiynau eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion.

Cynnydd clir a gwella cymorth i fyfyrwyr

- 3.9. Roedd sawl ymatebydd yn gwerthfawrogi gallu gweld trywydd dysgu myfyrwyr fferyllol dros y pum mlynedd o addysg a hyfforddiant cychwynol. Iddyn nhw, byddai integreiddio yn caniatáu dilyniant clir i fyfyrwyr trwy gydol y pum mlynedd, o'r llinell sylfaen i ymarfer, ac yn sicrhau bod dysgu myfyrwyr yn gydlynol, yn adeiladol ac yn cael ei gefnogi ym mhob lleoliad. Yn wir, roedd sawl ymatebydd yn teimlo y byddai goruchwyliaeth myfyrwyr fferyllol yn cael ei gwella gan y byddai mwy nag un tiwtor yn cefnogi myfyrwyr. Soniodd sawl ymatebydd y byddai integreiddio'n galluogi ysgolion a thiwtoriaid i adnabod cryfderau a gwendidau myfyrwyr fferyllol yn gynnar a'u galluogi i'w cefnogi'n ddigonol i ddatblygu.
- 3.10. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y bydd integreiddio yn hwyluso'r profiad pontio y mae myfyrwyr yn ei gael ar hyn o bryd wrth ddechrau ar eu hyfforddiant cyn-gofrestru. Egluron nhw y gall y pontio hwn fod yn frawychus weithiau i fyfyrwyr nad oes ganddynt lawer o gyswllt â chleifion yn ystod pedair blynedd eu gradd MFfer. Soniodd ychydig o ymatebwyr hefyd y byddai myfyrwyr

yn gallu sylweddoli'n gynharach o lawer os nad ydyn nhw'n addas ar gyfer rôl fferyllwydd, gan eu bod yn gorfod gweithio mewn ymarfer yn gynharach yn eu haddysg a hyfforddiant.

Cefnogaeth i roi mwy o bwyslais ar sgiliau clinigol

- 3.11. Soniodd llawer o ymatebwyr fod rolau a chyfrifoldebau fferyllwyr wedi ehangu, gan gynnwys cynnydd mewn cyfrifoldebau clinigol. Iddyn nhw, byddai integreiddio yn galluogi fferyllwyr y dyfodol i ddarparu llawer mwy o wasanaethau clinigol ac i fod yn fwy parod i ddiwallu anghenion y tirwedd gofal iechyd sy'n esblygu ledled y DU.

Ymhlygiadau o ran cyllid ac adnoddau

- 3.12. Er bod llawer o ymatebwyr yn cefnogi integreiddio, roedd llawer o ymatebwyr yn poeni am effaith ariannol ein cynnig ar fyfyrwyr. Roeddent yn teimlo y gallai hyn olygu y byddai'n rhaid i fyfyrwyr dalu am bumed flwyddyn o addysg a hyfforddiant ac roeddent o'r farn y dylai myfyrwyr barhau i dderbyn cyflog neu fwrsariaeth yn ystod eu dysgu wrth ymarfer. Tynnodd sawl ymatebydd sylw hefyd at y ffaith bod myfyrwyr yn debygol o fod â chostau teithio a llety uwch oherwydd dysgu wrth ymarfer byrrach mewn mwy o leoliadau. Roeddent yn tybio y byddai rhai myfyrwyr yn dewis safleoedd hyfforddi agosach at ble maen nhw'n byw er mwyn lleihau costau. Roedd sawl ymatebydd yn poeni y byddai rhoi mwy o faich ariannol ar fyfyrwyr yn lleihau nifer y bobl fyddai'n dymuno astudio fferylliaeth ac yn gwneud y radd MFfer yn llai deniadol.
- 3.13. Roedd ysgolion yn poeni am y costau a'r goblygiadau adnoddau fyddai'n gysylltiedig â gweithredu integreiddio, monitro, goruchwylio tiwtoriaid a sicrhau ansawdd dysgu wrth ymarfer. Egluron nhw nad oes ganddynt y gallu na'r adnoddau ar hyn o bryd i weithredu ein cynigion, gan y byddai angen iddynt recriwtio staff a newid eu seilweithiau gweinyddol.
- 3.14. Soniodd sawl darparwr hyfforddiant hefyd am yr angen am adnoddau ychwanegol i weithredu ein cynigion yn y gweithle. Mynegwyd pryderon ynghylch straen ychwanegol ar weithleoedd gan y byddai'n rhaid i staff dreulio mwy o amser yn hyfforddi ac yn goruchwylio myfyrwyr. Cododd darparwyr hyfforddiant gwestiynau hefyd ynglŷn â sut y byddent yn cynllunio lleoliadau byrrach trwy gydol y flwyddyn ac yn cydlynu anghenion hyfforddi myfyrwyr o wahanol ysgolion. Roeddent yn rhagweld y byddai rheoli hyfforddiant sawl myfyriwr â gwahanol anghenion datblygu yn heriol.
- 3.15. Cwestiwn a godwyd yn gyson oedd sut y byddai integreiddio'n cael ei ariannu, gyda rhai ymatebwyr yn ychwanegu bod modelau cyllido ar hyn o bryd yn golygu cyfyngiadau go iawn. Awgrymwyd mai dim ond buddsoddiad sylweddol yn addysg a hyfforddiant fferyllwyr fyddai'n galluogi gweithredu ein cynnig yn llwyddiannus. Roedd ymatebwyr yn poeni am ostyngiad mewn lleoedd hyfforddi os nad oedd y cyllid angenrheidiol ar gael ac awgrymwyd y dylid cynnal trafodaethau â chyrff cyllido.

Pryderon ynghlwm wrth ddysgu wrth ymarfer

- 3.16. Roedd sawl ymatebydd yn poeni am integreiddio yn arwain at lawer o leoliadau byr. O'u profiad nhw, mae angen amser ar fyfyrwyr i ymgartrefu yn y gweithle cyn datblygu sgiliau, a gallai lleoliadau rhy fyr gael effaith niweidiol ar eu datblygiad. Roedd yn well ganddyn nhw gyfnodau hirach o ddysgu wrth ymarfer er mwyn rhoi amser i fyfyrwyr fagu hyder a chynyddu eu cyfrifoldebau yn raddol. Roedd ychydig o ymatebwyr eraill o'r farn y byddai lleoliad hirach ar ddiwedd y pum mlynedd yn sicrhau gwell continwwm o fod yn fyfyrwr i fod yn ymarferwr.

- 3.17. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn ansicr ynghylch cyflwyno lleoliadau yn rhy gynnar gan eu bod yn teimlo na fyddai gan fyfyrwyr ddyfnder dysgu academaidd i wneud defnydd llawn o'u lleoliadau. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill o'r farn y dylai pob gradd MFfer gynllunio bod myfyrwyr yn rhyngweithio'n glinigol o'r diwrnod cyntaf un, er mwyn caniatáu i fyfyrwyr gael eu huwchsgilio yn gynharach ac er mwyn diwallu anghenion iechyd y gweithlu a'r boblogaeth yn y dyfodol.
- 3.18. Roedd ychydig o bryderon y byddai newid statws hyfforddeion, o weithwyr i fyfyrwyr, yn cael effaith negyddol ar ymagwedd neu feddylfryd myfyrwyr yn ystod eu dysgu wrth ymarfer. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y gallai myfyrwyr ddod yn llai cyfrifol oherwydd byddent yn cael llai o gysylltiad ag arferion gwaith rheolaidd ac efallai na fyddent o bosibl yn cael eu talu am eu gwaith.
- 3.19. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'n cynnig o'r farn y dylid cadw'r model 4 + 1 ac awgrymodd llawer mai dim ond y gofynion dysgu trwy brofiad a chyn-gofrestru y dylid eu cryfhau, yn ogystal â sicrhau eu hansawdd. Roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu pe bai model tebyg i'r radd MFfer 4 + 1 bresennol yn aros (h.y. rhaglen 5 mlynedd gyda lleoliad blwyddyn olaf sylweddol), yna byddai'r pwysau i gyflawni'r deilliannau dysgu pum mlynedd yn dal i fod o fewn y deuddeg mis olaf. Roeddent yn teimlo y dylai'r CFfC nodi'n glir pa ddeilliannau dysgu y dylid eu cyflawni cyn y 'pwynt torri' o 4 blynedd (cyn y lleoliad clinigol terfynol).
- 3.20. Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu ein cynnig oherwydd nad oeddent yn credu y byddai integreiddio yn codi ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr ac yn cysoni profiadau myfyrwyr. Roedd ymatebwyr eraill yn gwrthwynebu'r cynnydd mewn ffocws ar sgiliau clinigol. Egluron nhw na fydd pob myfyriwr yn dod yn fferyllwyr yn y GIG nac yn gweithio gyda chleifion. Yn eu barn nhw, byddai integreiddio dysgu academaidd ac ymarferol yn gwneud y radd MFfer yn llai deniadol i'r myfyrwyr hyn, yn ogystal ag i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dymuno astudio yn y DU a chwblhau eu hyfforddiant ymarferol dramor.

4. Gofynion dethol a derbyn

Tabl 8: Barn ar asesu sgiliau a nodweddion darpar fyfyrwyr yn rhan o'r gweithdrefnau derbyn

C8. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynnig i ofyn i ysgolion fferyllol asesu sgiliau a phriodoleddau darpar fyfyrwyr yn rhan o'u gweithdrefnau derbyn?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	289 (56%)	58 (57%)	347 (56%)
Tueddu i gytuno	137 (26%)	30 (29%)	167 (27%)
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	36 (7%)	5 (5%)	41 (7%)
Tueddu i anghytuno	29 (6%)	3 (3%)	32 (5%)
Anghytuno'n gryf	22 (4%)	4 (4%)	26 (4%)
Ddim yn gwybod	6 (1%)	2 (2%)	8 (1%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

- 4.1. Fel yr adlewyrchir yn y Tabl uchod, roedd 83% o ymatebwyr yr ymgynghoriad o blaid asesu sgiliau a phriodoleddau darpar fyfyrwyr. Roedd barn ymatebwyr unigol a sefydliadau yn debyg (82% ac 86%). Roedd 9% o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn anghytuno â'r cynnig hwnnw.
- 4.2. Rhoddodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr adborth penagored i'r cwestiwn hwn. Yn gyffredinol, roeddent yn cytuno ag asesiad mwy cyfannol o botensial ymgeiswyr i sicrhau bod myfyrwyr yn cofrestru'n llwyddiannus gyda'r CFFC. Trafodon nhw'r sgiliau a'r priodoleddau y dylid eu hystyried ac roeddent yn cytuno ar bwysigrwydd gweithdrefnau derbyn cynhwysol. Roedd barn cyfranogwyr y digwyddiad yn debyg i farn ymatebwyr yr arolwg ac maent hefyd yn cael eu nodi yn yr adran hon.

Asesu sgiliau a nodweddion darpar fyfyrwyr

- 4.3. Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig i ystyried mwy na galluoedd academiaidd ymgeiswyr yn ystod gweithdrefnau derbyn. Esboniodd ymatebwyr nad y myfyrwyr mwy medrus yn academiaidd yw'r fferyllwyr gorau bob amser. Soniodd llawer o ymatebwyr hefyd nad yw ystyried cymwysterau'n unig yn rhoi darlun digonol o barodrwydd ymgeisydd i astudio ar radd Mffer.
- 4.4. Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno ag asesu addasrwydd ymgeiswyr i weithio fel fferyllwyr oherwydd eu bod yn credu y gall rhai myfyrwyr fod â diffyg sgiliau cyfathrebu ac empathi ar hyn o bryd neu ddiffyg angerdd ac ysfa i astudio fferylliaeth. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod gwerthoedd ac ymddygiadau personol yn cael eu datblygu cyn y brifysgol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cytuno y byddai asesu sgiliau a phriodoleddau darpar fyfyrwyr yn cryfhau ansawdd y myfyrwyr fferyllol a dderbynnir ar raddau Mffer. Iddyn nhw, dim ond myfyrwyr sydd â'r

gwerthoedd personol a phroffesiynol sy'n ofynnol i ddarparu gofal â'r claf yn ganolog iddo ac i gydweithredu ag eraill a ddylai gael eu derbyn ar gyrsiau gradd MFfer.

- 4.5. Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion i asesu sgiliau a phriodoleddau wrth dderbyn gan eu bod yn teimlo mai dim ond yr ymgeiswyr iawn y dylid eu derbyn ar radd MFfer, hyd yn oed pe bai hyn yn golygu nifer gyffredinol lai o fyfyrwyr. Yn eu barn nhw, mae angen i'r asesiad o allu ymgeisydd i gyrraedd y lefel a ddisgwylir gan y proffesiwn fod yn drylwyr er mwyn helpu i safoni priodoleddau sylfaenol myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio i'r proffesiwn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod rôl y fferyllwydd wedi esblygu'n sylweddol mewn ymateb i wahanol bwysau ac roedd yn arferol i broffil myfyrwyr alinio â'r newidiadau hyn. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod ysgolion yn derbyn gormod o fyfyrwyr ar hyn o bryd, hyd yn oed pan na fyddai rhai ohonynt yn gallu graddio.
- 4.6. Mynegodd rhai ymatebwyr ei bod yn annheg rhoi lle i fyfyrwyr ar radd MFfer os oeddent yn annhebygol o gyrraedd y safonau sy'n ofynnol i gofrestru, neu fferyllwyr heb y gallu i ddarparu gofal tosturiol i gleifion. Roeddent o'r farn y dylai'r gweithdrefnau derbyn fod â'r nod o adnabod ymgeiswyr fyddai'n gallu graddio'n llwyddiannus a dod yn fferyllwyr. Yn eu barn nhw, ni fyddai hyn yn bosibl oni bai bod sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr yn cael eu hystyried mewn gweithdrefnau derbyn. Roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai gweithdrefn dderbyn gadarnach, yn adlewyrchu gofynion y cwrs yn well, yn lleihau nifer y myfyrwyr sy'n ail-wneud blynyddoedd astudio, gan fethu â chwblhau'r cwrs, yn ogystal â'r problemau sy'n gallu codi yn ystod neu ar ôl cofrestru.

Sgiliau a phriodoleddau y dylid eu hasesu

- 4.7. Wrth sôn am y sgiliau a'r priodoleddau y credent y dylid eu hasesu mewn ymgeiswyr, tanlinellodd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd cyfathrebu, sgiliau rhyngpersonol ac ymwybyddiaeth gymdeithasol. Iddyn nhw, roedd yn hanfodol bod fferyllwyr yn gallu egluro eu gwybodaeth i gleifion a chyfathrebu'n effeithiol â phobl o bob cefndir. Cytunodd ymatebwyr hefyd fod angen i fferyllwyr allu ymgysylltu â thimau amlddisgyblaethol. Egluron nhw fod gweithio rhyngbroffesiynol yn llawer mwy cyffredin yn y gweithle erbyn hyn ac y dylai myfyrwyr fod yn barod ar ei gyfer. Cynigiodd sawl ymatebydd y dylid asesu Saesneg ysgrifenedig a llafar ymgeiswyr (ymgeiswyr rhyngwladol a chartref), gan eu bod yn credu bod eu cyfathrebu weithiau'n peri gofid.
- 4.8. Roedd cytundeb eang ynghylch ystyried cymhelliant ymgeiswyr i astudio ar radd MFfer neu i ddod yn fferyllwydd. Teimlai rhai ymatebwyr fod gormod o ymgeiswyr nad ydynt yn gwybod beth mae fferyllwydd yn ei wneud neu sydd heb lawer o ddiddordeb mewn bod yn fferyllwydd yn cael eu derbyn ar raddau MFfer ar hyn o bryd. Roeddent yn arbennig o bryderus am ymgeiswyr sy'n gweld gradd MFfer fel 'cynllun B' i feddygaeth a deintyddiaeth.
- 4.9. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylai fod gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn gweithio gyda chleifion. Esboniodd sawl tiwtor cyn-gofrestru fod rhai o'r hyfforddeion yr oeddent yn eu goruchwylio yn brin o ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar bobl. Yn eu barn nhw, bydd y rhan fwyaf o fferyllwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion ac roedd yn hanfodol sicrhau bod gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn gweithio gyda phobl. Esboniodd ymatebwyr fod angen i fferyllwyr fod yn dosturiol, yn ofalgar, yn empathetig ac yn gallu cysylltu'n emosiynol â phobl.

- 4.10. Cynigiodd rhai ymatebwyr asesu sgiliau rhifedd ymgeiswyr, tra bo eraill yn awgrymu cael mecanweithiau i sicrhau bod ymgeiswyr yn ddigon gwydn yn feddyliol ac yn emosiynol i weithio yn y proffesiwn.

Sicrhau bod gweithdrefnau derbyn yn gynhwysol

- 4.11. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno bod angen i weithdrefnau derbyn daro cydbwysedd rhwng derbyniadau o safon uchel â sicrhau cyfleoedd ehangach. Cytunwyd yn eang y dylai asesiadau ymgeiswyr sicrhau nad yw unrhyw grŵp dan anfantais oherwydd gweithdrefnau derbyn.
- 4.12. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr yn golygu y byddai ymgeiswyr â phrofiad blaenorol o'r sector fferylliaeth yn cael eu hystyried yn briodol.

Pryderon ynghylch asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr

- 4.13. Roedd nifer o ymatebwyr yn poeni ei bod yn anodd gwybod yn gywir pa sgiliau, priodoleddau a gwerthoedd sydd gan unigolion ar adeg derbyn i radd yn 17/18 oed ac y dylai gweithdrefnau derbyn ysgolion gofio bod rhai cysyniadau, megis proffesiynoldeb neu ofal â'r claf yn ganolog iddo, o bosibl yn fwy "anodd" i rai ymgeiswyr.
- 4.14. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith bod myfyrwyr yn aeddfedu'n sylweddol rhwng 17 a 22 oed. Egluron nhw fod sgiliau cymdeithasol a rhyngpersonol myfyrwyr yn datblygu'n sylweddol trwy gydol eu hastudiaethau. Iddyn nhw, gellir dysgu rhai sgiliau. Felly nid oedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod asesu'r holl sgiliau a phriodoleddau sy'n ofynnol gan fferylllydd cofrestredig yn briodol ar adeg derbyn. Roeddent yn teimlo y dylid cynllunio gweithdrefnau i dderbyn yr ymgeiswyr sydd â'r potensial i ddatblygu i fod yn weithwyr fferyllol gofalgwr sy'n canolbwyntio ar gleifion ar raddau MFfer. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn holi pa sgiliau a phriodoleddau y gellid eu profi trwy weithdrefnau derbyn a pha rai y gellid eu datblygu yn ystod addysg a hyfforddiant cychwynnol. Roeddent yn croesawu eglurder ar y mater.
- 4.15. Teimlai rhai ymatebwyr oherwydd bod ymgeiswyr yn rhy ifanc ac efallai'n methu â dangos yr aeddfedrwydd a'r agweddau proffesiynol fyddai'n ofynnol ganddynt, na fyddai asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr yn darparu mesur da o'u galluoedd yn y dyfodol ac roeddent yn pryderu y byddai gweithdrefnau derbyn rhy gaeth yn atal ymgeiswyr a allai ddod yn fferyllwyr llwyddiannus rhag mynd ar raddau MFfer.
- 4.16. Roedd nifer fach o ymatebwyr hefyd yn pryderu y byddai asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr yn dieithrio rhai ymgeiswyr gan y byddai ymadawyr ysgol yn dewis gwneud cais i broffesiynau gofal iechyd eraill.
- 4.17. Dywedodd sawl ymatebydd na fydd pob myfyriwr MFfer yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion, neu'n ymarfer fel fferylllydd. Egluron nhw y gallai rhai myfyrwyr ddewis gweithio mewn diwydiant neu'r byd academiaidd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cwestiynu'r angen i asesu sgiliau cyfathrebu ymgeiswyr ac nid oeddent am i'r broses ddethol golli ymgeiswyr sy'n fwy addas ar gyfer ymchwil er enghraifft.

Tabl 9: Barn ar wneud elfen ryngweithiol yn orfodol mewn gweithdrefnau derbyn

C9. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynnig i wneud elfen ryngweithiol yn orfodol mewn gweithdrefnau derbyn i hyfforddiant ac addysg cychwynnol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	250 (48%)	59 (58%)	309 (50%)
Tueddu i gytuno	159 (31%)	25 (25%)	184 (30%)
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	43 (8%)	9 (9%)	52 (8%)
Tueddu i anghytuno	28 (5%)	6 (6%)	34 (5%)
Anghytuno'n gryf	25 (4%)	1 (<1%)	26 (4%)
Ddim yn gwybod	14 (3%)	2 (2%)	16 (3%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

- 4.18. Fel y mae'r Tabl uchod yn ei nodi, roedd 80% o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cytuno â'n cynnig i wneud elfen ryngweithiol yn orfodol mewn gweithdrefnau derbyn. Roedd barn ymatebwyr unigol a sefydliadau yn debyg (79% ac 83%). Roedd 9% o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn anghytuno â'r cynnig hwnnw.
- 4.19. Rhoddodd ychydig dan hanner yr ymatebwyr sylwadau penagored i'r cwestiwn hwn. Esboniodd llawer o ymatebwyr pam y dylid ymgorffori elfennau rhyngweithiol mewn gweithdrefnau derbyn, gwnaeth eraill awgrymiadau penodol ynghylch eu fformat. Ystyriodd sawl ymatebydd hefyd sut y gallai elfennau rhyngweithiol barhau'n gynhwysol, tra bo eraill wedi sôn am y gost fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno'r cynnig hwn. Mae barn rhanddeiliaid, cleifion ac aelodau o'r cyhoedd a fu'n rhan o'n digwyddiadau hefyd yn cael eu cynrychioli yn yr adran hon, gan fod eu barn nhw'n debyg i farn ymatebwyr yr arolwg.

Rhoi gwybod i ymgeiswyr beth sydd wir yn rhan o yrfa fferyllol

- 4.20. Roedd cytundeb cyffredin y dylai gweithdrefnau derbyn hefyd hysbysu ymgeiswyr am yr hyn y mae ymarfer fferyllol yn ei olygu er mwyn iddynt wybod beth i'w ddisgwyl gan y proffesiwn. Esboniodd rhai ymatebwyr mai dim ond yn ystod eu lleoliad cyn-gofrestru y mae hyfforddeion, mewn rhai achosion, yn sylweddoli nad yw fferylliaeth 'yn rhywbeth iddyn nhw'. Yn eu barn nhw, byddai darparu'r wybodaeth honno i ymgeiswyr yn ystod gweithdrefnau derbyn yn eu galluogi i ddewis y cwrs iawn ar eu cyfer.

Manteision cael elfennau rhyngweithiol i'r gweithdrefnau derbyn

- 4.21. Cytunwyd yn gyffredinol y byddai cynnwys elfennau rhyngweithiol mewn gweithdrefnau derbyn yn sicrhau asesu ymgeiswyr yn well gan fod ymatebwyr yn teimlo bod cynnal cyfweiliadau yn hanfodol i asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr.

- 4.22. Roedd pwysleisio pwysigrwydd asesu ymgeiswyr yn gyfannol ac nid dim ond eu perfformiad academaidd yn thema gyffredin. Soniodd ymatebwyr eraill nad yw ceisiadau ysgrifenedig bob amser yn wirioneddol adlewyrchu personoliaeth, gwerthoedd, sgiliau a phriodoleddau ymgeisydd. Roedd llawer o'r ymatebwyr a roddodd adborth penagored yn cytuno ynghylch cyfyngiadau proses dderbyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio eu sgiliau yn lle eu harddangos. Iddyn nhw, dim ond trwy gyfweiliadau, cyfarfodydd, gweithgareddau grŵp neu drafodaethau y gellir asesu sgiliau a phriodoleddau.
- 4.23. Teimlai llawer o ymatebwyr mai'r unig ffordd i asesu sgiliau cyfathrebu a phersonol ymgeiswyr oedd trwy asesu rhyngweithiol. Roedd llawer hefyd yn teimlo bod cyfweiliadau yn ffordd ragorol o asesu cymhelliant darpar fyfyrwyr.

Fformat asesu

- 4.24. Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau ar sut y dylid asesu ymgeiswyr. Roedd nifer fawr ohonynt o blaid dull cydweithredol. Cynigion nhw y dylai ysgolion gynnwys cyflogwyr o bob sector fferylliaeth, goruchwylwyr dysgu wrth ymarfer, fferyllwyr, cleifion, grwpiau gofalwyr a llyegwyr mewn gweithdrefnau derbyn. Yn eu barn nhw, byddai dull cydgysylltiedig yn sicrhau y ceisid sbectrwm llawn o safbwyntiau ar addasrwydd unigolyn i ymarfer yn uniongyrchol gyda chleifion.
- 4.25. Gwnaeth sawl ymatebydd awgrymiadau penodol. Roeddent yn teimlo y dylid cynnal gweithdrefnau derbyn mewn sawl lleoliad, gan gynnwys cyfweiliad panel, cyfweiliadau grŵp, cyfweiliadau mini aml (MMLau), prawf tueddfryd clinigol y DU (UKCAT). Cynigiodd ychydig o ymatebwyr y prawf derbyn Biofeddygol (BMAT) fel enghraifft.
- 4.26. Roedd ymatebwyr yn rhanedig o ran cynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn na fyddai cynnal cyfweiliadau dros Skype yn briodol. Roeddent yn teimlo mai dim ond wyneb yn wyneb y gellid asesu rhai sgiliau a phriodoleddau, er enghraifft empathi. Cynigiodd yr ymatebwyr hyn y dylid cyfweld â phob ymgeisydd sy'n byw yn y DU wyneb yn wyneb, hyd yn oed pe baent yn gwneud cais trwy Glirio. Esboniodd ysgolion, fodd bynnag, nad oedd fawr ddim amser i drefnu cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn ystod y broses Glirio. Cynigiwyd cynnig cynnal cyfweiliadau yn defnyddio technolegau digidol neu dros y ffôn yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd rhai ymatebwyr unigol a sefydliadau hefyd o'r farn bod cyfweiliadau un wrth un dros fideo yn dderbyniol ond, yn eu barn nhw, dylai'r rhain gael eu cyfiawnhau gan amgylchiadau unigol ac ni ddylent ddod yn norm.
- 4.27. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylai ysgolion ystyried canolfannau dethol o bell, gan y byddai hyn yn helpu i sicrhau tegwch asesu a derbyn. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod yn rhaid cael mecanweithiau i sicrhau cyfartaledd wrth ddethol ymgeiswyr waeth beth oedd eu llwybr derbyn. Roedd sicrhau cysondeb a thegwch yn themâu cyffredin ymhlith llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad. Soniwyd hefyd y dylid cymharu gweithdrefnau derbyn gwahanol ysgolion ac yn ystod Clirio er mwyn cynnal safonau uchel.

Sicrhau bod gweithdrefnau derbyn yn gynhwysol

- 4.28. Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn poeni y byddai gwneud elfen ryngweithiol mewn gweithdrefnau derbyn yn orfodol yn rhoi pobl sy'n gadael yr ysgol o gefndiroedd llai breintiedig, o ysgolion neu golegau sy'n perfformio'n llai llwyddiannus, neu'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol dan anfantais. Eu prif bryder oedd efallai na fyddai'r ymadawyr ysgol hyn

wedi cael y cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol i ddatblygu eu hunanhyder, eu sgiliau cyfathrebu a'u gwaith grŵp ac felly na fyddent yn perfformio cystal yn ystod asesiad rhyngweithiol. Roedd ymatebwyr yn disgwyl i ysgolion sicrhau nad yw myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cael eu hanwybyddu oherwydd cymorth annigonol wrth baratoi ar gyfer y broses dderbyn. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu sut y byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar unigolion swil neu ymgeiswyr â phryderon cymdeithasol. Soniodd ymatebwyr eraill y gellir hyfforddi rhai ymgeiswyr o gefndiroedd cyfoethog ar gyfer cyfweliadau dethol ac y byddai hyn yn gweithredu o'u plaid ac roeddent yn teimlo bod angen ystyried hyn.

- 4.29. Soniodd rhai ymatebwyr hefyd y gallai asesiadau rhyngweithiol, megis profion barn sefyllfaol a chyfweliadau mini aml, gyflwyno mwy o oddrychedd a rhagfarn anymwybodol i weithdrefnau derbyn. Roeddent yn teimlo y dylid rhoi mesurau diogelwch cryf yn erbyn rhagfarn anymwybodol a rhagfarn ymwybodol ar waith i sicrhau tegwch a dibynadwyedd prosesau o'r fath. Yn hynny o beth, roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r cynnig bod darparwyr yn dadansoddi proffil derbyn ymgeiswyr yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Tanlinellodd eraill bwysigrwydd hyfforddiant digonol i bawb sy'n ymwneud â gweithdrefnau derbyn.
- 4.30. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y gallai asesiadau rhyngweithiol alluogi ymgeiswyr a fethodd â chael y graddau gofynnol i ddangos drwy eu sgiliau a'u cymhellant eu bod yn haeddu cael eu derbyn ar radd MFfer.
- 4.31. Soniodd nifer fach o ymatebwyr nad oedd gan bob ymgeisydd yr un mynediad at dechnolegau fel y rhyngwyd. Awgrymon nhw ddileu'r cyfeiriadau at dechnolegau penodol er mwyn peidio ag effeithio'n andwyol ar unrhyw ymgeiswyr.

Ymhygiadau o ran cyllid ac adnoddau

- 4.32. Soniodd llawer o ysgolion am y gost fyddai'n gysylltiedig ag ymgorffori elfen rhyngweithiol yn eu gweithdrefnau derbyn. Yn benodol, sonion nhw am: y nifer fawr o ymgeiswyr; yr hyfforddiant y byddai'n rhaid iddynt ei ddarparu i'w staff; y ffaith bod rhai ymgeiswyr yn gwneud cais y tu allan i'r cyfnod recriwtio safonol (Clirio, ymgeiswyr rhyngwladol); a bod rhai strategaethau cyfweld yn ddwys o ran adnoddau. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn y byddai ysgolion yn ei chael hi'n anodd cyflwyno'r cynnig hwn heb arian ychwanegol.

Tabl 10: Barn ar fod yn fwy haearnaidd ynghylch gofynion derbyn

C10. I sicrhau'r cydbwysedd hwn, a ddylem fod yn fwy haearnaidd ynghylch gofynion derbyn? ¹	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Dylech	301 (58%)	48 (47%)	349 (56%)
Na ddylech	141 (27%)	30 (29%)	171 (28%)
Ddim yn gwybod	77 (15%)	24 (24%)	101 (16%)
Cyfanswm nifer ymatebion	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

¹ Ymgynghoriad ar hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr (tudalennau 39 a 40)

- 4.33. Fel y mae Tabl 10 yn ei ddangos, roedd 56% o'r ymatebwyr yn teimlo y dylem fod yn fwy haearnaidd ynghylch gofynion derbyn. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr unigol (58%) o blaid gofynion derbyn mwy haearnaidd o'i gymharu ag ymatebwyr ar ran sefydliadau (47%). Roedd cyfran uwch o sefydliadau yn ansicr a ddylem fod yn fwy haearnaidd (24%) o'i gymharu ag unigolion (14%).
- 4.34. Rhoddodd bron dau o bob tri o ymatebwyr adborth penagored i'r cynnig hwn. Roedd gan ymatebwyr farn amrywiol ar osod gofynion derbyn mwy haearnaidd. Teimlai rhai ymatebwyr y dylid gosod lleiafswm gofynion derbyn i sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal ac i fod yn decach i fyfyrwyr. Teimlai ymatebwyr eraill y dylid gadael gofynion derbyn i ysgolion ac y dylid caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran graddau derbyn gofynnol. Ailadroddodd llawer o ymatebwyr eu cefnogaeth i weithdrefnau derbyn cynhwysol. Mae barn ymatebwyr yr ymgynghoriad hefyd yn adlewyrchu'r hyn a glywyd yn ein digwyddiadau rhanddeiliaid, er bod tegwch i ymgeiswyr yn arbennig o bwysig i gleifion ac aelodau'r cyhoedd.

Gosod gofynion derbyn mwy haearnaidd

- 4.35. Thema gyffredin ymhlith ymatebwyr a roddodd sylwadau penagored oedd y byddai gofynion derbyn mwy haearnaidd yn cynnal safonau academiaidd uchel ac yn sicrhau bod yr ymgeiswyr gorau yn cael eu dethol. Tanlinellodd llawer o ymatebwyr mor anodd yw'r radd Mffer, y disgwyliadau uchel a roddir ar y proffesiwn a'r ffaith bod y GIG yn bwriadu rhoi rôl flaenllaw i fferyllwyr yn y dyfodol. Yn eu barn nhw, dylai'r gweithdrefnau derbyn sicrhau dethol myfyrwyr a fyddai'n gallu gwireddu'r disgwyliadau hyn.
- 4.36. Roedd nifer fawr o ymatebwyr o'r farn mai dim ond gofynion derbyn haearnaidd a fyddai'n lleihau nifer y myfyrwyr nad ydynt yn gallu cwblhau'r radd Mffer neu eu lleoliad cyn-gofrestru neu basio'r asesiad cofrestru. Roeddent yn teimlo y byddai dethol ymgeiswyr yn fwy gwydn yn decach i'r myfyrwyr sy'n debygol o gael trafferth cyflawni gofynion y cwrs ac a fyddai'n methu â chofrestru fel fferyllwyr. Egluron nhw fod myfyrwyr yn buddsoddi cryn dipyn o adnoddau ac amser yn eu haddysg a'u hyfforddiant a gallai derbyn ymgeiswyr â graddau is na'r graddau gofynnol eu rhoi dan anfantais o'r cychwyn cyntaf.
- 4.37. Cynigiodd sawl ymatebydd y dylem osod isafswm graddau derbyn (yn gyffredinol neu ar gyfer pynciau gwyddonol penodol) i sicrhau cysondeb rhwng y gwahanol ysgolion. Yn eu barn nhw, roedd gwahanol safonau'r ysgolion o ran gofynion derbyn yn peri pryder a dim ond ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r meini prawf academiaidd y dylid eu derbyn. Roedd cleifion ac aelodau'r cyhoedd o'r farn y byddai mwy o gysondeb yn atgyfnerthu ffydd y cyhoedd yng ngallu fferyllwyr newydd. Soniodd nifer fach o ymatebwyr hefyd am y pwysau sydd ar brifysgolion i berfformio'n dda ac roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig i ni osod lleiafswm gofynion penodol yn yr hinsawdd honno. Fe wnaeth yr ymatebwyr a ofynnodd am isafswm graddau derbyn ein hannog i ymgysylltu ag ysgolion i sefydlu pa ofynion derbyn fyddai'n briodol.
- 4.38. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylid caniatáu i ysgolion dderbyn ymgeiswyr i'w graddau Mffer nad oeddent yn ateb â'u gofynion derbyn academiaidd, a hynny er mwyn sicrhau integriti'r proffesiwn. Teimlai ymatebwyr eraill y gellid caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ac y gallai ysgolion dderbyn nifer fach o ymgeiswyr nad oeddent yn cyflawni eu graddau derbyn. Fodd bynnag, yn eu barn hwy, dylid dal ysgolion i gyfrif ac, wrth dderbyn ymgeiswyr â chyflawniad academiaidd isel, dylent allu egluro eu penderfyniadau.

- 4.39. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys y dylai'r CFfC nodi pa bynciau Safon Uwch y dylai ysgolion eu hystyried a nodi canran uchaf o leoedd i'w dyrannu i ymgeiswyr â graddau is.
- 4.40. Roedd ychydig o ymatebwyr yn poeni am nifer yr ymgeiswyr sy'n mynd i fferylliaeth trwy Glirio. Cynigion nhw mai dim ond ymgeiswyr a gyrhaeddodd y graddau gofynnol y dylid eu derbyn i raddau MFfer, neu gyfyngu ar eu nifer (er enghraifft canran benodol ar gyfer pob ysgol).

Peidio â chanolbwyntio ar ofynion academiaidd yn unig

- 4.41. Esboniodd nifer fawr o ymatebwyr bod rhai o'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn gwneud hynny heb gyflawni lleiafswm y gofynion derbyn ond bod ganddynt y gallu academiaidd, y sgiliau a'r agweddau i fod yn fferyllwyr da. Iddyn nhw, ni ddylai weithdrefnau derbyn ganolbwyntio ar raddau ymgeiswyr yn unig. Credent fod asesu potensial, personoliaeth, agwedd at ddysgu, sylw i fanylion, sgiliau cyfathrebu ac empathi ymgeiswyr yr un mor bwysig. Yn eu barn nhw, roedd fferylliaeth yn llawer mwy na rhagoriaeth academiaidd a byddai ystyried cyflawniad academiaidd yn unig yn gamgymeriad.
- 4.42. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid rhoi hyblygrwydd i ysgolion i allu gwneud eu penderfyniadau eu hunain, gan ystyried amgylchiadau personol a chymdeithasol ymgeiswyr, ynghyd â'u sgiliau a'u priodoleddau, mewn achosion lle roeddent wedi methu'r gofynion mynediad o ychydig raddau. Teimlai'r ymatebwyr hyn, cyhyd â bod rhesymau clir wedi'u cofnodi dros dderbyn myfyrwyr nad oeddent yn cwrdd â'r meini prawf academiaidd, y dylai ysgolion allu eu derbyn.

Ymwneud y CFfC â gofynion derbyn

- 4.43. Roedd ymatebwyr eraill, ysgolion fferylliaeth yn bennaf, o'r farn y dylid gadael gofynion derbyn (gan gynnwys y posibilrwydd o dderbyn cynigion diamod) i ysgolion. Yn eu barn nhw, dim ond canllawiau y dylai'r rheoleiddiwr eu darparu a chaniatáu i ysgolion osod eu safonau derbyn eu hunain cymaint â phosibl. Egluron nhw fod gan ysgolion weithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n atal myfyrwyr nad ydyn nhw'n gwneud cynnydd rhag symud yn eu blaen o un flwyddyn i'r flwyddyn nesaf. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd o'r farn y dylid rhoi pwyslais ar ddatblygu perfformiad academiaidd a chefnogi myfyrwyr i gyflawni eu potensial. Iddyn nhw, ni ddylai gweithdrefnau derbyn atal myfyrwyr a allai, gyda chefnogaeth, gwblhau'r rhaglen, rhag cael eu derbyn. Esboniodd sawl ymatebydd fod y dull hwn yn arbennig o bwysig i ymgeiswyr â chyfranogiad hanesyddol isel mewn addysg uwch.
- 4.44. Soniodd nifer o ymatebwyr fod gan bob ysgol ei dull ei hun o addysgu a bod myfyrwyr yn ffynnu mewn gwahanol amgylcheddau. Yn eu barn nhw, roedd rhai ysgolion yn well nag eraill wrth gefnogi myfyrwyr oedd wedi dechrau gyda graddau is. Roeddent felly yn dadlau na ddylai gofynion derbyn fod yr un peth ar gyfer pob ysgol a chynigion nhw y dylai ysgolion olrhain perfformiad eu myfyrwyr MFfer yn ôl eu cymwysterau a graddau derbyn eu hunain, ac i adolygu eu meini prawf derbyn ar sail y dystiolaeth honno.
- 4.45. Roedd sawl ymatebydd yn poeni y byddai gofynion derbyn mwy haearnaidd yn arwain at rai ysgolion yn methu â recriwtio eu niferoedd targed ac yn gorfod cau. Egluron nhw fod meini prawf derbyn yn amrywio yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw ac y byddai gofynion mwy cyfyngol yn ymyrryd â gweithrediad y farchnad hon.

- 4.46. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn poeni y byddai gosod gofynion derbyn mwy haearnaidd yn atal ysgolion rhag derbyn ymgeiswyr â chymwysterau cyfatebol (er enghraifft graddau sylfaen, diploma mynediad a chymwysterau tramor) neu brofiad perthnasol (er enghraifft technegwyr fferyllol, myfyrwyr aeddfed).

Y sail dystiolaeth sy'n gefn i'r newidiadau a gynigir

- 4.47. Gofynnodd sawl ysgol pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ddrafftio'r cynigion ymgynghori mewn perthynas â derbyniadau. Roedd rhai'n cwestiynu'r ffaith nad oedd asesu cyflawniadau academaidd ymgeiswyr yn y gorffennol yn ddigon i ragweld llwyddiant academaidd myfyrwyr yn y dyfodol. Gofynnodd eraill am gyfradd llwyddiant asesiadau myfyrwyr oedd wedi eu derbyn ar y radd MFfer drwy'r broses Glirio neu oedd wedi cael cynigion diamod. Teimlai'r ymatebwyr hyn y dylid cynnal dadansoddiad gofalus gan ganolbwyntio ar y cysylltiad rhwng derbyniadau a llwyddiant yn yr asesiadau cofrestru. Roeddent yn credu y dylid cynnal yr ymchwil hon cyn gosod gofynion mwy haearnaidd.

Sicrhau bod gweithdrefnau derbyn yn gynhwysol

- 4.48. Roedd pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal safonau derbyn uchel ac ehangu mynediad yn thema gyffredin. Nodwyd y byddai caniatáu i bobl oedd yn gadael yr ysgol heb ystyried bod yn fferylllydd i ddod i mewn i'r proffesiwn yn atgyfnerthu'r proffesiwn.
- 4.49. Roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu y byddai gofynion llymach yn effeithio'n negyddol ar ymadawyr ysgol o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, nad oeddent efallai wedi gwireddu eu llawn botensial ar Safon Uwch. Iddyn nhw, roedd yn bwysig bod ysgolion yn gallu gwneud eithriadau neu ddefnyddio safonau gwahanol i ymgeiswyr ar sail addysg, cefndir neu amgylchiadau eraill. Awgrymodd ymatebwyr y dylid adnabod y grwpiau o bobl a fyddai'n dod o fewn y categorïau hyn a'u gwahaniaethu oddi wrth ymgeiswyr oedd yn amlwg yn anaddas ar gyfer y cwrs. Er enghraifft, roeddent yn cynnig meini prawf academaidd ychydig yn is ar gyfer ymgeiswyr oedd yn sgorio'n arbennig o dda yn elfennau rhyngweithiol y gweithdrefnau derbyn.

Tabl 11: Barn ar beidio â chaniatáu cynigion diamod

C11. A ddylem barhau i ganiatáu cynigion diamod?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Dylech	113 (22%)	17 (17%)	130 (21%)
Na ddylech	334 (64%)	59 (58%)	393 (63%)
Ddim yn gwybod	72 (14%)	26 (25%)	98 (16%)
Cyfanswm N ymatebion	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

- 4.50. Mae Tabl 11 yn dangos bod 63% o ymatebwyr yr ymgynghoriad o'r farn na ddylid caniatáu cynigion diamod. Roedd cyfran yr ymatebwyr unigol a oedd yn teimlo na ddylid caniatáu cynigion diamod (64%) ychydig yn fwy o'i gymharu â chyfran yr ymatebwyr ar ran sefydliadau (58%). Roedd cyfran uwch o sefydliadau yn ansicr a ddylem barhau i ganiatáu cynigion diamod (25%) o'i gymharu ag unigolion (14%).

- 4.51. Rhoddodd ychydig dros hanner ymatebwyr yr arolwg adborth penagored i'r cwestiwn hwn. Teimlai llawer o'r ymatebwyr hyn na ddylid caniatáu cynigion diamod - barn a rennir gan y cleifion ac aelodau'r cyhoedd a gymerodd ran mewn digwyddiadau ymgynghori. Roedd eraill o blaid dull mwy hyblyg.

Barn ar gynigion diamod

- 4.52. Roedd ymatebwyr yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gynigion diamod. Roedd y mwyafrif ohonynt yn teimlo bod gwneud cynigion diamod i fyfyrwyr oedd yn ateb y gofynion derbyn ond yn gohirio ymuno â'r rhaglen (er enghraifft oherwydd blwyddyn i ffwrdd) yn briodol. Esboniodd ymatebwyr yr Alban mai dim ond ar ôl cyrraedd y graddau a ddymunir y gwneir cynigion diamod yn yr Alban.
- 4.53. Cytunwyd yn gyffredinol nad oedd cynigion diamod yn briodol ar gyfer gradd broffesiynol ac roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod cynigion diamod yn tansilio ffydd y cyhoedd mewn fferyllwyr ac yn anfon y neges anghywir i'r proffesiwn. Roeddent yn disgwyl i fferyllwyr gyrraedd safonau uchel bob amser yn eu gwaith ac ymrwymo i ddysgu gydol oes. I'r ymatebwyr hyn, dylai'r ddwy elfen hyn gael eu hadlewyrchu mewn gweithdrefnau derbyn a dylai ymgeiswyr allu dangos eu bod wedi cynnal ethig gwaith da trwy gydol eu blynyddoedd ysgol. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn nad oedd cynigion diamod yn annog rhagoriaeth a'u bod yn niweidiol i godi safonau addysg a hyfforddiant.
- 4.54. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylid dyfarnu lleoedd MFfer yn ôl teilyngdod, ac nid ar gyflawniadau wedi eu rhagweld. Nid oeddent am i ddisgyblion golli'r cymhelliant i baratoi ar gyfer eu Safon Uwch a pheidio ag astudio at eu gallu academiaidd llawn. Teimlai sawl ymatebydd y gallai paratoi disgyblion yn annigonol ar gyfer eu Safon Uwch arwain at beidio â pharatoi'r disgyblion yn ddigonol ar gyfer cwrs prifysgol dwys fel y radd MFfer. I'r ymatebwyr hyn, nid oedd y Safon Uwch yn nod ynddo'i hun ond yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y cwrs fferylliaeth.
- 4.55. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn nad oedd cynigion diamod yn dryloyw nac yn deg i fyfyrwyr eraill oedd wedi gweithio'n galed ar gyfer eu Lefel A.
- 4.56. Dywedodd ychydig o ymatebwyr y byddai cyflwyno elfen ryngweithiol i weithdrefnau derbyn yn anghydnaws â chaniatáu cynigion diamod, pan fônt yn cael eu rhoi heb gyfweiliadau.

Hyblygrwydd o ran graddau

- 4.57. Roedd ymatebwyr eraill, ysgolion fferylliaeth yn bennaf ac ychydig o ymatebwyr unigol, o'r farn y dylid caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran cyflawniadau academiaidd sy'n ofynnol ar gyfer derbyn i radd MFfer. Yn eu barn nhw, mae gan rai ymgeiswyr y gallu i gwblhau gradd MFfer hyd yn oed os ydynt wedi colli'r graddau gofynnol o ychydig farciau. Ymhlith yr awgrymiadau roedd: cymharu deilliannau academiaidd ymgeiswyr â gofynion derbyn eraill, cymhelliant a gallu ymgeiswyr i ddysgu, ac ystyried yr amgylchiadau personol a allai fod wedi arwain at berfformiad academiaidd gwannach.
- 4.58. Awgrymodd ychydig o gleifion ac aelodau'r cyhoedd y dylid caniatáu cynigion diamod ond y dylid rheoli eu nifer. Awgrymon nhw osod canran uchaf ar gyfer pob ysgol.

5. Dysgu drwy brofiad a dysgu rhyngddisgyblaethol

Tabl 12: Barn ar ein cynigion ynghylch dysgu drwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol

C12. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynigion o ran:	Dysgu drwy brofiad (dysgu ymarferol)? N a % unigolion	Dysgu drwy brofiad (dysgu ymarferol)? N a % sefydliadau	Dysgu drwy brofiad (dysgu ymarferol)? N a % Cyfanswm	Dysgu rhyngbroffesiynol? N a % unigolion	Dysgu rhyngbroffesiynol? N a % sefydliadau	Dysgu rhyngbroffesiynol? Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	297 (57%)	59 (58%)	356 (57%)	290 (56%)	57 (56%)	347 (56%)
Tueddu i gytuno	149 (29%)	32 (31%)	181 (29%)	159 (31%)	32 (31%)	191 (31%)
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	31 (6%)	3 (3%)	34 (5%)	31 (6%)	2 (2%)	33 (5%)
Tueddu i anghytuno	18 (3%)	4 (4%)	22 (4%)	17 (3%)	7 (7%)	24 (4%)
Anghytuno'n gryf	13 (3%)	2 (2%)	15 (2%)	13 (3%)	2 (2%)	15 (2%)
Ddim yn gwybod	11 (2%)	2 (2%)	13 (2%)	9 (2%)	2 (2%)	11 (2%)
Cyfanswm ymatebwyr	N 519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

- 5.1. Fel yr adlewyrchir yn y ffigurau yn Nhabl 12 uchod, roedd 86% ac 87% o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cytuno â'n cynigion mewn perthynas â dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol, yn y drefn honno. Roedd barn ymatebwyr unigol a sefydliadau yn debyg (86% ac 89%). Roedd 6% o holl ymatebwyr yr ymgynghoriad yn anghytuno â phob un o'r cynigion.
- 5.2. Rhoddodd ychydig dros hanner ymatebwyr yr ymgynghoriad adborth penagored i'r cynigion hyn. Croesawodd nifer fawr ohonynt ein newidiadau arfaethedig, gyda llawer yn sôn am yr amrywiadau ar hyn o bryd o ran cyflwyno'r ddwy elfen hyn. Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau mewn perthynas â gweithredu ein newidiadau arfaethedig.

Manteision dysgu drwy brofiad a dysgu rhyngddisgyblaethol

- 5.3. Roedd cymeradwyaeth gyffredinol ar gyfer cynnydd mewn dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol gan y byddai hyn yn galluogi myfyrwyr i wella safonau ymarfer fferyllol.
- 5.4. Cytunwyd yn gyffredinol, wrth i rôl y fferylllydd ddod yn fwy clinigol, ei bod yn bwysig bod myfyrwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion ac yn gweithio mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn mor gynnar yn eu hyfforddiant â phosibl. Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen i fferyllwyr

fod â phrofiad o weithio gyda chleifion cyn mynd i ymarfer, er mwyn gallu cyfathrebu â nhw'n well a gwella eu sgiliau ymgynghori a'u sgiliau diagnostig.

- 5.5. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai gwneud mwy o ddysgu drwy brofiad yn paratoi myfyrwyr yn well at amgylchedd y gweithle. Roeddent yn teimlo bod dysgu trwy brofiad yn hanfodol i fyfyrwyr, er mwyn iddynt allu: troi theori yn ymarfer, deall eu rôl a'u cyfyngiadau eu hunain, magu hyder a bod yn fwy parod i ryngweithio â chleifion a chydweithwyr.
- 5.6. Esboniodd nifer fawr o ymatebwyr hefyd fod fferyllwyr yn gweithio fwyfwy yn rhan o dimau amlddisgyblaethol. Teimlai ymatebwyr y byddai cynyddu sgiliau cyfathrebu yn galluogi fferyllwyr i ymarfer ar lefel glinigol uchel ac yn rhan o dimau clinigol. I lawer o ymatebwyr, dylid ymgorffori dysgu rhyngbroffesiynol mewn graddau MFfer o'r dechrau fel y gall myfyrwyr ffurfio partneriaethau gwaith ac ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau cyn gynted â phosibl.
- 5.7. Soniodd sawl ysgol eu bod eisoes yn cynnig mwy o ddysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol yn eu rhaglenni a bod y ddwy elfen hyn o fudd i fyfyrwyr.

Amrywiadau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd

- 5.8. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai ein cynigion mewn perthynas â dysgu trwy brofiad fynd ymhellach. Roeddent o'r farn y dylid safoni faint o ddysgu trwy brofiad y dylid ei wneud. Esboniodd darparwyr hyfforddiant yn arbennig eu bod wedi sylwi ar rai gwahaniaethau pwysig yng nghymwyseddau hyfforddeion cyn-gofrestru yn dibynnu ar faint o ddysgu trwy brofiad yr oedd eu gradd MFfer yn ei gynnwys. O'u profiad nhw, roedd myfyrwyr oedd wedi elwa o fwy o ddysgu drwy brofiad yn tueddu i allu 'cyd-dynnu' â'u lleoliad cyn-gofrestru yn llawer haws. Nododd ymatebwyr eraill mai dim ond ychydig o brofiad o waith uniongyrchol ac efelychol gyda chleifion oedd gan fyfyrwyr ar hyn o bryd. Er enghraifft, esboniodd sawl fferylllydd nad oeddent wedi cynnal ymgynghoriad na hanes cyffuriau gyda chlaf 'go iawn' cyn eu hyfforddiant cyn-gofrestru. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith bod myfyrwyr gofal iechyd eraill yn treulio llawer mwy o amser yn y gweithle na myfyrwyr fferylliaeth.
- 5.9. Yn yr un modd, esboniodd llawer o ymatebwyr fod llawer o amrywiad yn y modd y darperir dysgu rhyngbroffesiynol, am nad oedd wedi ei safoni. Soniodd nifer fawr o ymatebwyr nad yw rhai myfyrwyr yn cwrdd â gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill, a bod hyn yn golygu nad yw myfyrwyr bob amser yn hyderus wrth ryngweithio â chydweithwyr. Roeddent yn teimlo ei bod yn hanfodol ymwreiddio arfer orau dysgu rhyngbroffesiynol i bum mlynedd yr addysg a hyfforddiant cychwynnol i sicrhau mwy o gysondeb rhwng darparwyr a bod pob myfyriwr wedi'i baratoi'n briodol ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. I'r ymatebwyr hyn, byddai cynyddu'r cyswllt uniongyrchol â grwpiau proffesiynol eraill a chyflwyno hyfforddiant aml-sector yn llawer cynharach yn y radd MFfer yn creu myfyrwyr oedd yn fwy abl i ddelio gyda'r pontio i waith, sy'n gallu bod yn heriol i rai.

Anghenion dysgu

- 5.10. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod angen i fyfyrwyr gael mewnwelediad i wahanol rolau fferyllwyr o ddechrau eu hyfforddiant, er mwyn iddynt allu uniaethu â chleifion a darparu gofal o ansawdd uchel maes o law. Roedden nhw'n awgrymu y dylai myfyrwyr weithio'n uniongyrchol gyda chleifion mewn amrywiaeth o amgylcheddau, fel eu bod yn dysgu sut i ddelio â gwahanol fathau o gleifion ag anghenion gwahanol, ac ar adegau cymhleth. Roedd yn bwysig i rai

ymatebwyr bod myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd bywyd go iawn ac nid mewn lleoliadau efelychol yn unig.

- 5.11. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai dysgu rhyngbroffesiynol yn galluogi myfyrwyr i ddysgu sut i ryngweithio â gwahanol weithwyr iechyd a gofal proffesiynol i allu darparu safonau gofal uwch ac i weithio fel aelod gweithredol o'r tîm amlddisgyblaeth. Roedd cytundeb eang bod angen i fferyllwyr wybod sut mae eu rôl yn cyd-fynd â'r tîm amlddisgyblaethol a deall cryfderau a chyfyngiadau proffesiynau eraill. Dywedodd sawl ymatebydd y byddai dysgu rhyngbroffesiynol hefyd yn galluogi proffesiynau eraill i ddeall rôl fferyllwyr yn well, ac y byddai hyn o fudd wrth feithrin perthnasoedd gwaith cryfach â nhw yn y dyfodol.

Darparu dysgu drwy brofiad

- 5.12. Gwnaeth llawer o ymatebwyr awgrymiadau penodol neu ofyn am eglurhad ynghylch sut i weithredu dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol.

Dysgu drwy brofiad

- 5.13. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylid cyflwyno dysgu trwy brofiad mewn graddau MFfer o'r diwrnod cyntaf un, y dylai gweithgareddau fod yn ystyrlon, ac y dylid cefnogi myfyrwyr yn briodol. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai myfyrwyr nid yn unig arsylwi ond hefyd gymryd rhan ar lefel a oedd yn briodol i'w cymhwysedd.
- 5.14. Gofynnodd ymatebwyr eraill am leiafswm gofynion derbyn. Roeddent yn holi beth fyddai lleiafswm y dysgu trwy brofiad y dylid ei ymgorffori mewn graddau MFfer. Yn eu barn nhw, roedd yn bwysig gosod lleiafswm i sicrhau cysondeb rhwng ysgolion.
- 5.15. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y dylai fod gan fyfyrwyr isafswm o wybodaeth glinigol cyn cael eu rhoi'n uniongyrchol mewn rhai sefyllfaoedd. Yn eu barn nhw, dylid dysgu trwy brofiad ar adeg oedd yn glinigol briodol ac yn ddiogel i fyfyrwyr ryngweithio gyda chleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
- 5.16. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai ysgolion weithio gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod sesiynau wedi'u teilwra at anghenion dysgu myfyrwyr. Roeddent yn ffafrio dull cydweithredol i ddatblygu modelau a fyddai'n gweithio i bawb ac ymhlith sawl sector.
- 5.17. Teimlai ychydig o ymatebwyr y dylai myfyrwyr gael profiad o sawl sector o ymarfer fferylliaeth a chylchdroi rhwng ysbytai, cymunedau, meddygfeydd teulu, labordai, lleoliadau diwydiant, ac ati. Nododd nifer fach o ymatebwyr y dylai myfyrwyr hefyd gael cyswllt ag unigolion anghlinigol sy'n gweithio yn y maes gofal iechyd (er enghraifft rheolwyr gwasanaethau a chomisiynwyr).

Dysgu rhyngddisgyblaethol

- 5.18. Roedd ymatebwyr, ysgolion yn bennaf, yn gofyn am fwy o eglurder ynghylch maint ac amllder dysgu rhyngbroffesiynol.
- 5.19. Cafwyd nifer o awgrymiadau penodol o ran sut y dylid cyflwyno dysgu rhyngbroffesiynol. Teimlai sawl ymatebydd y dylai fod yn orfodol, ac yn yr un modd â dysgu trwy brofiad, dylai gychwyn mor gynnar â blwyddyn gyntaf y radd MFfer. Dylai hefyd ddigwydd mewn ychydig o wahanol safleoedd hyfforddi ac yn rheolaidd trwy bob cam o'r llwybr addysg a hyfforddiant. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn na ddylid cyfyngu rhyngweithio myfyrwyr i ddeintyddion, nyrsys a meddygon yn unig.

- 5.20. O ran dysgu drwy brofiad, roedd rhai ymatebwyr eisiau i'r rheoleiddiwr osod lleiafswm gofyniad ar gyfer dysgu rhyngbroffesiynol. Fodd bynnag, nododd eraill fod ansawdd y dysgu rhyngbroffesiynol yn bwysicach na pha mor aml y digwyddai.
- 5.21. Cafwyd ychydig o geisiadau hefyd am arweiniad ar sut y dylai ysgolion a darparwyr hyfforddiant weithio gyda'i gilydd. Roedd ymatebwyr yn ansicr ynghylch sut y dylai ysgolion fonitro dysgu rhyngbroffesiynol a sicrhau ansawdd yr asesiadau mewn gwahanol safleoedd.

Heriau ynghlwm wrth wireddu ein cynigion

- 5.22. Pwysleisiodd llawer o ymatebion gost bosibl ein cynigion. Esboniodd ysgolion y byddai angen cyllid pellach arnynt i allu gweithredu dysgu trwy brofiad a dysgu rhyngbroffesiynol yn llwyddiannus. Tynnon nhw sylw hefyd at gostau sylweddol o ran adnoddau a logisteg.
- 5.23. O ran dysgu drwy brofiad, esboniodd ymatebwyr y byddai angen cydlynu lleoliadau byrrach ac amlach ochr yn ochr â chyfnodau hirach o ddysgu wrth ymarfer. Esboniodd ysgolion y byddai angen mwy o arian ar gyfer unrhyw gynnydd y tu hwnt i'r darpariaethau presennol. Roeddent yn rhagweld y byddai angen iddynt recriwtio staff, cynnwys cleifion arbenigol a chynyddu eu hadnoddau gweinyddol.
- 5.24. O ran dysgu rhyngbroffesiynol, soniodd ymatebwyr nad oedd cyllid ychwanegol ar gael i ysgolion fferylliaeth yn holl wledydd y DU i ddarparu dysgu rhyngbroffesiynol, yn wahanol i broffesiynau eraill. Egluron nhw fod ysgolion ar hyn o bryd yn gwneud cymaint ag y gallent fforddio ei wneud. Yn eu barn nhw, roedd cyllid ar hyn o bryd yn cyfyngu ar ehangu dysgu rhyngbroffesiynol ymhellach. Soniodd sawl ymatebydd hefyd ei bod yn anodd trefnu dysgu rhyngbroffesiynol gyda phroffesiynau eraill weithiau gan fod ganddynt fodolau addysg a hyfforddiant gwahanol. Cynigion nhw y dylem weithio gyda rheoleiddwyr y proffesiynau hyn i sicrhau bod y pwyslais ar ddysgu rhyngbroffesiynol yn ymarferol bosibl.

6. Goruchwyllo dysgu wrth ymarfer (cyn-gofrestru)

Tabl 13: Barn ar ddisodli'r drefn o bedwar tiwtor yn ardystio gyda rhagor o gyfarfodydd cynnydd rheolaidd rhwng goruchwylwyr ymarfer a myfyrwyr fferylliaeth

C13. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynnig i ofyn am gyfarfodydd cynnydd mwy cyson rhwng goruchwylwyr dysgu wrth ymarfer a myfyrwyr fferyllol yn lle'r pedwar ardystiad presennol gan diwtoriaid?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	225 (43%)	35 (34%)	260 (42%)
Tueddu i gytuno	153 (29%)	44 (43%)	197 (32%)
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	54 (10%)	10 (10%)	64 (10%)
Tueddu i anghytuno	43 (8%)	7 (7%)	50 (8%)
Anghytuno'n gryf	16 (3%)	1 (<1%)	17 (3%)
Ddim yn gwybod	28 (5%)	5 (5%)	33 (5%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

6.1. Fel y nodir yn Nhabl 13, roedd 74% o ymatebwyr yn cytuno gyda'n cynnig i ddisodli'r gofyniad presennol bod pedwar tiwtor yn ardystio myfyrwyr gyda system o gyfarfodydd cynnydd mwy rheolaidd rhwng goruchwylwyr dysgu wrth ymarfer a myfyrwyr fferyllol. Roedd cyfran uwch o sefydliadau (77%) yn cytuno â'n cynnig o'i gymharu ag ymatebwyr unigol (72%). Roedd 11% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 5% yn ansicr gyda'r canfyddiadau hyn, gyda'r ganran yn debyg ymhlith sefydliadau ac unigolion.

6.2. Rhoddodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr adborth penagored i'r cwestiwn hwnnw. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd y byddai cyfarfodydd cynnydd mwy rheolaidd yn cefnogi dilyniant myfyrwyr yn well. Gwnaeth ymatebwyr hefyd awgrymiadau penodol o ran amllder cyfarfodydd, hyfforddiant a chefnogaeth goruchwylwyr, sicrhau parhad wrth oruchwyllo myfyrwyr a sicrhau ansawdd. Codwyd pryderon am yr adnoddau fyddai ar gael i drefnu cyfarfodydd cynnydd rheolaidd. Codwyd yr un safbwyntiau yn ystod ein digwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid.

Manteision cyfarfodydd cynnydd rheolaidd

6.3. Dywedodd llawer o ymatebion fod amrywiadau sylweddol yn ansawdd yr oruchwyliaeth cyn-gofrestru rhwng ac o fewn sectorau. Nododd rhai ymatebwyr y gallai'r ymgysylltu rhwng tiwtoriaid cyn-gofrestru a hyfforddeion fod yn annigonol weithiau. Egluron nhw y gallai hyfforddeion weithiau gael eu hystyried yn 'bâr ychwanegol o ddwylo' ac nad oeddent bob amser yn derbyn adborth rheolaidd.

- 6.4. Thema gyffredin ymhlith ymatebwyr a roddodd adborth oedd y byddai cyfarfodydd cynnydd rheolaidd yn sicrhau y gallai myfyrwyr symud yn eu blaen yn barhaus ac mewn ffordd fwy cyson tuag at gyflawni'r deilliannau dysgu. Yn eu barn nhw, roedd yn bwysig i fyfyrwyr gwrdd â'u goruchwylwyr yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn bwrw ymlaen â'u dysgu, yn ymdopi â'u llwyth gwaith ac yn gallu trafod materion proffesiynol yn rheolaidd. I lawer o ymatebwyr, byddai disodli'r gofyniad presennol i gael llofnod pedwar tiwtor gyda chyfarfodydd cynnydd mwy rheolaidd yn cryfhau ansawdd yr hyfforddiant.
- 6.5. Roedd cytundeb cyffredinol y byddai cyfarfodydd rheolaidd yn galluogi goruchwylwyr i gael gwell trosolwg dros ddatblygiad myfyrwyr. Roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai gan oruchwylwyr well syniad o sut roedd myfyrwyr yn ymdopi â'u dysgu, beth oedd eu hanghenion dysgu, ac y byddent yn gallu cefnogi myfyrwyr yn gynt.
- 6.6. Roedd ymatebwyr hefyd yn croesawu dull goruchwyllo oedd wedi'i deilwra mwy. Yn eu barn nhw, byddai trafodaeth fwy rheolaidd ynghylch anghenion dysgu myfyrwyr yn rhoi cyfle i oruchwylwyr a myfyrwyr addasu cynlluniau hyfforddi mewn ffordd fwy hyblyg, yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu'n gyflymach ac yn lleihau'r risg bod problemau byr dymor yn troi'n broblemau hirsefydlog. I'r ymatebwyr hyn, byddai asesu cynnydd myfyrwyr yn fwy rheolaidd hefyd yn caniatáu i oruchwylwyr alluogi myfyrwyr parod a chymwys i symud yn eu blaen yn gyflymach.

Pa mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd cynnydd

- 6.7. Teimlai llawer o ymatebwyr y dylai amllder cyfarfodydd ddibynnu ar anghenion dysgu myfyrwyr. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, dylai asesu ac adborth i fyfyrwyr fod yn ddynamig ac yn adweithiol. Gofynnodd ymatebwyr eraill am isafswm o gyfarfodydd cynnydd i sicrhau cysondeb rhwng darparwyr hyfforddiant. Egluron nhw fod gan rai goruchwylwyr lwyth gwaith trwm ac roeddent am sicrhau bod o leiaf lleiafswm o gyfarfodydd rhwng goruchwylwyr a myfyrwyr yn cael eu cynnal. Roeddent o'r farn, pe na bai safon glir yn disodli'r pedwar llofnod tiwtor, y byddai risg bod cysylltiadau rhwng myfyrwyr a goruchwylwyr yn lleihau.

Hyfforddiant a chymorth i oruchwylwyr

- 6.8. Thema gyffredin oedd y dylid gwella hyfforddiant goruchwylwyr. Teimlai llawer o ymatebwyr y dylai goruchwylwyr gael eu hyfforddi'n briodol ac y dylent gael cefnogaeth barhaus o ran mentora a darparu adborth adeiladol i fyfyrwyr. Yn eu barn nhw, dylid darparu hyfforddiant digonol i oruchwylwyr, er mwyn iddynt ddeall yn glir yr hyn a ddisgwyliid ganddyn nhw a gan fyfyrwyr. I'r ymatebwyr hyn, dim ond pe bai goruchwylwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rôl y byddai cyfarfodydd cynnydd rheolaidd yn llwyddiannus gan y byddai ansawdd y cyfarfodydd yn dibynnu ar sgiliau'r goruchwylwr.

Parhad o ran goruchwyllo

- 6.9. Soniodd nifer o ymatebwyr y gallai sawl cyfnod dysgu byrrach wrth ymarfer mewn gwahanol safleoedd hyfforddi olygu y byddai parhad goruchwylloaeth a datblygiad y myfyriwr gan un neu ddau oruchwylwr yn cael ei aberthu. Roeddent yn poeni y byddai goruchwylwyr yn colli'r gallu i fod â throsolwg dros gryfderau a gwendidau myfyrwyr a'r cyfrifoldeb am eu hyfforddiant llawn. Roeddent hefyd yn pryderu y byddai lleoliadau byrrach yn ei gwneud yn anos ardystio galluoedd myfyrwyr.

- 6.10. Roedd llawer o ymatebwyr yn pwysleisio y byddai cyfathrebu rhwng y gwahanol oruchwylwyr yn hanfodol i sicrhau datblygiad priodol gan fyfyrwyr. Soniodd sawl ymatebydd y dylid trosglwyddo cofnodion cynnydd myfyrwyr, er enghraifft portffolios neu gofnodion electronig, o un goruchwylwr i'r llall. Roedd rhai ymatebwyr o blaid technoleg ddigidol gan eu bod yn gweld bod y gallu i uwchlwytho tystiolaeth a chofnodi cyfarfodydd ar blatfform ar-lein yn ddefnydd mwy effeithlon o amser gan oruchwylwyr a myfyrwyr. Roedd ychydig o ymatebwyr yn cytuno y gallai e-bortffolios gael eu defnyddio fel llif adborth dwy ffordd rhwng goruchwylwyr a myfyrwyr ac adlewyrchu taith ddatblygu myfyrwyr.

Sicrhau ansawdd goruchwyliaeth dysgu wrth ymarfer

- 6.11. Roedd llawer o ymatebwyr yn ansicr ynghylch sut y dylid cynnal cyfarfodydd cynnydd rheolaidd yn ymarferol. Roedden nhw'n holi am gylch gwaith a strwythur y cyfarfodydd, eu trefniadaeth a pha mor aml y dylent gael eu cynnal. Gofynnodd nhw hefyd am y berthynas rhwng ysgolion a darparwyr hyfforddiant a chwestiynu mecanweithiau sicrhau ansawdd.
- 6.12. Dywedodd sawl ymatebydd nad oedd cynyddu nifer y cyfarfodydd rhwng goruchwylwyr a myfyrwyr yn ddigonol. Egluron nhw na fyddai cyfarfodydd rheolaidd o reidrwydd yn gwella ansawdd yr adborth a roddid i fyfyrwyr. Roeddent yn pryderu y gallai rhai goruchwylwyr ystyried cyfarfodydd rheolaidd fel ymarfer 'blwch ticio'. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, yr hyn a oedd yn bwysig mynd i'r afael ag ef oedd ansawdd yr oruchwyliaeth, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cyflawni'r deilliannau dysgu. Teimlai'r ymatebwyr hyn fod angen llywodraethu a monitro goruchwyliaeth dysgu wrth ymarfer yn ddigonol.
- 6.13. Roedd safbwyntiau amrywiol o ran sut y dylai ysgolion fod yn rhan o'r cyfarfodydd cynnydd. Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig y dylai cynrychiolwyr ysgolion gymryd rhan yn rhai o'r cyfarfodydd cynnydd gan y byddai angen i ysgolion gael goruchwyliaeth dros y siwrnai ddysgu gyfan. Awgrymodd eraill y dylai ysgolion neu'r CFFC sicrhau ansawdd portffolios myfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni'r deilliannau dysgu. I rai ymatebwyr, roedd yn hanfodol bod ysgolion yn sicrhau ansawdd myfyrwyr ac yn adolygu'r adroddiadau dilyniant i'w cyflwyno ar ddiwedd pob cyfnod dysgu wrth ymarfer. Gofynnodd ychydig o ymatebwyr a fyddai'r CFFC yn cymryd rhan mewn sicrhau ansawdd yr oruchwyliaeth dysgu wrth ymarfer, a sut y byddai'n gwneud hynny. Roedd ymatebwyr yn cytuno bod angen mwy o fecanwaith rheoli ansawdd a sicrwydd ar gyfer goruchwyliaeth dysgu wrth ymarfer. Roedd ymatebwyr eraill yn poeni na fyddai gan ysgolion yr adnoddau i roi hynny ar waith. Iddyn nhw, byddai'n anodd i ysgolion sicrhau ansawdd cyfarfodydd cynnydd o fewn y cyllidebau sydd ar gael ar hyn o bryd. Gofynnodd llawer o ymatebwyr yr ymgynghoriad am eglurhad ynghylch cyfrifoldebau ysgolion a'u cyfraniad at oruchwyliaeth dysgu wrth ymarfer.

Ymhlygiadau o ran cyllid ac adnoddau

- 6.14. Er bod nifer sylweddol o ymatebwyr yn cytuno ar bwysigrwydd cael deialog anffurfiol reolaidd rhwng goruchwylwyr a myfyrwyr, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â defnyddio cyfarfodydd cynnydd mwy rheolaidd yn lle'r drefn bresennol o gael pedwar tiwtor i ardystio myfyrwyr. Roedd yr ymatebwyr hyn yn poeni am effaith y cynnig hwn ar lwyth gwaith y timau sy'n darparu cyfleoedd mewn lleoliadau. Egluron nhw fod rhai goruchwylwyr eisoes yn ei chael hi'n anodd cydbwyso eu llwyth gwaith clinigol â'u rôl oruchwyliaeth ac y gallai gorfodi rhagor o gyfarfodydd goruchwyliaeth fod yn anodd iddynt ei gyflawni. Roedd sawl ymatebydd hefyd yn poeni am waith papur ychwanegol, gan eu bod yn credu y gallai fynd â fferyllwyr ymhellach i ffwrdd o wneud eu

gwaith. Soniodd yr ymatebwyr hyn am y pwysau gwaith cynyddol a roddir ar fferyllwyr wrth eu gwaith ac roeddent yn pryderu y gallai safleoedd hyfforddi fod yn llai awyddus i dderbyn myfyrwyr pe bai gweithgareddau goruchwyllo yn mynd â fferyllwyr oddi wrth eu gwaith dydd i ddydd.

- 6.15. Mynegodd sawl ymatebydd bryderon hefyd am yr adnoddau a'r cyllid fyddai ar gael i gynnal cyfarfodydd cynnydd rheolaidd. Tynnnon nhw sylw at y ffaith nad oes gan rai darparwyr hyfforddiant ddigon o adnoddau i ymdopi â'r amser fyddai'n ofynnol i gynnal cyfarfodydd cynnydd rheolaidd. Egluron nhw fod y gweithlu eisoes dan bwysau ac y gallent ei chael hi'n anodd cefnogi ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd â'r deilliannau dysgu. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai trefnu cyfarfodydd cynnydd mwy rheolaidd yn ymarferol dim ond pe ceid adnoddau ychwanegol. Gofynnnon nhw am gael eu cefnogi gan fodolau cyllido priodol. Yn eu barn nhw byddai angen i strwythur cymorth priodol gydnabod ymhlygiadau hyfforddi goruchwylwyr a sicrhau ansawdd lleoliadau.

Tabl 14: Barn ar ddisodli'r safonau perfformiad cyn-gofrestru presennol gan y deilliannau dysgu

C14. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynnig i ddileu'r safonau perfformiad cyn-gofrestru presennol a rhoi deilliannau dysgu Rhan 1 y safonau diwygiedig yn eu lle?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	204 (39%)	46 (45%)	250 (40%)
Tueddu i gytuno	183 (35%)	33 (32%)	216 (35%)
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	64 (12%)	9 (9%)	73 (12%)
Tueddu i anghytuno	17 (3%)	6 (6%)	23 (4%)
Anghytuno'n gryf	16 (3%)	3 (3%)	19 (3%)
Ddim yn gwybod	35 (7%)	5 (5%)	40 (6%)
Cyfanswm N ymatebwyr	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

- 6.16. Fel y gwelir yn Nhabl 14, roedd 74% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'n cynnig i ddisodli'r safonau perfformiad cyn-gofrestru presennol gyda'r deilliannau dysgu a nodir yn Rhan 1 y safonau. Roedd cyfran ychydig uwch o sefydliadau (77%) yn cytuno â'r cynnig hwn, o'i gymharu ag ymatebwyr unigol (72%).

- 6.17. Rhoddodd ychydig dan hanner yr ymatebwyr adborth penagored ynghylch y cynnig hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i ddisodli'r safonau perfformiad gan y deilliannau dysgu, er bod rhai ymatebwyr wedi gofyn am arweiniad ar sut i roi'r newid hwn ar waith.

Deilliannau dysgu'n disodli'r safonau perfformiad

- 6.18. Roedd cytundeb eang bod angen diweddarau'r safonau perfformiad presennol a ddefnyddir i asesu dilyniant hyfforddeion cyn-gofrestru, er mwyn bod yn berthnasol i arferion sydd ar waith

erbyn hyn. Soniodd ymatebwyr hefyd fod y safonau perfformiad presennol yn ailadroddus ac weithiau'n cael eu hystyried yn ymarfer blwch ticio.

- 6.19. Roedd sawl ymatebydd yn cytuno y dylid mesur dilyniant myfyrwyr mewn gradd integredig yn ôl un set gydlynol o ddeiliannau dysgu'n cwmpasu dysgu damcaniaethol ac ymarferol. O safbwynt addysgiadol, roedd ymatebwyr hefyd o'r farn bod cael un set o ddeiliannau dysgu integredig yn gwneud synnwyr gan ei bod yn gliriach i'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr.

Canllawiau i gefnogi defnyddio deiliannau mewn dysgu wrth ymarfer

- 6.20. Roedd llawer o ymatebwyr yn cwestiynu sut y dylid gweithredu'r deiliannau dysgu. Roeddent yn ansicr ynghylch sut y dylid dangos ac asesu cymwyseddau penodol gan eu bod yn teimlo bod y deiliannau dysgu yn rhy agored i'w dehongli. Teimlai ymatebwyr hefyd fod disodli'r safonau perfformiad gan y deiliannau dysgu yn newid sylweddol a bod angen lefel uchel o drylwyrredd, cefnogaeth ac arweiniad i'w gweithredu'n llwyddiannus. Yn wir, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai disodli'r safonau perfformiad gan y deiliannau dysgu heb ddarparu arweiniad greu amrywiadau ac anghysondebau. Teimlai llawer o ymatebwyr y dylid datblygu fframwaith tystiolaeth i roi arweiniad ynghylch sut i weithredu'r safonau a'r deiliannau dysgu gan y byddai enghreifftiau penodol o fudd wrth roi dysgu wrth ymarfer ar waith.
- 6.21. Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr am arweiniad ynghylch pryd y dylid dangos ac asesu deiliannau dysgu penodol.

Cadw'r safonau perfformiad

- 6.22. Roedd nifer llai o ymatebwyr o'r farn bod y safonau perfformiad presennol yn werthfawr i fyfyrwyr a'r rhai sy'n cefnogi neu'n asesu dysgu wrth ymarfer. Soniodd rhai ohonynt hefyd fod y safonau perfformiad yn rhoi eglurder i fyfyrwyr ynghylch yr hyn a ddisgwylid ganddynt. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y dylid cadw'r safonau perfformiad a'u diweddarau yn lle eu disodli. Roedd yn well gan ychydig o ymatebwyr y safonau perfformiad hefyd gan eu bod yn ystyried y deiliannau dysgu yn rhy amwys.
- 6.23. Roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu na fyddai un set o ddeiliannau dysgu i'w cyflawni dros bum mlynedd o addysg a hyfforddiant cychwynnol yn ddigon penodol ar gyfer yr ystod eang o fodolau addysg a hyfforddiant cychwynnol sydd ar waith.

7. Effaith y newidiadau a gynigir ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol

Tabl 15: Barn ynghylch ein cynigion yn dod â budd i unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o nodweddion gwarchoddedig Deddf Cydraddoldeb 2010

C15. Ydych chi o'r farn y gallai ein cynigion effeithio'n gadarnhaol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir isod? ²	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Oed	46 (9%)	4 (4%)	50 (8%)
Anabledd	37 (7%)	6 (6%)	43 (7%)
Ailbennu rhywedd	30 (6%)	6 (6%)	36 (6%)
Priodas a Phartneriaeth Sifil	23 (4%)	2 (2%)	25 (4%)
Beichiogrwydd a mamolaeth	27 (5%)	6 (6%)	33 (5%)
Hil	33 (6%)	6 (6%)	39 (6%)
Crefydd neu gredo	25 (5%)	5 (5%)	30 (5%)
Rhyw	24 (5%)	4 (4%)	28 (5%)
Cyfeiriadedd rhywiol	27 (5%)	5 (5%)	32 (5%)
Dim un o'r uchod	445 (86%)	90 (88%)	535 (86%)

7.1. Fel y mae Tabl 15 yn ei ddangos, roedd 86% o ymatebwyr yr arolwg o'r farn na fyddai ein cynigion o fudd i unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. O'r rhai a oedd o'r farn y byddai ein cynigion o fudd i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol, y nodweddion a nodwyd amlaf oedd oedran (8%), anabledd (7%), hil (6%) ac ailbennu rhywedd (6%).

² Gofynnwyd i ymatebwyr dicio pob un perthnasol.

Tabl 16: Barn ynghylch ein cynigion yn camwahaniaethu neu'n anfanteisio'n anfwriadol unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig Deddf Cydraddoldeb 2010

Q16. Ydych chi o'r farn y gallai ein cynigion effeithio'n andwyol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir isod ³ ?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Oed	51 (10%)	23 (23%)	74 (12%)
Anabledd	63 (12%)	24 (24%)	87 (14%)
Ailbennu rhywedd	14 (3%)	5 (5%)	19 (3%)
Priodas a Phartneriaeth Sifil	18 (3%)	15 (15%)	33 (5%)
Beichiogrwydd a mamolaeth	47 (9%)	24 (24%)	71 (11%)
Hil	39 (8%)	25 (25%)	64 (10%)
Crefydd neu greddo	21 (4%)	12 (12%)	33 (5%)
Rhyw	22 (4%)	6 (6%)	28 (5%)
Cyfeiriadedd rhywiol	13 (3%)	6 (6%)	19 (3%)
Dim un o'r uchod	405 (78%)	63 (62%)	468 (75%)

7.3. Fel y mae Tabl 16 yn ei ddangos, roedd 75% o ymatebwyr yr arolwg o'r farn na fyddai ein cynigion yn gwahaniaethu yn erbyn neu'n rhoi anfantis yn anfwriadol i unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dewisodd y rhai a oedd o'r farn y byddai ein cynigion yn cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol anabledd (14%), oed (12%), beichiogrwydd a mamolaeth (11%) a hil (10%) yn amlach na'r nodweddion gwarchoddedig eraill.

7.4. Rhoddodd ychydig dros hanner ymatebwyr yr ymgynghoriad adborth penagored ynghylch a fyddai ein newidiadau arfaethedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r safbwyntiau a gyflwynir isod yn hefyd yn cynrychioli cyfranogwyr y digwyddiadau ymgysylltu.

Oed

7.5. Roedd llawer o'r ymatebwyr a roddodd adborth yn poeni am effaith ein cynigion ar fyfyrwyr aeddfed.

³ Gofynnwyd i ymatebwyr dicio pob un perthnasol.

- 7.6. O ran dethol a derbyn, roedd ymatebwyr yn poeni y gallai gofynion academaidd haearnaidd effeithio'n andwyol ar fyfyrwyr aeddfed nad oeddent wedi cyflawni'r graddau gofynnol ar Safon Uwch neu a oedd â chymwysterau annodweddiadol. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, gallai cynyddu gofynion academaidd derbyn ar gyfer cyrsiau MFfer leihau nifer y myfyrwyr aeddfed fyddai'n dewis astudio ar gyfer MFfer. Dywedodd ymatebwyr eraill, fodd bynnag, y byddai asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr yn ystyried y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau y mae myfyrwyr aeddfed wedi'u hennill ac y gallai fod o fudd iddynt.
- 7.7. O ran ein cynnig i integreiddio dysgu academaidd ac ymarferol, roedd rhai ymatebwyr yn poeni na fyddai myfyrwyr aeddfed bellach yn ystyried astudio ar gyfer gradd MFfer pe bai'n rhaid iddynt hunan-ariannu pumed flwyddyn o addysg a hyfforddiant. Egluron nhw fod gan fyfyrwyr aeddfed rwymedigaethau ariannol eraill yn aml fel talu morgesei neu gynnal teulu. Soniodd rhai ymatebwyr hefyd fod myfyrwyr aeddfed yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu ac felly efallai y byddent yn llai abl i ymgymryd â chyfnodau dysgu wrth ymarfer yn lle dysgu yn y brifysgol. Yn hynny o beth, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai newidiadau i'r drefn yn effeithio mwy ar fyfyrwyr aeddfed ac y byddent yn llai abl i adleoli ar gyfer eu dysgu wrth ymarfer.
- 7.8. Teimlai nifer fawr o ymatebwyr y gallai ein cynigion effeithio'n negyddol ar bobl ifanc. Prif ffocws eu pryderon oedd asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr yn ystod gweithdrefnau derbyn. Teimlai'r ymatebwyr hyn y gallai ymgeiswyr ifanc ei chael hi'n anodd arddangos agweddau proffesiynol ac y byddent yn ei chael hi'n anodd dangos bod ganddynt y potensial i fod yn fferyllwyr proffesiynol pan oeddent yn 17, 18 neu 19 oed.

Anabledd

- 7.9. Teimlai nifer o ymatebwyr y gallai ein cynnig i asesu sgiliau a phriodoleddau ymgeiswyr yn ystod gweithdrefnau derbyn effeithio'n negyddol ar unigolion ag anawsterau penodol wrth gyfathrebu (er enghraifft pobl ag anhwylderau sbectrwm awtistiaeth). Roeddent yn teimlo y byddai'n anodd iddynt gyflawni cais llwyddiannus pe bai ganddynt anabledd oedd yn eu gwneud yn llai abl i gyfathrebu neu ddangos empathi ag eraill. Credai ymatebwyr eraill fod gan bobl anabl raddau is yn gyffredinol ac y byddai gosod gofynion academaidd mwy haearnaidd yn cael effaith arnynt o ran ymuno â graddau MFfer.
- 7.10. Roedd ychydig o ymatebwyr yn poeni efallai na fyddai rhai unigolion ag anableddau yn gallu cyflawni'r deilliannau dysgu oherwydd problemau iechyd difrifol (er enghraifft namau gweld difrifol) neu oherwydd eu bod yn llai abl i gyfathrebu a dangos empathi. Er enghraifft, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai pobl ag anableddau fethu'n gorfforol neu'n feddyliol i helpu neu ymateb mewn sefyllfaoedd oedd yn creu straen, neu i roi cymorth cyntaf.
- 7.11. Roedd sawl ymatebydd yn poeni am y gefnogaeth i fyfyrwyr anabl wrth ddysgu'n ymarferol. Egluron nhw fod y gefnogaeth a ddarperir gan brifysgolion fel arfer yn well na darparwyr hyfforddiant. Roeddent yn poeni y gallai'r diffyg cefnogaeth hwn gan ddarparwyr hyfforddiant, mewn gradd integredig, effeithio'n negyddol ar fyfyrwyr sydd hefyd angen addasiadau rhesymol yn ystod eu hyfforddiant. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, dylid ystyried yn gynnar sut y dylid trefnu addasiadau i fyfyrwyr yn ystod eu cyfnodau dysgu wrth ymarfer. Yn eu barn nhw, dylid gwneud mwy o gynllunio ynghylch lleoliadau er mwyn galluogi darparwyr hyfforddiant i drefnu'r addasiadau rhesymol priodol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau. Nododd ychydig o ymatebwyr hefyd y gallai fod angen lleoliadau ar bobl anabl yn agosach at gartref, gyda maes parcio neu gyda mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn.

- 7.12. Nododd sawl ymatebydd y gallai gorfod ymgymryd â sawl cyfnod dysgu byrrach mewn gwahanol sefydliadau effeithio'n negyddol ar fyfyrwyr ag anabledau corfforol gan y gallai adleoli cyson fod yn heriol iddynt. Soniodd eraill y gallai pobl anabl gael eu digalonni trwy orfod cyfleu eu hanghenion o ran addasiadau rhesymol dro ar ôl tro i wahanol ddarparwyr hyfforddiant. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y gallai myfyrwyr anabl gael effaith negyddol arnynt pe na baent bellach yn gallu ymgymryd â'u dysgu wrth ymarfer yn rhan amser. Egluron nhw fod gwahaniaethau sylweddol yng ngofynion corfforol a meddyliol addysg llawn amser a gwaith llawn amser.
- 7.13. Roedd ychydig o ymatebwyr yn holi a fyddai dysgu integredig yn cefnogi neu'n rhwystro myfyrwyr niwro-amrywiol (er enghraifft myfyrwyr â dyslecsia, neu ADHD) a myfyrwyr â phroblemau iechyd meddwl. Cynigiodd nifer fach o ymatebwyr y gallai integreiddio dysgu gefnogi myfyrwyr y mae'n well ganddynt 'ddysgu ar sail gweithredu' pe bai'n cael ei wneud yn dda. Fodd bynnag, soniodd eraill y gallai dysgu integredig fod yn heriol i'r grŵp hwn o fyfyrwyr, yn enwedig wrth rannu'r flwyddyn gyn-gofrestru bresennol yn ystod o leoliadau clinigol (fferyllfeydd cymunedol, meddygfeydd ysbyty a meddygon teulu). I'r ymatebwyr hyn, byddai hyn yn gythryblus i rai myfyrwyr ac ni fyddai'n rhoi digon o amser iddynt gael gwerthfawrogiad dyfnach o leoliad clinigol oedd o ddiddordeb iddynt a/neu'n cefnogi eu harddull ddysgu.

Priodas a phartneriaeth sifil

- 7.14. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y gallai fod angen lleoliadau yn agos i gartref ar fyfyrwyr oedd yn briod, yn feichiog neu â chyfrifoldebau gofalu. Roeddent yn pryderu y byddai trefnu sawl cyfnod dysgu byrrach mewn lleoliadau gwahanol yn ei gwneud hi'n anos i'r grwpiau hyn. Er enghraifft, egluron nhw fod pobl â phlant yn debygol o'i chael yn anos, os nad yn amhosibl, adleoli yn ystod eu dysgu wrth ymarfer. Soniodd ymatebwyr hefyd fod angen trefnu darpariaethau rhan-amser ar gyfer myfyrwyr oedd â phobl yn dibynnu arnynt.

Beichiogrwydd ac absenoldeb rhiant

- 7.15. Roedd gan ymatebwyr farn amrywiol ar effaith ein cynigion ar feichiogrwydd a chyfnodau mamolaeth neu dadolaeth. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai myfyrwyr oedd yn feichiog neu ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth fod dan anfantais oherwydd y gallai fod yn anos iddynt gael cyfnod o absenoldeb mewn rhaglen integredig, neu oherwydd y byddent yn llai abl i adleoli ar gyfer lleoliadau. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y dylai systemau rheoli cwrs 5 mlynedd gofio y bydd angen i rai myfyrwyr gael cyfnod mamolaeth neu dadolaeth. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y byddai cael cyfle i gwblhau dysgu wrth ymarfer dros gyfnod o bum mlynedd o fudd i unrhyw un fyddai angen absenoldeb rhiant, gan na fyddent dan yr un pwysau i ohirio'r flwyddyn gyn-gofrestru. Cynigiodd yr ymatebwyr hyn y dylai myfyrwyr allu 'bancio' eu cymwyseddau nes iddynt ddychwelyd o absenoldeb rhiant.

Hil

- 7.16. Roedd llawer o ymatebwyr yn poeni y gallai grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ac ymgeiswyr nad ydynt yn Brydeinig fod dan anfantais yn ystod gweithdrefnau derbyn. Egluron nhw y gallai gwahaniaethau diwylliannol effeithio'n negyddol ar yr ymgeiswyr pe na bai gogwydd yn cael ei fonitro a'i reoli yn ystod y broses ddethol. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, gallai dulliau recriwtio rhyngweithiol arwain at gyflwyno goddrychedd a rhagfarnau a allai effeithio'n negyddol ar grwpiau penodol pe na baent yn cael eu rheoli'n ofalus. Dywedodd sawl ymatebydd

y dylai pob aelod staff fyddai'n ymwneud â gweithdrefnau derbyn ymgymryd â hyfforddiant diwylliannol trwyadl er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw gamwahaniaethu anfwriadol yn digwydd.

- 7.17. Soniodd sawl ymatebydd hefyd fod cysylltiad cryf rhwng hil â statws economaidd-gymdeithasol ac addysg. Egluron nhw fod nifer anghymesur o bobl BAME yn byw mewn tlodi yn y DU. I'r ymatebwyr hyn, byddai cynyddu cost addysg a hyfforddiant fferyllol yn atal ymgeiswyr BAME. Soniodd ymatebwyr eraill y gallai codi'r gofynion academiaidd ar gyfer derbyn ar radd MFfer effeithio'n negyddol ar ymgeiswyr BAME. Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylai fod gan bob ysgol fferylliaeth isafswm derbyn ar gyfer myfyrwyr BAME.
- 7.18. Soniodd sawl ymatebydd y gallai myfyrwyr rhyngwladol oedd am ennill gradd MFfer yn y DU, ond heb ymgymryd â'u dysgu wrth ymarfer yn y DU, fod dan anfantais oherwydd integreiddio dysgu academiaidd ac ymarferol, gan na fyddai hyn, o bosibl, yn opsiwn iddynt bellach. Dywedodd eraill nad Saesneg oedd iaith gyntaf pob ymgeisydd a myfyriwr. Roeddent yn pryderu y gallai gweithdrefnau derbyn effeithio'n negyddol ar ymgeiswyr tramor ac y gallent gael anhawster gyda'r deilliannau dysgu sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu. Fodd bynnag, roedd sawl ymatebydd o'r farn y byddai myfyrwyr tramor yn gwella eu Saesneg yn sylweddol tra ar y radd MFfer.

Crefydd neu gredo

- 7.19. Dywedodd ychydig o ymatebwyr y gallai rhai pobl grefyddol fod yn amharod i deithio. Yn eu barn nhw, pe bai myfyrwyr yn gallu dewis eu lleoliad hyfforddi, ni fyddai ein cynigion yn effeithio'n negyddol ar y grŵp hwn. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo y gallai dyrannu lleoliadau ar hap felly fod yn broblem i rai unigolion crefyddol.

Cyfeiriadedd rhywiol

- 7.20. Teimlai sawl ymatebydd fod pobl Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Rhyngryw a Chwestiynol (LHDTRhCh) yn fwy tebygol o wynebu ystod o brofiadau iechyd negyddol ac y gallant ddiodef o broblemau iechyd meddwl. Dywedon nhw y gall profiadau negyddol blaenorol mewn lleoliadau gofal iechyd atal cleifion rhag datgelu gwybodaeth berthnasol am eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhyw. Dywedon nhw y byddai'r cynnydd mewn ffocws ar ofal ag unigolion yn ganolog iddo a gwell cyfathrebu yn y safonau o fudd i bobl LHDTRhCh.

8. Effeithiau eraill

Tabl 17: Barn ynghylch ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol neu'n andwyol ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill

C17. Ydych chi o'r farn y bydd y newidiadau a gynigir yn effeithio – yn gadarnhaol neu'n andwyol – ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Ydw	313 (60%)	84 (82%)	397 (64%)
Nac ydw	79 (15%)	5 (5%)	84 (14%)
Ddim yn gwybod	127 (24%)	13 (13%)	140 (23%)
Cyfanswm N ymatebion	519 (100%)	102 (100%)	621 (100%)

8.1. Fel y mae Tabl 17 yn ei ddangos, roedd 64% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai ein newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion neu grwpiau eraill. Roedd cyfran fwy o unigolion yn nodi nad oedden nhw'n gwybod a fyddai'r newidiadau yn effeithio ar eraill (24%) o'i gymharu â sefydliadau (13%). Nododd ymatebwyr y digwyddiadau farn debyg.

Effeithiau cadarnhaol

Ar fyfyrwyr a fferyllwyr y dyfodol

- 8.2. Teimlai llawer o ymatebwyr y byddai ein newidiadau arfaethedig yn fuddiol o ran datblygu myfyrwyr. Yn eu barn nhw, byddai dethol myfyrwyr yn fwy effeithiol yn sicrhau mai'r myfyrwyr â'r cymhelliant mwyaf ac oedd fwyaf addas fyddai'n cael eu derbyn ar raddau MFfer. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai myfyrwyr yn gallu deall y proffesiwn a phenderfynu'n gynharach a oeddent am fod yn fferyllwyr. Roedd eraill o'r farn y byddai dysgu wrth ymarfer yn decach ac yn fwy cyson.
- 8.3. Teimlai nifer fawr o ymatebwyr y byddai ein cynigion yn gwella ansawdd ymarfer fferyllwyr y dyfodol oherwydd y byddai ganddynt fwy o wybodaeth am gleifion, a'u hyder a'u sgiliau cyfathrebu'n well, ac y byddai fferyllwyr yn fwy proffesiynol, yn glinigol gymwys ac yn barod i arwain, gwneud penderfyniadau a mentro.
- 8.4. Teimlai ychydig o ymatebwyr y gallai'r deilliannau dysgu newydd beri i broffesiynau eraill newid eu canfyddiad o sgiliau fferyllwyr. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai proffesiynau eraill yn elwa am fod fferyllwyr yn deall eu rolau'n well yn sgil dysgu rhyngbroffesiynol.

Ar gleifion

- 8.5. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai ein newidiadau arfaethedig yn fuddiol i gleifion gan y byddent yn derbyn gofal o safon uwch.

Ar ysgolion fferylliaeth a darparwyr hyfforddiant

- 8.6. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai staff academiaidd yn cael dealltwriaeth fwy cadarn o ymarfer fferyllol gan y byddent yn gweithio'n agosach gyda fferyllwyr wrth eu gwaith.

8.7. Soniodd rhai ymatebwyr y byddai ein newidiadau arfaethedig hefyd yn golygu y byddai goruchwylwyr yn elwa o well mecanweithiau hyfforddi a chymorth. Byddent, felly, yn gallu datblygu ymhellach yn eu rolau.

Effeithiau negyddol

Ar fyfyrwyr

8.8. Soniodd llawer o ymatebwyr am effaith ariannol ein cynigion ar fyfyrwyr ac roeddent yn pryderu y gallai cyflwyno gradd integredig gael effaith negyddol ar fyfyrwyr, ac yn enwedig rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig, myfyrwyr aeddfed a myfyrwyr rhyngwladol. Eu prif bryderon oedd y byddai myfyrwyr o bosibl yn gorfod talu am bumed flwyddyn o addysg a hyfforddiant ac efallai na fyddent yn derbyn cyflog yn ystod eu dysgu wrth yn ymarfer. Roedd ymatebwyr hefyd yn rhagweld y byddai sawl cyfnod byrrach o ddysgu mewn lleoliadau ymarfer yn arwain at gynnydd mewn costau llety a theithio i fyfyrwyr. Roedd ymatebwyr yn poeni y byddai ymadawyr ysgol yn penderfynu yn erbyn astudio gradd MFfer oherwydd y byddai'n rhy ddud iddynt.

8.9. Roedd nifer o ymatebwyr yn poeni na fyddai myfyrwyr yn gallu penderfynu ble i ymgymryd â'u lleoliadau oherwydd y cynnydd yn nifer y lleoliadau ac anawsterau wrth eu trefnu, ac efallai y byddent yn teimlo'n llai abl i roi cyfeiriad i'w gyrfaoedd. Roedd eraill yn poeni y byddai peidio â chael un flwyddyn barhaus o hyfforddiant yn rhwystro myfyrwyr rhag magu annibyniaeth wrth eu gwaith. Esboniodd darparwyr hyfforddiant fod myfyrwyr, o'u profiad nhw, yn dod yn fwy annibynnol erbyn diwedd eu cyfnod hyfforddiant.

Ar ysgolion fferylliaeth

8.10. Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddai integreiddio yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ymgymryd â threfniadau pontio sylweddol a fyddai'n ddwys o ran amser ac adnoddau iddynt. Roeddent yn poeni am yr effaith fyddai ar ysgolion o ran adnoddau ac arian. Soniodd ymatebwyr am gostau uwch fyddai ynghlwm wrth newid a chynnal gweithdrefnau derbyn; wrth sicrhau a threfnu ansawdd dysgu a lleoliadau ymarfer; wrth benodi a hyfforddi staff; ac wrth reoli rhaglenni yn weinyddol. Teimlai ymatebwyr y byddai'n anodd cyflawni'r tasgau hyn heb gyllid.

8.11. Roedd sawl ymatebydd yn poeni y byddai meini prawf derbyn diwygiedig hefyd yn cael effaith ariannol ar ysgolion. Egluron nhw y byddai peidio â chaniatáu cynigion diamod yn dileu incwm y gellid ei ragweld ac y byddai gofynion derbyn llymach hefyd yn arwain at gollu incwm. Roeddent yn pryderu y byddai'n rhaid i ysgolion gau oherwydd na fyddai graddau MFfer bellach yn hyfyw.

8.12. Roedd ymatebwyr eraill yn holi a ddylai lleoedd prifysgol gyfateb â lleoliadau dysgu wrth ymarfer, ac a fyddai terfyn yn cael ei roi ar niferoedd myfyrwyr.

Ar ddarparwyr hyfforddiant

8.13. Roedd darparwyr hyfforddiant yn poeni y byddai'n anodd trefnu cyfarfodydd cynnydd rheolaidd oherwydd cyfyngiadau amser yn y gweithle. Roeddent yn poeni am effaith y cynnig hwn ar lif gwaith fferyllfeydd.

- 8.14. Roedd ymatebwyr yn ansicr ynghylch sut i drefnu dysgu mewn lleoliadau ymarfer, am y byddai'n cychwyn ar wahanol adegau, yn para am wahanol gyfnodau, ac ar gyfer myfyrwyr a oedd ar wahanol gamau yn eu haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol.
- 8.15. Roedd ychydig o ymatebwyr yn poeni y byddai myfyrwyr angen mwy o gymorth gan oruchwylwyr/timau wrth hyfforddi, gan y byddent yn ymgymryd â'u dysgu wrth ymarfer yn gynharach yn ystod eu haddysg a hyfforddiant cychwynnol, ac felly'n meddu ar lai o wybodaeth.
- 8.16. Awgrymodd darparwyr hyfforddiant y byddai gweithio gyda gwahanol ysgolion fferylliaeth yn golygu gorfod ystyried gwahanol ddulliau a gofynion, ac y byddai hyn yn ddwys o ran adnoddau iddynt. Roedd darparwyr hyfforddiant hefyd yn rhagweld y byddai angen hyfforddi'r holl staff oedd yn ymwneud â goruchwylwio myfyrwyr at safon uwch (i sicrhau bod gan oruchwylwyr y sgiliau i addysgu ac asesu sgiliau clinigol mwy datblygedig, er enghraifft) ac y byddai ailwampio deunydd hyfforddi/cyrsiau yn ddud. Roeddent hefyd o'r farn y byddai gweithredu a chynnal ein newidiadau arfaethedig yn arwain at gostau gweinyddol uwch. Roedd yr ymatebwyr yn poeni y gallai rhai darparwyr hyfforddiant presennol roi'r gorau i hyfforddi oherwydd y costau hyn . Credai eraill y dylid rhoi trefniadau cyllido newydd ar waith i gefnogi darparwyr hyfforddiant.
- 8.17. Roedd rhai darparwyr hyfforddiant yn poeni mai dim ond i ddarparwyr hyfforddiant oedd eisoes â threfniant hyfforddi gydag ysgolion y byddai'r ysgolion hynny'n anfon myfyrwyr.
- 8.18. Hyd yn oed os oeddent yn cydnabod nad oedd yn arfer gorau, esboniodd nifer o ymatebwyr fod rhai darparwyr hyfforddiant ar hyn o bryd yn dibynnu ar hyfforddeion cyn-gofrestru wrth iddynt gynllunio eu gweithlu bob blwyddyn. Esboniodd ychydig o ymatebwyr fod hyfforddeion cyn-gofrestru yn cael eu cyfrif yn y gweithlu adrannol ac yn cefnogi darpariaethau gwasanaeth penwythnos. Soniwyd hefyd fod aelod o staff wedi ei ariannu gan rywun arall yn anheggor mewn rhai manau yn sgil toriadau i gyllidebau fferylliaeth. I'r ymatebwyr hyn, byddai rhannu'r flwyddyn gyn-gofrestru yn nifer o leoliadau byrrach ar wahanol gamau o addysg a hyfforddiant cychwynnol yn tarfu ar weithleoedd.
- 8.19. Esboniodd darparwyr hyfforddiant hefyd fod hyd presennol y lleoliadau cyn-gofrestru yn galluogi cyflogwyr i hyfforddi myfyrwyr ar gyfer eu prosesau nhw. Esboniodd sawl darparwr, yn bennaf o'r sectorau cymunedol ac ysbytai, eu bod ar hyn o bryd yn cyflogi hyfforddeion cyn-gofrestru ar ôl iddynt gofrestru, yn rhan o'u strategaethau recriwtio. Roeddent yn poeni y gallai'r llwybr recriwtio hwn gael ei beryglu trwy gyfnodau byrrach o ddysgu wrth ymarfer ac y byddai'n rhaid i gyflogwyr wario mwy o arian ar recriwtio a hyfforddi fferyllwyr iau.
- 8.20. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai cyflwyno cyfnodau byrrach o ddysgu wrth ymarfer yn golygu y byddai myfyrwyr yn chwilio am leoliadau yn agos at eu cartref ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ddarparwyr hyfforddiant mewn ardaloedd llai poblog ac ardaloedd gwledig.

Camau nesaf

- 1.1. Bydd yr adroddiad dadansoddi ymgynghoriad hwn yn cael ei gyflwyno, ochr yn ochr ag asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, i Gyngor y CFFC ym mis Medi 2019.
- 1.2. Ein nod fydd cwblhau safonau newydd yn dilyn cylch arall o ymgysylltu a thrafod gyda rhanddeiliaid. Bydd angen i'r trafodaethau hyn ystyried materion sy'n ymwneud â gweithredu ac ariannu, a'r hyn y bydd ei angen gan weithlu fferyllol y dyfodol i ddiwallu anghenion pob gwlad. Rydym yn bwriadu cychwyn y trafodaethau pellach hyn gyda rhanddeiliaid yn Hydref 2019 hyd yn oed os bydd trafodaethau'n digwydd dros gyfnod.
- 1.3. Credwn y gellir gwneud cynnydd yn gyflymach o ran y safonau sy'n ymwneud â dethol a derbyn a chydaddoldeb, amrywiaeth a thegwch gan nad yw'r rhain yn dibynnu ar benderfyniadau ynghylch integreiddio'r pum mlynedd o addysg a hyfforddiant. Felly byddwn yn adolygu ac yn ymgysylltu ynghylch safonau diwygiedig ar gyfer y ddau barth hyn yn yr Hydref ac yn eu cyflwyno i Gyngor y CFFC mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Atodiad 1: Yr ymgynghoriad

1. Cefndir polisi

- 1.1. Un o'n gweithgareddau rheoleiddio craidd yw gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithwyr proffesiynol fferyllol, gan gynnwys fferyllwyr, technegwyr fferyllol a phresgripsiynwyr fferyllol. Ar hyn o bryd, rydym yng nghanol rhaglen adolygu sylweddol sy'n ymdrin â'n holl safonau addysg, fel y nodwyd yn ein **Cynllun Strategol 2017-2020**. Hyd yn hyn, cytunwyd ar safonau diwygiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol a safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant presgripsiynwyr fferyllol annibynnol.
- 1.2. Y ffurf fwyaf cyffredin ar addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer fferyllwyr ym Mhrydain yw gradd MFfer pedair blynedd sydd wedi'i hachredu gennym ni, ac yna 52 wythnos o hyfforddiant cyn-gofrestru mewn un neu ragor o sectorau ymarfer. Yn ystod y cyfnod cyn-gofrestru, mae hyfforddeion yn defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac yn dangos eu cymhwysedd mewn lleoliad ymarfer sy'n cyflogi staff. Ar ôl cwblhau hyn yn llwyddiannus, mae'n ofynnol iddynt basio arholiad cofrestru cyn gallu gwneud cais i ymuno â'r gofrestr fferyllwyr. Mae'r gofynion hyn yn adlewyrchu aelodaeth gyfredol y DU o'r Undeb Ewropeaidd, a Chyfarwyddeb 2005/36/EC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fferyllwyr ymgymryd ag o leiaf bum mlynedd o addysg a hyfforddiant cychwynnol amser llawn (neu ran amser cyfwerth). Rhaid i hyn gynnwys astudio academiaidd am o leiaf bedair blynedd ac o leiaf chwe mis o hyfforddiant yn uniongyrchol gyda chleifion mewn fferyllfa gymunedol neu ysbyty tua diwedd y pum mlynedd. Mae ysgolion fferylliaeth (ysgolion) yn gyfrifol am ddylunio a chyflwyno'r radd MFfer, ac mae'n rhaid iddynt gyrraedd y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr (y safonau), er mwyn cael eu hachredu gennym ni.
- 1.3. Cyhoeddwyd y **safonau presennol** yn 2011. Maent yn nodi ein gofynion ar gyfer darparwyr cyrsiau (safonau 1 i 9) a'r sgiliau, cymwyseddau ac ymddygiadau y mae'n rhaid i fyfyrwyr a hyfforddeion fod wedi'u hennill cyn cofrestru gyda'r CFfC (safon 10 - deilliannau dysgu). Cynhyrchwyd **deilliannau dysgu diwygiedig** yn 2013 (gan gynnwys mewnbyn gan randdeiliaid allweddol) ond nid oedd hyn yn rhan o adolygiad llawn ar safonau ac ni weithredwyd y deilliannau dysgu hyn, gan na pharhawyd â'r newidiadau disgwylidig ym mholisi'r llywodraeth. Cyhoeddwyd gofynion cyn-gofrestru mewn dogfen ar wahân, mewn llyfryn a elwir yn llawlyfr cyn-gofrestru. Mae'r llawlyfr yn cwmpasu'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau y mae angen i hyfforddeion cyn-gofrestru eu caffael erbyn diwedd y lleoliad 52 wythnos. Mae'r safonau perfformiad yn rhagflaenu safonau 2011 ac nid ydynt wedi'u hadolygu ers cyflwyno'r safonau presennol.
- 1.4. Mae newidiadau wedi eu cyflwyno'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o ddefnydd o dechnoleg, a chynnydd yn yr ystod o wasanaethau a gynigir i bobl. Mae disgwyl cynyddol hefyd y gall fferyllwyr helpu i leddfu peth o'r pwysau sydd ar y GIG ehangach. Mae rôl y fferyllwyr fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheng flaen wedi parhau i ddatblygu. Mae'n mynd â nhw yn fwy ac yn amlach i feddygfeydd teulu, cartrefi gofal a chartrefi pobl, yn ogystal ag i'r lleoliadau mwy cyfarwydd, fel fferyllfeydd cymunedol, ysbytai, diwydiant a'r byd academiaidd.

- 1.5. Mae angen arfogi fferyllwyr i gyflawni rôl ganolog wrth ddarparu gwasanaethau clinigol i bobl yn yr amgylcheddau gwaith amrywiol hyn. Mae angen iddynt hefyd weithredu mewn timau aml-broffesiynol mewn amryw o leoliadau iechyd a gofal, gan gyfrannu at wella iechyd a lles pobl.
- 1.6. Er mwyn adolygu'r safonau, comisiynwyd ymchwil gennym i barodrwydd fferyllwyr i ymarfer. Fe gwrddon ni â phob ysgol fferylliaeth, trefnwyd bod sawl grŵp arbenigol yn dod at ei gilydd, gofynnem i aelodau panel ac arolygwyr achredu am eu barn, ac ymgysylltwyd â chyrrff comisiynu hyfforddiant y tair gwlad. Wedyn, drafftwyd safonau diwygiedig gennym, cyn ymgynghori arnynt.
- 1.7. Rhwng Ionawr ac Ebrill 2019, ymgynghorom ar ein cynigion ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynol fferyllwyr.

2. Crynodeb o'n hamcanion

- 2.1. Er mwyn sicrhau bod fferyllwyr y dyfodol yn cael eu paratoi'n addas at eu rolau yn y dyfodol, cynigiom newidiadau allweddol yn y meysydd canlynol:
 - **Deilliannau dysgu:** yn canolbwyntio ar bedair thema - gofal â'r unigolyn yn ganolog iddo; proffesiynoldeb; gwybodaeth a sgiliau proffesiynol; a chydweithio. Mae'r deilliannau dysgu arfaethedig yn cadw pwysigrwydd hanfodol gwyddoniaeth fel nodwedd sylfaenol addysg a hyfforddiant cychwynol i fferyllwyr, ond maent yn canolbwyntio mwy ar gymhwysu'r wybodaeth wyddonol honno yn ymarferol. Mae'r deilliannau dysgu'n canolbwyntio mwy ar sgiliau clinigol, dysgu aml-broffesiynol, a phwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol â chleifion ac aelodau'r cyhoedd. Rydym o'r farn bod y cynnydd hwn mewn ffocws ar sgiliau clinigol a chyfathrebu a dysgu aml-broffesiynol yn hanfodol i sicrhau'r hyblygrwydd y bydd ei angen ar fferyllwyr yn y dyfodol. Credwn hefyd y bydd yn datblygu hyder fferyllwyr i gyflawni rôl flaenllaw mewn gofal sydd â'r unigolyn yn ganolog iddo - rhywbeth sydd wedi'i godi'n gyson gyda ni wrth i ni ddatblygu'r safonau newydd hyn.
 - **Safonau ar gyfer darparwyr:** cynigiom sawl newid i'n safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau. O ran cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch, rydym yn awgrymu cryfhau ein safonau trwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnal adolygiad blynyddol o berfformiad a derbyniadau myfyrwyr yn ôl y nodweddion gwarchoddedig fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth o'r camau a weithredwyd i ymchwilio i'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau ac i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd lle mae myfyrwyr dan anfantais.
 - **Integreiddio'r pum mlynedd o addysg a hyfforddiant:** er mwyn cyflawni'r deilliannau dysgu â ffocws cynyddol ar sgiliau clinigol, ar gyfathrebu â chleifion ac ar weithio'n effeithiol gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill, credwn fod yn rhaid cael cysylltiad llawer cryfach rhwng elfennau astudio academiaidd y radd MFfer a'r profiad ymarferol yn y flwyddyn cyn-gofrestru, sydd ar wahân ar hyn o bryd. O ganlyniad, cynigiom osod y deilliannau dysgu i'w cyflawni dros bum mlynedd. Byddai hynny'n ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion, cyflogwyr, sefydliadau addysg iechyd a hyfforddiant a'r rhai sy'n gyfrifol am gyllid weithio ar y cyd i gyflawni hyn. Ni wnaethom gynnig modelau penodol yn nodi sut y gellid cyflawni hyn. Credwn ei bod yn debygol y bydd gwahanol ddulliau a modelau o fewn ac ymhlith gwledydd Prydain. Byddwn yn sicrhau bod ein methodoleg achredu yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth ac arloesedd wrth gyflawni.

- **Dethol a derbyn:** cynigiom gryfhau'r safonau drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr asesu gwerthoedd darpar fyfyrwyr yn ogystal â'u cymwysterau academaidd. Yr hyn a olygwn wrth hynny yw eu diddordeb mewn gofal sydd â'r unigolyn yn ganolog iddo, eu gallu i weithio gyda phobl eraill, eu proffesiynoldeb, eu gallu i ddatrys problemau, a'u sgiliau rhifedd. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, byddem yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnwys gweithgareddau rhyngweithiol yn eu prosesau derbyn, er enghraifft nifer o gyfweiliadau bach a gwaith grŵp. Yn ogystal ag asesu sgiliau a phriodoleddau proffesiynol, bydd hyn hefyd yn caniatáu i ddarparwyr asesu sgiliau cyfathrebu cyffredinol darpar fyfyrwyr.
- **Dysgu drwy brofiad a dysgu rhyngddisgyblaethol:** cynigiom fod yn rhaid i fyfyrwyr fferylliaeth gael profiad o ryngweithio gydag ystod briodol o gleifion a phobl mewn ystod o amgylcheddau (go iawn ac efelychol) i'w galluogi i ddatblygu'r sgiliau a lefel y cymhwysedd sydd eu hangen i gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae ein safonau arfaethedig hefyd yn nodi bod yn rhaid i fyfyrwyr fferyllol gyfranogi mewn dysgu rhyngbroffesiynol. Byddai ymgysylltu â myfyrwyr o broffesiynau ieuchyd a gofal eraill yn dechrau yn gynnar, gan symud ymlaen i ryngweithio mwy cymhleth. Byddai hyn yn galluogi myfyrwyr fferyllol i gyflawni deilliannau dysgu'r CFFC.
- **Goruchwylio dysgu wrth ymarfer:** gan ein bod yn cynnig gosod deilliannau dysgu am bum mlynedd, mae'n dilyn na fyddai set ar wahân o safonau perfformiad cyn-gofrestru ar waith. Byddai elfennau dysgu wrth ymarfer y cwrs yn cyfrif tuag at y gofyniad cofrestru am 52 wythnos o ddysgu ymarferol. Byddem yn disgwyl dull mwy trylwyr a strwythuredig o ddysgu wrth ymarfer, gyda chyfarfodydd cynnydd mwy rheolaidd a chofnodedig.

3. Ynghylch yr ymgynghoriad

Trosolwg

- 3.1. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos, gan ddechrau ar 9 Ionawr ac yn gorffen ar 3 Ebrill 2019. Er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan gynifer o unigolion a sefydliadau â phosibl:
- lanswyd arolwg ar-lein gennym, a oedd ar gael i unigolion a sefydliadau ei gwblhau trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Derbyniom hefyd ymatebion drwy'r post a thrwy e-bost
 - trefnom gyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid a gwebinar wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol fferyllol, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, sefydliadau a phartïon eraill â diddordeb
 - cwrddom â nifer o randdeiliaid allweddol yn y tair gwlad yr ydym yn eu rheoleiddio
 - mynychom gyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid, gan gynnwys cyfarfodydd y Pwyllgor Fferyllol Lleol (LPC) ledled Lloegr
 - hyrwyddom yr ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r wasg i gyfryngau'r fasnach fferyllol, trwy ein cyfryngau cymdeithasol a thrwy ein e-fwletin Regulate
 - Cynhyrchom becyn cymorth o ddeunyddiau er mwyn i sefydliadau ledaenu gwybodaeth am yr ymgynghoriad ymhlith eu haelodau, gan gynnwys datganiad i'r wasg a chyflwyniad
 - anfonom sawl nodyn atgoffa ynghylch yr ymgynghoriad cyn y dyddiad cau.

Arolwg

- 3.2. Cafwyd cyfanswm o **650** o ymatebion ysgrifenedig i'n hymgyngoriad. Nododd **542** o'r ymatebwyr hyn eu bod yn unigolion ac ymatebodd **108** ar ran sefydliadau

- 3.3. O'r rhain, roedd **621** wedi ymateb i'r arolwg ymgynghori. Cwblhaodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr hyn fersiwn ar-lein yr arolwg, gyda gweddill yr ymatebwyr yn cyflwyno eu hymateb trwy e-bost, gan ddefnyddio strwythur yr holiadur ymgynghori
- 3.4. Ochr yn ochr â'r rhain, cawsom **29** ymateb gan unigolion a sefydliadau yn ysgrifennu'n fwy cyffredinol am eu barn

Digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid

- 3.5. Defnyddiwyd y cwestiynau yn yr arolwg ar-lein hefyd fel strwythur ar gyfer trafod yn ein digwyddiadau i randdeiliaid, gan ganiatáu inni gywain barn rhanddeiliaid, a'u cynnwys yn ein dadansoddiad ymgynghori
 - Cynhaliom **dri** digwyddiad i randdeiliaid yn Llundain, Caerdydd a Chaeredin, gan gyrraedd **86** o randdeiliaid fferyllol
 - Siaradom mewn **33** o ddigwyddiadau siarad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan gyrraedd **1,310** o randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol, addysgwyr, cyflogwyr, myfyrwyr a hyfforddeion cyn-gofrestru.
 - Cynhaliom webinar ar-lein, a wylwyd gan **900** o randdeiliaid

Grwpiau ffocws cleifion

- 3.6. Trefnom **dri** grŵp ffocws i gleifion, yn Llundain, Caerdydd a Glasgow, y daeth **58** aelod o'r cyhoedd iddynt
- 3.7. Rhoddodd y grwpiau ffocws hyn fewnwelediadau gwerthfawr ynghylch disgwyliadau defnyddwyr fferylliaeth.

4. Ein dull dadansoddi ac adrodd

Trosolwg

- 4.1. Mae pob ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys nodiadau o ddigwyddiadau i randdeiliaid a gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol, wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu ein dadansoddiad ansoddol o themâu a gododd yn yr ymgynghoriad. Mae ein dull thematig yn caniatáu inni gynrychioli'n deg yr ystod eang o safbwyntiau a gyflwynwyd, boed wedi eu cyflwyno gan unigolion neu sefydliadau, a boed i ni eu derbyn yn ysgrifenedig, neu ar lafar mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau.
- 4.2. Roedd y gwahanol ddulliau y gallai unigolion a sefydliadau gyfrannu at yr ymgynghoriad yn golygu bod rhywfaint o ddyblygu yn annatod. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau wedi cwrdd â ni mewn cyfarfodydd a digwyddiadau un wrth un, ac hefyd wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig. Roedd rhai sefydliadau hefyd yn gallu ysgogi aelodau unigol i ymateb i ni'n uniongyrchol.
- 4.3. Prif elfen yr ymgynghoriad hwn oedd arolwg hunan-ddethol, a gynhaliwyd ar blatfform ar-lein Smart Survey. Yn yr un modd ag unrhyw ymgynghoriad, rydym yn disgwyl bod unigolion a grwpiau sy'n ystyried bod y cynigion yn effeithio'n sylweddol arny'n nhw eu hunain, neu sydd â barn gref ar y pwnc, yn fwy tebygol o fod wedi ymateb.

- 4.4. Mae'r term 'ymatebwyr' a ddefnyddir drwy gydol y dadansoddiad yn cyfeirio at y rhai a gwblhaodd yr arolwg ymgynghori a'r rhai a fynychodd ein digwyddiadau rhanddeiliaid. Mae'n cynnwys unigolion a sefydliadau.
- 4.5. Os oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y safbwyntiau a roddwyd yn yr arolwg ymgynghori a'r rhai a godwyd mewn digwyddiadau rhanddeiliaid, amlygir y gwahaniaethau hyn yn y dadansoddiad.
- 4.6. Er tryloywder, mae Atodiad 1 yn darparu rhestr o'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, drwy e-bost a/neu drwy ddod i'n digwyddiadau i randdeiliaid. Gofynnodd nifer fach o sefydliadau i ni gadw eu cyfranogiad yn gyfrinachol ac nid ydym wedi cynnwys eu henwau.
- 4.7. Nodir cwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad 2.

Dadansoddiad meintiol

- 4.8. Roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o gwestiynau meintiol fel cwestiynau ie/na a graddfeydd graddio. Casglwyd a dadansoddwyd yr holl ymatebion gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd trwy e-bost neu bost gan ddefnyddio'r ddogfen ymgynghori. Mae'r rhai a ymatebodd mewn ffordd fwy cyffredinol drwy'r post neu e-bost yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad ansoddol yn unig.
- 4.9. Haenwyd ymatebion yn ôl y math o ymatebydd, er mwyn peidio â rhoi pwysau cyfartal i ymatebwyr unigol ac ymatebwyr ar ran sefydliadau (a allai gynrychioli cannoedd o unigolion o bosibl). Mae'r rhain wedi'u cyflwyno ochr yn ochr â'i gilydd yn y tablau trwy gydol yr adroddiad hwn, er mwyn helpu i weld a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y categorïau hyn o ymatebwyr.
- 4.10. Derbyniwyd nifer fach (Cyfanswm o 10) o ymatebion lluosog gan yr un unigolion. Adnabuwyd y rhain trwy baru cyfeiriad e-bost ac enw. Yn yr achosion hyn, cafodd ymateb diweddaraf yr ymatebydd unigol ei gynnwys yn y dadansoddiad meintiol, a dadansoddwyd yr holl ymatebion ansoddol.
- 4.11. Mae'r tablau yn yr adroddiad dadansoddi hwn yn cyflwyno nifer yr ymatebwyr a ddewisodd atebion gwahanol mewn ymateb i gwestiynau'r arolwg. Mae'r dadansoddiad yn dilyn yr un drefn ag y gosodwyd y cwestiynau yn yr arolwg.
- 4.12. Dangosir ffigurau yn yr adroddiad heb leoedd degol ac fe'u talgrynnwyd i'r rhif cyfan agosaf. O ganlyniad, nid yw pob cyfanswm yn 100%. Mae'r talgrynnu hwn hefyd yn arwain at wahaniaethau o hyd at un pwynt canran wrth gyfuno dau neu ragor o gategorïau ymateb. Nodir ffigurau is nag 1% fel <1%.
- 4.13. Roedd pob cwestiwn yn orfodol, ond dilynwyd dull cyfeirio at gwestiynau perthnasol er mwyn galluogi ymatebwyr i anwybyddu cwestiynau nad oedd yn berthnasol iddynt.
- 4.14. Mae - mewn cell yn dynodi nad oes data ar gael.

Dadansoddiad ansoddol

- 4.15. Mae'r adroddiad dadansoddi hwn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion arolwg ar-lein gan unigolion a sefydliadau, ymatebion e-bost a phost, a nodiadau o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

- 4.16. Roedd natur ansoddol yr ymatebion yma yn golygu ein bod wedi derbyn amrywiaeth o safbwyntiau a rhesymeg dros y safbwyntiau hynny. Ystyriwyd ymatebion yn ofalus trwy gydol y broses ddadansoddi.
- 4.17. Datblygwyd fframwaith codio i nodi gwahanol faterion a phynciau mewn ymatebion, i nodi patrymau yn ogystal â pha mor gyffredin roedd syniadau, ac i helpu i strwythuro ein dadansoddiad. Cafodd y fframwaith ei adeiladu o'r gwaelod i fyny trwy broses iteradd o nodi'r hyn a ddeilliodd o'r data, yn hytrach na gorfodi fframwaith a bennwyd cyn dadansoddi'r data.
- 4.18. Nodwyd pa mor aml yr oedd barn benodol yn cael ei mynegi trwy godio ymatebion ysgrifenedig yn fanwl a dadansoddi adborth o'r digwyddiadau i randdeiliaid gan ddefnyddio'r themâu o'r fframwaith codio. Nodir pa mor aml y mynegwyd barn ymatebwyr yn yr adroddiad hwn drwy gyflwyno themâu yn ôl pa mor gyffredin yr oedden nhw. Mae'r ffordd y defnyddir termau hefyd yn nodi pa mor aml y mynegwyd safbwyntiau, er enghraifft, mae'r termau 'llawer'/'nifer fawr' yn cynrychioli'r safbwyntiau â'r gefnogaeth fwyaf ymhlith ymatebwyr. Mae 'rhai'/'sawl' yn nodi safbwyntiau a rennir gan nifer llai o ymatebwyr ac mae 'ychydig'/'nifer fach' yn nodi materion a godwyd gan nifer gyfyngedig o ymatebwyr yn unig. Defnyddir termau fel 'y mwyafrif'/'mwyaf' os oedd gan fwy na hanner yr ymatebwyr yr un farn. D.S. Nid yw'r rhestr hon o dermau yn gynhwysfawr a defnyddir termau tebyg eraill yn y naratif.

Strwythur arolwg yr ymgynghoriad

- 4.19. Cafodd yr arolwg ymgynghori ei strwythuro yn y fath fodd fel bod un neu ragor o gwestiynau penagored yn dilyn pob cwestiwn caeedig ar y cynigion ymgynghori. Roedd hyn yn caniatáu i bobl egluro eu rhesymu, darparu enghreifftiau ac ychwanegu sylwadau pellach.
- 4.20. Er hwylustod, rydym wedi strwythuro adran ddadansoddi'r adroddiad hwn yn y fath fodd fel ei fod yn adlewyrchu trefn y cynigion ymgynghori. Mae hyn wedi caniatáu inni gyflwyno ein dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r cwestiynau ymgynghori ochr yn ochr, lle mae'r dadansoddiad thematig yn cadarnhau ac yn rhoi ystyr i'r canlyniadau rhifol sydd wedi'u cynnwys yn y Tablau.

Atodiad 2: Proffil ymatebwyr

Cynhwyswyd cyfres o gwestiynau cefndir yn yr arolwg a oedd yn ceisio gwybodaeth am leoliad cyffredinol yr ymatebwyr, ac ym mha rinwedd yr oeddent yn ymateb i'r arolwg. Ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferyllol, gofynnwyd cwestiynau pellach i nodi a oeddent yn fferyllwyr, yn dechnegwyr fferyllol neu'n berthnogiion fferyllfeydd, ac ym mha leoliad yr oeddent yn gweithio fel arfer. Ar gyfer ymatebwyr ar ran sefydliadau, roedd cwestiwn am y math o sefydliad yr oeddent yn gweithio iddo. Mae'r tablau isod yn cyflwyno dadansoddiad o'u hymatebion.

Categoriâu ymatebwyr

Tabl 18: Yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad

Ydych chi'n ymateb (Sail: pob ymatebydd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fel unigolyn	519	84%
Ar ran sefydliad	102	16%
Cyfanswm N ymatebwyr	621	100%

Proffil ymatebwyr unigol

Tabl 19: Gwledydd

Ble ydych chi'n byw? (Sail: pob unigolyn)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Lloegr	448	86%
Yr Alban	36	7%
Cymru	20	4%
Gogledd Iwerddon	7	1%
Arall	8	2%
Cyfanswm N ymatebion	519	100%

Tabl 20: Mathau o ymatebwyr

Ydych chi'n ymateb fel: (Sail: pob ymatebydd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
fferyllydd	409	79%
technegydd fferyllol	32	6%
hyfforddai fferyllol cyn-gofrestru	26	5%
hyfforddai technegydd fferyllol cyn-gofrestru	0	0%
myfyriwr fferylliaeth	23	4%
aelod o'r cyhoedd	8	2%
Arall	21	4%

Ydych chi'n ymateb fel: (Sail: pob ymatebydd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Cyfanswm N ymatebwyr	519	100%

Tabl 21: Presgripsiynwyr

Ydych chi wedi cymhwyso fel: (Sail: fferyllwyr)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
presgripsiynydd annibynnol	70	17%
presgripsiynydd ategol	3	<1%
presgripsiynydd annibynnol ac ategol	25	6%
dim un o'r uchod	311	76%
Cyfanswm N ymatebwyr	409	100%

Tabl 22: Perchnogion fferyllfeydd

Ydych chi'n berchen ar fferyllfeydd/yn gyflogwr? (Sail: fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Ydw	38	9%
Nac ydw	403	91%
Cyfanswm N ymatebwyr	441	100%

Tabl 23: Prif faes gwaith

Disgrifiwch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch prif faes gwaith orau. (Sail: unigolion ac eithrio myfyrwyr fferylliaeth ac aelodau'r cyhoedd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fferyllfa gymunedol	170	35%
Fferyllfa ysbyty	143	29%
Fferyllfa carchar	2	<1%
Sefydliad gofal sylfaenol	25	5%
Meddygfa Deulu	30	6%
Cartref gofal	1	<1%
Diwydiant fferyllol	12	2%
Ymchwil, addysg neu hyfforddiant	73	15%
Arall	32	7%
Cyfanswm N ymatebwyr	488	100%

Tabl 24: Maint fferyllfa gymunedol

Maint y gadwyn fferyllol (Sail: unigolion yn gweithio mewn fferyllfeydd cymunedol)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fferyllfa annibynnol (1 fferyllfa)	25	15%
Cadwyn fferyllol annibynnol (2-5 fferyllfa)	29	17%
Cadwyn fferyllol luosog fach (6-25 fferyllfa)	22	13%
Cadwyn fferyllol luosog ganolig (26-100 fferyllfa)	16	9%
Cadwyn fferyllol luosog fawr (Dros 100 o fferyllfeydd)	78	46%
Cyfanswm N ymatebwyr	170	100%

Tabl 25: Dylunio a/neu ddarparu hyfforddiant ac addysg fferyllol

Ydych chi ynghlwm wrth ddylunio a/neu ddarparu hyfforddiant ac addysg fferyllol? (Sail: unigolion ac eithrio myfyrwyr fferyllol)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Ydw	217	44%
Nac ydw	279	56%
Cyfanswm N ymatebion	496	100%

Tabl 26: Prif rôl wrth ddylunio a/neu ddarparu hyfforddiant ac addysg fferyllol

Beth yw eich prif rôl yn nyluniad a/neu ddarpariaeth hyfforddiant ac addysg fferyllol? (Sail: y rhai sydd ynghlwm wrth hyfforddiant ac addysg fferyllol)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Pennaeth Ysgol	4	2%
Arweinydd cwrs neu raglen	22	10%
Tiwtor/darlithydd prifysgol	32	15%
Athro ymarferydd	12	6%
Tiwtor/Goruchwylydd cyn-gofrestru	60	28%
Cyflogwr cyn-gofrestru	12	6%
Arall	75	35%
Cyfanswm N ymatebion	217	100%

Proffil ymatebwyr ar ran sefydliadau

Tabl 27: Sefydliad fferyllol

Ydy eich sefydliad yn: (Sail: pob sefydliad)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
sefydliad fferyllol	78	76%
sefydliad nad yw'n un fferyllol	24	24%
Cyfanswm N ymatebion	102	100%

Tabl 28: Math o sefydliad

Disgrifiwch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch sefydliad orau (Sail: pob sefydliad)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd	2	2%
Sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r sector fferylliaeth	22	22%
Fferyllfa annibynnol (1 fferyllfa)	2	2%
Cadwyn fferyllol annibynnol (2-5 fferyllfa)	3	3%
Cadwyn fferyllol luosog fach (6-25 fferyllfa)	3	3%
Cadwyn fferyllol luosog ganolig (26-100 fferyllfa)	2	2%
Cadwyn fferyllol luosog fawr (dros 100 o fferyllfeydd)	4	4%
Sefydliad neu grŵp y GIG	30	29%
Sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant	27	26%
Adran neu sefydliad y llywodraeth	1	<1%
Corff rheoleiddio	0	0%
Arall	6	6%
Cyfanswm N ymatebion	102	100%

Tabl 29: Swyddogaeth yn y maes darparu neu gomisiynu hyfforddiant ac addysg fferyllol

Ydy'r sefydliad a gynrychiolwch ynghlwm wrth ddarparu neu gomisiynu hyfforddiant ac addysg fferyllol? (Sail: pob sefydliad)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Ydy	75	74%
Nac ydy	27	26%
Cyfanswm N ymatebion	102	100%

Tabl 30: Rôl wrth ddarparu neu gomisiynu hyfforddiant neu addysg fferyllol

Beth yw prif rôl eich sefydliad yn y gwaith o ddarparu neu gomisiynu hyfforddiant neu addysg fferyllol? (Sail: sefydliadau sydd ynghlwm wrth hyfforddiant ac addysg fferyllol)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Darparu'r MFfer	23	31%
Darparu hyfforddiant cyn-gofrestru i fferyllwyr	30	40%
Comisiynu hyfforddiant ac addysg fferyllol	3	4%
Arall	19	25%
Cyfanswm N ymatebion	75	100%

Cwestiynau Monitro

Casglwyd data hefyd ar nodweddion gwarchodedig ymatebwyr, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Defnyddiwyd ffurflen monitro cydraddoldeb y CFfC i gasglu'r wybodaeth hon, gan ddefnyddio categorïau sy'n cyd-fynd â'r cyfrifiad, neu arfer dda arall (er enghraifft ar fonitro cyfeiriadedd rhywiol). Nid oedd y cwestiynau monitro wedi'u cysylltu â chwestiynau'r ymgynghoriad a gofynnwyd nhw er mwyn ein helpu i ddeall proffil yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a rhoi sicrwydd bod croestoriad eang o'r boblogaeth wedi'i gynnwys yn yr ymarfer ymgynghori. Mae asesiad ar wahân wedi ei gynnal ar effaith ar gydraddoldeb, a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad dadansoddi hwn.

Atodiad 3: Sefydliadau

Bu'r sefydliadau canlynol yn ymwneud â'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, digwyddiadau ymglymu, cyfarfodydd un-wrth-un, digwyddiadau siarad ac ymatebion e-bost:

Abertawe Bro Morgannwg Health Board/Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg

Academy of Pharmaceutical Sciences (APS)

Association of Independent Multiple Pharmacies (AIM)

Aston University

Avicenna

Betsi Cadwaladr University Health Board/Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Birmingham and Solihull and Wolverhampton Local Pharmaceutical Committees

Board of Community Health Councils in Wales/Bwrdd Cyngor Iechyd Cymunedol Cymru

Boots Pharmacists Association

Boots UK

Britannia Pharmacy

British Oncology Pharmacy Association (BOPA)

British Pharmaceutical Students' Association (BPSA)

Buckinghamshire Local Pharmaceutical Committee

Burdon Pharmacies

Buttercups Training Ltd

Cambridge University Hospitals

Camden and Islington Local Pharmaceutical Committee

Cardiff University/Prifysgol Caerdydd

Central and North West London NHS Foundation Trust (CNWL)

College of Mental Health Pharmacy (CMHP)

Community Health Voice

Community Pharmacy Humber

Community Pharmacy NI (CPNI)

Community Pharmacy Scotland (CPS)

Community Pharmacy Wales/Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Community Pharmacy Wales /Fferylliaeth Gymunedol Cymru (Aberystwyth)

Community Pharmacy Wales (Cardiff)/Fferylliaeth Gymunedol Cymru (Caerdydd)

Community Pharmacy Wales (Narberth)/Fferylliaeth Gymunedol Cymru (Arberth)

Community Pharmacy Wales (North Wales)/Fferylliaeth Gymunedol Cymru (Gogledd Cymru)

Community Pharmacy Wales (Swansea)/Fferylliaeth Gymunedol Cymru (Abertawe)

Company Chemists' Association (CCA)

Coventry Local Pharmaceutical Committee

Chief Pharmaceutical Officers (CPhO)

De Montfort University

Derbyshire Healthcare NHS Foundation Trust

Derbyshire Local Pharmaceutical Committee

Directors of Pharmacy Scotland

Dorset Local Pharmaceutical Committee	Monkbar Pharmacy
East Midlands Pre-registration Training Group	National Pharmacy Association (NPA) - England
East Sussex Better Together VTS Pilot Programme Board	National Pharmacy Association (NPA) - Scotland and Wales/Cymdeithas Fferyllol Cenedlaethol – Cymru a’r Alban
Gloucestershire Hospitals NHS Foundation Trust	Newcastle University
Great North Clinical Pharmacy Network (NE England)	NHS Barnsley Clinical Commissioning Group
Greater Manchester Local Pharmaceutical Committee	NHS Education for Scotland (NES)
Guild of Healthcare Pharmacists (GHP)	NHS England and NHS Improvement
Health Education and Improvement Wales (HEIW)/Addysg a Gwella Iechyd Cymru	NHS Grampian
Health Education England (HEE)	NHS Grampian Area Pharmaceutical committee
Healthcare Improvement Scotland	NHS Greater Glasgow and Clyde Area Pharmaceutical Committee
Healthwatch Barnsley	NHS Lothian
Highland Pharmacy Education and Research Centre	Norfolk and Suffolk NHS Foundation Trust (NSFT)
James Mckeever Ltd Muirend Pharmacy	Norfolk Local Pharmaceutical Committee
Keele University	Northern Lincolnshire and Goole NHS Trust
King's College Hospital	Nottingham University
King's College London	Nottingham University Hospitals NHS Trust
Kingston University	O'Briens Pharmacy Group
Leeds Teaching Hospitals NHS Trust	PAGB
LGBT Foundation	PCT Healthcare Ltd
Liverpool John Moores University	Pharmaceutical Services Negotiating Committee (PSNC)
MB Health	Pharmaceutical Society of Northern Ireland (PSNI)
McKesson UK	Pharmacists’ Defence Association (PDA)
MediCare Pharmacy Group	Pharmacy Forum of Northern Ireland
Medicure Pharmacy	Pharmacy London (London-wide Local Pharmaceutical Committee Group)
Michael Franklin Chemists Ltd	

Pharmacy Schools Council (PhSC)	Swansea University/Prifysgol Abertawe
Pharmacy Schools Council (PhSC) Postgraduate Pharmacy Task Group	Tees Esk and Wear Valleys NHS Foundation Trust
Pre-registration Advisory Group Yorkshire and Humber	UK Black Pharmacist Association
Preston's College	UK Healthcare Education Advisory Committee (UKHEAC)
Primary Care Pharmacy Association (PCPA)	University College London
Queen's University	University Hospitals of Leicester
Research Strategy Implementation Group (RSIG)	University of Bath
Robert Gordon University	University of Birmingham
Rowlands Pharmacy	University of Bradford
Royal College of General Practitioners (RCGP)/Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu	University of Brighton
Royal College of Physicians (RCP)	University of Central Lancashire
Royal Pharmaceutical Society (RPS)	University of East Anglia
Royal Pharmaceutical Society (RPS) Scotland	University of Hertfordshire
Royal Pharmaceutical Society (RPS) Wales/Cymdeithas Fferyllol Frenhinol (Cymru)	University of Leeds
Sandwell Local Pharmaceutical Committee	University of London
Scottish Government	University of Manchester
Scottish Hospital Pharmacist Education and Training Group	University of Nottingham
Sefton Local Pharmaceutical Committee	University of Reading
Sheffield Teaching Hospitals NHS Trust	University of Strathclyde
South Staffordshire Local Pharmaceutical Committee	University of Sussex
South Tees Hospitals NHS Foundation Trust	Welsh Government/Llywodraeth Cymru
South West London and St George's NHS Trust	Welsh Pharmaceutical Committee/Pwyllgor Fferyllol Cymru
Southern Health and Social Care Trust	Western General Hospital, NHS Lothian
	Worcestershire Acute Hospitals NHS Trust
	York Teaching Hospital NHS Foundation Trust